



Swyddfa
Gartref

Ymddygiad sy'n Rheoli neu'n Gorfodi

Fframwaith Canllawiau Statudol

5 Ebrill 2023

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	4
Adran 1 - Diben y canllawiau hyn.....	5
Nodau'r canllawiau	5
Cynulleidfa	5
Cyflwyniad.....	6
Y drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi	8
Adran 2 - Ymateb cyfiawnder troseddol	11
Mathau o ymddygiad	12
Adnabod y drosedd	18
Cynnal asesiadau risg priodol	21
Gwrth-honiadau ac adnabod y tramgwyddwr	23
Mathau o dystiolaeth	23
Tactegau tramgwyddwr	30
Potensial i fynd ymlaen ag erlyniad heb dystiolaeth fyw y dioddefwr (erlyniadau ar sail tystiolaeth)	33
Ystyried troseddau eraill.....	34
Lle nad yw'r drosedd yn berthnasol	36
Adran 3 - Yr amddiffyniad	36
Adran 4 - Cosbau troseddol a gorchmynion amddiffyn	37
Adran 5 - Ymateb amlasiantaeth	40
Sut y gall gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol helpu	40
Sut y gall gwasanaethau ac asiantaethau eraill gynorthwyo	41
Adran 6 - Cam-drin ar ôl gwahanu, niwed cysylltiedig, troseddau a mathau eraill o gam-drin domestig	42
Camdriniaeth ar ôl gwahanu	42
Aflonyddu neu stelcian	44
Cyhuddo ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi ac aflonyddu neu stelcian	46
Dynladdiad domestig a hunanladdiad	48
Mathau eraill o gam-drin domestig	48
Cam-drin economaidd.....	50
Camdriniaeth wedi'i hwyluso gan dechnoleg.....	55
Camdriniaeth yn ymwneud â ffydd	59
Cam-drin ar sail 'Anrhydedd' fel y'i gelwir.....	59
Atodiad A - Ystyriaethau cysylltiedig	59
Rhyw	61

Oedran	62
Statws mewnfudo a dioddefwyr mudol	64
Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd	65
Atodiad B - Y drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi	65
Pŵer cyfreithiol ar gyfer canllawiau statudol.....	67
Atodiad C - Darpariaethau yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 sy'n berthnasol i'r canllawiau hyn	68
Atodiad D - Diffiniadau perthnasol yn Neddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015	72
Atodiad E - Enghreifftiau o resymau dros achwynwyr yn tynnu'n ôl	75
Atodiad F - Troseddau presennol a all fod yn berthnasol mewn achosion cam-drin domestig	77
Atodiad G - Cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr	80
Atodiad H - Rhestr o acronymau	84
Annex A	

Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 77 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 (Deddf 2015). Mae'n rhaid i unrhyw bersonau neu asiantaeth sy'n ymchwilio i droseddau mewn perthynas ag ymddygiad rheoli neu orfodi o dan adran 76 o Ddeddf 2015 ei hystyried. **Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu'n bennaf at gyrff statudol ac anstatudol sy'n gweithio gyda dioddefwyr, tramgwyddwyr a gwasanaethau comisiynu, gan gynnwys yr heddlu, asiantaethau cyfiawnder troseddol ac asiantaethau eraill.**

Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth am ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, er mwyn helpu i adnabod, rhoi tystiolaeth, cyhuddo, erlyn ac euogfarnu'r drosedd. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn darparu gwybodaeth ar: leihau'r risg o niwed, a chefnogi, y dioddefwr a'i deulu, gan gynnwys sut y gall asiantaethau a gwasanaethau cymorth eraill gynorthwyo; a rheoli'r tramgwyddwr.

Bwriedir i'r canllawiau hyn gael eu darllen ochr yn ochr â Chanllawiau [Statudol y Ddeddf Cam-drin Domestig](#),¹ Deddf [Trais yn Erbyn Menywod, Deddf Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015](#) a Strategaeth [Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol](#). Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi [Strategaeth newydd sy'n Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched \(VAWG\)](#) a ddilynwyd gan [Gynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig](#) a [Datganiad Sefyllfa ar Gefnogi Dioddefwyr Troseddau Gwrywaidd](#). Ategir y rhain gan [Ddatganiad Disgwyliadau Cenedlaethol diwygiedig](#), sy'n darparu canllawiau clir a chyson i ardaloedd lleol ar sut i gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr pob math o VAWG.

Mae Adran 1 yn amlinellu'r nodau, a'r gynulleidfa ar gyfer, y canllaw hwn ac mae'n rhoi trosolwg o'r drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.

Mae Adran 2 yn rhoi rhagor o fanylion am yr hyn sy'n gyfystyr ag ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, canllawiau ar nodi'r drosedd a rhoi tystiolaeth ohoni, gan gynnwys: cynnal asesiadau risg priodol; trosolwg o dactegau a ddefnyddir gan gyflawnwyr; a gwybodaeth ynghylch lle nad yw'r drosedd yn berthnasol a lle y dylid ystyried troseddau eraill.

Mae adrannau 3 a 4 yn rhoi manylion am yr amddiffyniad lle mae'r diffynnydd yn credu ei fod ef neu hi yn gweithredu er budd pennaf y dioddefwr, cosbau troseddol, a gorchmynion amddiffyn ar gyfer y drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.

Mae Adran 5 yn amlinellu pwysigrwydd ymateb amlasiantaeth i achosion o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi a sut y gall cymorth a gwasanaethau eraill gynorthwyo'r dioddefwr a'i deulu a rheoli'r troseddwr.

Mae Adran 6 yn darparu gwybodaeth am niwed cysylltiedig, troseddau a mathau eraill o gam-drin domestig.

Mae geirfa o acronymau a ddefnyddir drwy'r canllawiau hyn i'w gweld yn **Atodiad H**.

¹ Adlewyrchir cynnwys Canllawiau Statudol y Ddeddf Cam-drin Domestig yn y ddogfen hon er mwyn sicrhau aliniad. Bydd y ddau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau deddfwriaethol a/neu weithredol yn y dyfodol i'r system cyfiawnder troseddol.

Adran 1 - Diben y canllawiau hyn

Nodau'r canllawiau

1. Bwriad y canllawiau hyn yw darparu:

- **Gwybodaeth eglur am yr hyn sy'n gyfystyr ag ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi a sut i adnabod y drosedd.** Nod y canllawiau hyn yw cefnogi asiantaethau i ddeall ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi ac adnabod y drosedd, gan gynnwys y mathau o ymddygiadau sydd o fewn amrediad y drosedd a'r effaith y gall yr ymddygiadau hyn gael ar ddioddefwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc.
- **Canllawiau i'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill ar amgylchiadau lle mae'r drosedd yn berthnasol a lle gallai troseddau eraill gael eu hystyried.** Cyhoeddir y canllawiau hyn i gynorthwyo asiantaethau cyfiawnder troseddol ac asiantaethau eraill i nodi a dangos tystiolaeth o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi ac wrth gyhuddo, erlyn ac euogfarnu tramgwyddwyr o'r drosedd.
- **Canllawiau i'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol ar y gwahanol fathau o dystiolaeth a all fod o gymorth wrth adnabod, rhoi tystiolaeth a chyhuddo'r drosedd, a sut y dylai hyn gynorthwyo erlyniadau a dedfrydu.** Nid yw'r drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn ymwneud ag un digwyddiad – mae'n batrwm ymddygiad bwriadol sy'n digwydd dros amser, er mwyn i un unigolyn arfer pŵer, rheolaeth neu orfodaeth dros un arall. Wrth ymateb i alwad-allan neu adroddiad, neu amheuan yn deillio o ymchwiliadau, mae'n bwysig i swyddogion heddlu edrych y tu hwnt i'r adroddiad neu alwad unigol y maent yn ymateb iddo, i ystyried y cyd-destun ehangach, ac i gynnal ymholiadau ynghylch patrymau posibl o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi a mathau eraill o gam-drin sy'n cael eu cyflawni.
- **Gwybodaeth am leihau risg i'r dioddefwr, gan gynnwys: defnyddio gorchmynion amddiffyn; cefnogi'r dioddefwr; ac ymateb i ymddygiad y tramgwyddwr.** Mae ymateb amlasiantaeth yn hanfodol i adnabod a chynorthwyo dioddefwyr a'u teuluoedd yn gynnar ac ymateb i'r tramgwyddwr. Mae gweithio amlasiantaeth yn galluogi gweithwyr proffesiynol i gael gwell dealltwriaeth o'r holl risgiau i ddioddefwyr ac anghenion y dioddefwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae gweithio amlasiantaeth hefyd yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall a rheoli'r tramgwyddwr (ac unrhyw aelodau eraill o'r teulu ac unigolion cysylltiedig), ac i weithio ar y cyd i ymateb i risgiau heb aros i'r cam-drin waethygu.

Cynulleidfa

2. Mae'r canllawiau hyn yn ymestyn i Loegr ac i faterion a gadwyd yn ôl yng Nghymru. Mae'n rhaid i unrhyw bersonau neu asiantaethau sy'n defnyddio'r canllawiau hyn hefyd fod yn gyfarwydd â'r [Canllawiau Statudol ar Gam-drin Ddomestig](#). Dylai asiantaethau Cymreig neu gyrff datganoledig sy'n cyflawni swyddogaethau sydd wedi'u cadw i Lywodraeth y DU (plismona a materion cyfiawnder troseddol, sifil a theulu) gyfeirio at y canllawiau hyn, i'w darllen ochr yn

ochr â deddfwriaeth a strategaethau perthnasol.

3. **Mae'r drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi yn gymwys yn Lloegr a Chymru, ond dylid nodi bod gan Senedd Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i ddeddfu ar gyfer Cymru yn y maes hwn.** Dylai cyrff datganoledig a sefydliadau lleol yng Nghymru felly gyfeirio at y ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol, mewn perthynas â materion datganoledig, megis [Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015](#), [Trais yn Erbyn Menywod, Strategaeth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(VAWDASV\)](#) a chanllawiau cysylltiedig, y cyfeirir atynt drwy gydol y ddogfen hon. Byddem yn disgwyl i sefydliadau datganoledig a sefydliadau nad ydynt wedi'u datganoli barhau i gydweithio i roi Deddf Cam-drin Domestig 2021 ar waith, lle mae'n berthnasol.

4. **Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu'n bennaf at yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol yn Lloegr a Chymru sy'n ymwneud ag ymchwilio i ymddygiad troseddol.**

Fodd bynnag, mae'r wybodaeth yn y canllawiau hyn hefyd yn bwysig i sefydliadau ac asiantaethau yn Lloegr a Chymru sy'n gweithio gyda dioddefwyr (gan gynnwys plant) neu gyflawnwyr cam-drin domestig, ac i'r rhai sy'n delio â chanlyniadau eraill cam-drin domestig, megis sefydliadau ariannol. Gall fod gan rai o'r sefydliadau hyn ddyletswyddau statudol i ddiogelu dioddefwyr cam-drin domestig, gan gynnwys mewn perthynas â deddfwriaeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau (CHTh)
- Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), Cyfreithwyr, Barnwyr ac Ynadon
- Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys Plant a Theuluoedd (Cafcass) a Cafcass Cymru
- Darparwyr gwasanaethau trais cam-drin domestig, gan gynnwys unrhyw wasanaethau cam-drin domestig arbenigol (gan gynnwys gwasanaethau i ddynion a bechgyn)
- Timau tai a digartrefedd lleol, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- Blynnyddoedd cynnar, gofal plant, ysgolion, colegau a lleoliadau addysg uwch
- Darparwyr gofal cymdeithasol plant ac oedolion
- Timau iechyd meddwl cymunedol a darparwyr cleifion mewnol (lle mae'n

gymwys)

- NHS England, darparwyr Gofal Sylfaenol y GIG, Ymddiriedolaethau GIG ac Ymddiriedolaethau Sefydledig GIG
- Byrddau Gofal Integredig (ICBs) a Phartneriaethau Gofal Integredig (ICPs)
- Cyflogwyr
- Gwasanaethau Carchardai a Phrawf EF
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (HMCTS)
- Gwasanaethau troseddau ieuenctid
- Canolfan Byd Gwaith
- Gwasanaethau ariannol (gan gynnwys banciau a chymdeithasau adeiladu)
- Grwpiau cymunedol a ffydd (gan gynnwys arweinwyr ffydd)

Cyflwyniad

"Mae rheolaeth orfodol yn creu cadwyni anweledig ac ymdeimlad o ofn sy'n

treiddio trwy bob elfen o fywyd dioddefwr. Mae'n gweithio i gyfyngu ar eu hawliau dynol trwy eu hamddifadu o'u rhyddid a lleihau eu gallu i weithredu.”²

5. Cyflwynodd Adran 76 o [Ddeddf Troseddau Difrifol 2015](#) (Deddf 2015) y drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi mewn perthynas agos neu deuluol. Daethpwyd â'r drosedd i rym i gydnabod effaith ddifrifol ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi a all gynnwys cam-drin economaidd, emosiynol a seicolegol, cam-drin domestig wedi'i hwyluso gan dechnoleg, yn ogystal â bygythiadau, os yw trais corfforol a rhywiol neu gamdriniaeth yn cyd-ddigwydd â nhw neu beidio.
6. Yn flaenorol, dim ond ymddygiad rhwng partneriaid agos presennol, os oeddent yn byw gyda'i gilydd neu beidio, a chyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu sy'n byw gyda'i gilydd yr oedd y drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn ei ddal. Roedd hyn yn golygu na ellid erlyn cam-drin gan gyn-bartner neu aelod o'r teulu nad oedd bellach yn byw gyda'r dioddefwr am ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi. Fel y cyfryw, pan adroddwyd, yn aml roedd diffyg eglurder ynghylch pa drosedd i'w chymhwyso, gydag ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn aml yn cael ei gyhuddo a'i erlyn gan ddefnyddio troseddau eraill, megis stelcian neu aflonyddu (fel cwrs ymddygiad sy'n digwydd ar ddau achlysur neu fwy).
7. Diwygiodd adran 68 o'r [Ddeddf Cam-drin Domestig 2021](#) (Deddf 2021) y diffiniad o "yn bersonol gysylltiedig" yn adran 76 o Ddeddf 2015. Roedd hyn yn dileu'r gofyniad "byw gyda'n gilydd", sy'n golygu **bod y drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi bellach yn berthnasol i bartneriaid, cyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu, heb ystyried os yw'r dioddefwr a'r tramgwyddwr yn byw gyda'i gilydd.**
8. Cafodd ydiwygiad ei wneud i ymestyn y drosedd gan gydnabod y gall ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi barhau a chynyddu'n aml pan ddaw perthynas i ben, neu mewn achosion lle nad yw'r dioddefwr bellach yn byw gyda'r tramgwyddwr. Cyn ymestyn y drosedd, roedd yr heddlu, sefydliadau cam-drin domestig ac erlynwyr yn aml yn mynegi pryderon nad oedd yn eglur pryd roedd perthynas wedi dod i ben.³Gall dioddefwyr gael eu gorfodi gan y tramgwyddwr i ddychwelyd i'r berthynas, gallant deimlo bod angen iddynt fod yn y berthynas oherwydd bod angen (e.e. oherwydd anghenion tai, dibyniaeth ariannol, diffyg cymorth y tu allan i'r berthynas, plant a phroblemau cyswllt)⁴ neu gallant ganfod bod aros yn y berthynas yn fwy diogel, gyda gwahanu yn ffactor risg sylweddol mewn achosion cam-drin domestig.⁵ Gall ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi hefyd gael ei gyflawni mewn achosion lle nad yw'r dioddefwr erioed wedi bod mewn perthynas agos neu wedi byw gyda'r tramgwyddwr, ond gall fod mewn perthynas riant neu deuluol ag ef drwy fagu'r un plentyn.
9. Gall y ffactorau hyn gyflwyno heriau i'r heddlu o ran casglu tystiolaeth i adeiladu achos, naill ai ar ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi neu stelcian. **Mae dileu'r gofyniad i gyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu fod yn "byw gyda'i gilydd" yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae hefyd yn bwysig bod yn**

² [Coercive control - Cymorth i Ferched \(womensaid.org.uk\).](#)

³ [Review of the Controlling or Coercive Behaviour Offence.](#)

⁴ [Refuge.org.uk \(2022\) Barriers to Leaving.](#)

⁵ [Myhill A, Hohl K \(2019\) The "Golden Thread": Coercive Control and Risk Assessment for Domestic Violence.. Journal of Interpersonal Violence. Cyfrol 34, Rhifyn 21-22. tt.4477-4497.](#)

ymwybodol y gall ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi esblygu pan nad yw'r troseddwr yn byw gyda'r dioddefwr rhagor, â thactegau newydd yn cael eu defnyddio i arfer rheolaeth dros ddiodeffwr.

10. **Daeth y diwygiad i'r drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi i rym ar 5 Ebrill 2023 ac nid yw'n gymwys yn ôl-weithredol.** Mae hyn yn golygu na ellir dwyn cyhuddiadau mewn perthynas â cham-drin ar ôl gwahanu sydd wedi digwydd cyn y dyddiad y daw'r drosedd ddiwygiedig i rym. Os nad ydych yn siŵr os yw'r newid i'r drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn gymwys mewn achos penodol, yn y lle cyntaf, siaradwch â swyddog heddlu cam-drin domestig arbenigol. Gall yr heddlu hefyd geisio Cyngor Ymchwilio Cynnar ychwanegol gan y CPS.⁶
11. Mae'r canllawiau statudol hyn wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r drosedd, mesurau ehangach o fewn Deddf 2021 a'r Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig sy'n cydreded â hi, yn ogystal â chanllawiau a deunydd hyfforddi perthnasol eraill ar gyfer asiantaethau rheng flaen.
12. Creodd Adran 1(3)(c) o Ddeddf 2021 ddiffiniad statudol o gam-drin domestig sy'n cwmpasu amrywiaeth o ymddygiadau camdriniol, gan gynnwys ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi. Mae adran 2 o Ddeddf 2021 yn diffinio'r term "cysylltiad personol" at ddiben y meini prawf perthynas yn adran 1(2)(a) o Ddeddf 2021. Cyfeiriwch at **Atodiad C** i gael y diffiniad statudol llawn o gam-drin domestig, y diffiniad cyfreithiol o "gysylltiad personol" a diwygiad Deddf 2021 i'r drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.
13. Yn y canllawiau hyn, cyfeirir at "A" fel y sawl sy'n cyflawni'r cam-drin a chyfeirir at "B" fel diodeffwr y cam-drin. Defnyddir y term 'dioddefwr' yn y ddogfen hon i ddynodi rhywun sydd wedi profi cam-drin domestig neu fathau eraill o gam-drin. Fel y nodir yn adran 3 o Ddeddf 2021, mae 'dioddefwr' yn cynnwys plant (dan 18 oed) sydd wedi gweld, clywed, neu brofi cam-drin domestig ac sy'n perthyn i, neu o dan ofal, naill ai'r diodeffwr sy'n oedolyn neu'r troseddwr. Dylid nodi nad yw pawb sydd wedi profi neu sy'n profi cam-drin domestig yn dewis disgrifio eu hunain fel 'dioddefwr' ac efallai y byddai'n well ganddynt derm arall, er enghraifft, 'goroeswr'. Rydym yn cydnabod y ddau derm, ond yn y ddogfen hon, rydym wedi defnyddio iaith Deddf 2021, sef 'dioddefwr'.
14. Mae'r holl enwau a ddefnyddir mewn astudiaethau achos yn y canllawiau hyn wedi'u newid i ddiogelu hunaniaeth a chynnal anhysbysrwydd. Mewn rhai astudiaethau achos, mae achosion unigol wedi'u huno i ddiogelu ymhellach anhysbysrwydd diodeffwyr. Mae'r astudiaethau achos hyn wedi'u creu drwy gyfuniad o ffeiliau'r heddlu, ymatebion i'r ymgynghoriad ac astudiaethau achos a ddarparwyd gan sefydliadau ac elusennau yn y sector.

Y drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi

15. Mae'r drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn gymwys dim ond pan fydd:

- Y diodeffwr a'r troseddwr yn **gysylltiedig yn bersonol** ar yr adeg y mae'r ymddygiad yn digwydd;

⁶ Lle mae'n briodol, dylai'r Heddlu a'r Prif Swyddogion gyfeirio at yr Awdurdod Erlyn Gwasanaethau (SPA) yn hytrach na'r CPS.

- Yr ymddygiad wedi cael **effaith ddifrifol** ar y dioddefwr;
- Yr ymddygiad yn **digwydd dro ar ôl tro neu'n barhaus**; a
- **mae'n rhaid bod y cyflawnwr wedi gwybod y byddai ei ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar y dioddefwr**, neu fod yr ymddygiad wedi bod yn gyfryw y “dylai fod wedi gwybod” y byddai wedi cael yr effaith honno.

16. Dylid ymdrin ag ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi fel rhan o weithdrefnau diogelu ac amddiffyn y cyhoedd a dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o effaith yr ymddygiad hwn ar ddioddefwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

17. Gweler **Atodiad B** am y drosedd lawn o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi a'r pŵer cyfreithiol ar gyfer y canllawiau statudol hyn.

18. Mae adran 68 o Ddeddf 2021 yn diwygio Adran 76 o Ddeddf 2015, y drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi mewn perthynas agos neu deuluol, i ddarllen fel a ganlyn:

“(6) Mae A a B “yn gysylltiedig yn bersonol” os yw unrhyw un o'r canlynol yn gymwys—

- (a) maen nhw, neu maen nhw wedi bod, yn briod â'i gilydd;
- (b) maen nhw, neu maen nhw wedi bod, yn bartneriaid sifil i'w gilydd;
- (c) maen nhw wedi cytuno i briodi ei gilydd (os yw'r cytundeb wedi cael ei derfynu neu beidio);
- (d) maen nhw wedi mynd i mewn i gytundeb partneriaeth sifil (os yw'r cytundeb wedi cael ei derfynu neu beidio);
- (e) maen nhw, neu maen nhw wedi bod, mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd;
- (f) mae gan y ddau, neu mae adeg wedi bod pan oedd gan y ddau, berthynas rhiant mewn perthynas â'r un plentyn (gweler is-adran (6A));
- (g) maen nhw'n berthnasau.⁷

(6A) At ddibenion is-adran (6)(f) mae gan berson berthynas rhiant mewn perthynas â phlentyn—

- (a) os yw'r person yn rhiant i'r plentyn, neu
- (b) os oes gan y person gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.”

19. Mae dwy ffordd y gellir profi bod ymddygiad person A yn cael ‘effaith ddifrifol’ ar berson B:

- Os yw'n peri i berson B ofni, ar ddau achlysur neu fwy, y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn – adran 76(4)(a); neu
- Os yw'n achosi braw neu drallod difrifol i berson B sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar ei weithgareddau arferol o ddydd i ddydd – adran 76(4)(b).

20. Mae'r drosedd yn ceisio dal **patrymau cam-drin** sy'n digwydd dros gyfnod hir o amser, neu'n **achosi ofn trais** ar ddau achlysur neu fwy, sy'n galluogi unigolyn i

⁷ Mae adran 63 o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 yn datgan bod “perthynas”, mewn perthynas â pherson, yn golygu: (a) tad, mam, llysdad, llysfam, mab, merch, llysfab, llysfarch, nain, taid, ŵyr neu wyres y person hwnnw neu [F5briod, cyn-briod, partner sifil neu gyn-bartner sifil], neu (b) brawd, chwaer, ewythr, modryb, nith [E6, nai neu gefnder cyntaf] (boed o waed llawn neu o hanner gwaed neu [F7trwy briodas neu bartneriaeth sifil]) y person hwnnw neu [F5briod] y person hwnnw, cyn-briod, partner sifil neu gyn-bartner sifil, ac mae'n cynnwys, mewn perthynas â pherson [F8 sy'n cyd-fyw neu sydd wedi cyd-fyw â pherson arall], unrhyw berson a fyddai'n dod o fewn paragraff (a) neu (b) pe bai'r partïon yn briod â'i gilydd [F9neu yn bartneriaid sifil i'w gilydd].

arfer pŵer, rheolaeth neu orfodaeth dros rywun arall.

Adran 2 - Ymateb cyfiawnder troseddol

21. Wrth ymchwilio i ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi, mae'n rhaid bodloni'r holl feini prawf canlynol er mwyn i'r drosedd fod yn gymwys:

A) Mae'n rhaid i'r ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi ddigwydd “dro ar ôl tro” (ar ddau achlysur neu fwy) neu “yn barhaus” (ar sail barhaol).

Ni fyddai ymddygiad a arddangosir ar un achlysur yn unig yn gyfystyr ag ymddygiad ailadroddus neu barhaus a bydd llysoedd yn chwilio am dystiolaeth o ymddygiad sydd wedi digwydd ar ddau achlysur neu fwy, neu batrwm o ymddygiad a sefydlwyd dros gyfnod o amser. Felly, mae'n rhaid casglu cymaint o dystiolaeth â phosibl i ddangos bod yr ymddygiad wedi digwydd ar ddau achlysur neu fwy, ei fod yn ailadroddus neu'n barhaus ei natur. **Mae'n rhaid i ddatganiad dioddefwr gynnwys effaith yr ymddygiad ar y dioddefwr, gan gynnwys y ffordd y gallai ei ymddygiad fod wedi newid o ganlyniad i'r drosedd. Mae hyn yn allweddol i gasglu tystiolaeth.**

Nid yw Deddf 2015 yn pennu amserlen rhwng digwyddiadau dro ar ôl tro o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, felly, nid oes rhaid i'r cam-drin ddigwydd yn syth ar ôl ei gilydd o reidrwydd. Gallai'r ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi fod yn gyfuniad o wahanol fathau o ymddygiad camdriniol, er enghraifft economaidd, emosiynol, rhywiol neu gorfforol. Gall cam-drin arall fod yn bresennol a gall troseddau eraill fod yn gymwys yn ogystal ag ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi. Fodd bynnag, lle mae cam-drin yn digwydd ar ddau achlysur ond dros gyfnod hir (er enghraifft, deng mlynedd ar wahân), mae'n annhebygol y bydd hyn yn cael ei ystyried yn ymddygiad sydd wedi digwydd dro ar ôl tro neu'n barhaus. Dylai swyddogion gofnodi unrhyw wybodaeth berthnasol yn gywir dros gyfnod estynedig o amser, oherwydd gall y rhai sy'n cam-drin barhau â'r gamdriniaeth am flynyddoedd, gan gynnwys ar ôl gwahanu. Er enghraifft, mae cyfraith achosion yn dangos y gall digwyddiadau ar benblwyddi a phen-blwyddi priodas fod yn ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.⁸

B) Mae'n rhaid i'r patrwm ymddygiad gael “effaith ddifrifol” ar y dioddefwr.

Mae hyn yn golygu bod y tramgwyddwr wedi achosi i'r dioddefwr naill ai **ofni**:

- **Y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn ar ddau achlysur neu fwy** (adran 76(4)(a)); **a/neu**;
- **Wedi achosi braw neu drallod difrifol sydd wedi cael effaith andwyol sylweddol ar weithgareddau arferol y dioddefwr o ddydd i ddydd** (adran 76(4)(b)).

Mae enghreifftiau o achosion lle mae ymddygiad y tramgwyddwr yn cael “effaith ddifrifol” ar y dioddefwr yn cynnwys achosion lle mae'r dioddefwr yn destun trais dro ar ôl tro a/neu drais corfforol, ymosodiad rhywiol, gorfodaeth, cam-drin, neu fygythiadau o weithredoedd o'r fath. Fodd bynnag, nid oes angen i drais a/neu fygythiadau o drais fod yn bresennol er mwyn i ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi ddigwydd.

Gall enghreifftiau o effaith ddifrifol ar y dioddefwr gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Stopio neu newid y ffordd y mae rhywun yn cymdeithasu

⁸ Lau v. DPP [2000] Crim LR 580.

- Dirywiad iechyd corfforol neu feddylol
- Newid yn y drefn arferol gartref gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag amser bwyd neu waith cartref
- Rhoi mesurau ar waith yn y cartref i ddiogelu eu hunain neu eu plant
- Newidiadau i batrymau gwaith, statws cyflogaeth neu lwybrau i'r gwaith Cael eu monitro gan y tramgwyddwr a bod angen adrodd yn ôl iddo
- Cyfyngu ar eu hannibyniaeth ariannol e.e. y tramgwyddwr yn gwadu mynediad at arian, yn atal y dioddefwr rhag gweithio, yn tanseilio budd-daliadau cyflogaeth neu les, yn gwrthod mynediad i gyfrifon banc ar y cyd, neu'n gorfodi dyled
- Cael eu hamddifadu rhag mynediad at feddyginiaeth, defnydd ffôn a'r rhyngwyd
- Teimlo na all teulu na ffrindiau ymweld
- Teimlo na allant gymryd rhan mewn gweithgareddau roeddent yn eu mwynhau o'r blaen
- Mynd yn ynysig yn gymdeithasol
- Dweud wrthynt beth allant a beth na allant ei wisgo
- Niwed emosiynol a seicolegol gan gynnwys gorbryder, iselder, anhwylder pryder ôl-drawmatig
- Cael eu cosbi neu'n gorfod dilyn rheolau
- Byw mewn ofn cosb o unrhyw fath

Wrth fynychu galwad allan am ymosodiad corfforol neu unrhyw fath arall o ymosodiad, mae'n bwysig felly i swyddogion heddlu ac ymatebwyr rheng flaen edrych y tu hwnt i'r hyn y gellir ei gyflwyno iddynt yn y lleoliad ac **ystyried os oes patrwm o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi neu fathau arall o gam-drin yn cael eu cyflawni. Gall ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi ddigwydd heb bresenoldeb unrhyw gam-drin corfforol neu rywiol.** Mae'n bwysig nodi efallai na fydd "effaith ddifrifol" ar y dioddefwr yn amlwg ar unwaith, er enghraifft, os nad yw'n ymddangos bod y dioddefwr mewn trallod emosiynol.

Ymhellach, gall ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi gael effaith gronnol ar y dioddefwr, ac mewn llawer o achosion, gall fod ond yn dod i delerau ag effaith y gamdriniaeth neu ddeall ei fod wedi digwydd yn ddiweddarach. Felly, mae'n hollbwysig cynnal ymchwiliad trylwyr.

C) Mae'n rhaid i'r ymddygiad fod yn gyfryw fel bod y tramgwyddwr yn gwybod neu y dylai wybod y bydd yn cael effaith ddifrifol ar y dioddefwr. Mae "Dylai wybod" yn golygu'r hyn y byddai person rhesymol sydd â'r un wybodaeth yn ei feddiant yn gwybod.

D) Mae'n rhaid i'r tramgwyddwr a'r dioddefwr fod â chysylltiad personol pan ddigwyddodd y cam-drin. Cyfeiriwch at **Atodiad C** i gael diffiniad Deddf 2021 o "gysylltiad personol".

Mathau o ymddygiad

22. Mae ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn rhannu elfennau cyffredinol â throseddau dal neu ymddygiad eraill megis stelcian ac aflonyddu, gan gynnwys bod yr ymddygiad yn barhaus a bydd cyflawnwyr yn defnyddio amrywiol ddulliau i

frifo, bychanu, brawychu, ecsbloetio, ynysu a dominyddu eu dioddefwyr.⁹**Mae'n batrwm ymddygiad bwriadol sy'n digwydd ar ddau achlysur neu fwy, neu sy'n digwydd dros amser, er mwyn i un unigolyn arfer pŵer, rheolaeth neu orfodaeth dros rywun arall.** Mae rhestr o ymddygiadau sydd o fewn yr amrediad o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi wedi'i chynnwys isod (tudalen 15).

23. **Efallai na fydd dioddefwyr ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn ymwybodol o, yn barod i gydnabod, neu'n gallu cyfathrebu bod y cam-drin y maent yn profi ar hyn o bryd, neu wedi'i brofi o'r blaen, yn rhan o batrwm o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.** Fodd bynnag, mae ymddygiad o'r fath yn aml yn parhau neu'n dwysáu pan fydd perthynas wedi dod i ben, a all fod yn gyfnod peryglus i ddioddefwr, â risgiau cynyddol i'w diogelwch corfforol.¹⁰
24. Gall dioddefwyr brofi'r ymddygiadau camdriniol hyn ar yr un pryd, gallant ddigwydd yn gyflym ac yn ddwys, neu gallant ddatblygu ac adeiladu'n raddol dros amser, gyda dioddefwyr ddim yn sylweddoli eu bod yn cael eu cam-drin. Wrth wraidd ymddygiad camdriniol o'r fath mae awydd y tramgwyddwr i arfer pŵer a rheolaeth dros y dioddefwr.¹¹
25. **Mae'r tramgwyddwr yn gyfrifol am ddewis cyflawni'r ymddygiadau hyn ac mae'n atebol amdanynt.** Er y cydnabyddir y gall unrhyw un ddioddef cam-drin domestig, mae ystadegau'n dangos yn gyson bod menywod yn cael eu heffeithio'n anghymesur. Mae cam-drin domestig a gyflawnir gan ddynion tuag at fenywod yn aml yn gysylltiedig mewn ymchwil ag anghydraddoldeb rhywiol ehangach, casineb at fenywod a chanfyddiadau ynghylch normau rhyw niweidiol.¹²
26. Ers i'r drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi ddod i rym ar 29 Rhagfyr 2015, mae nifer y troseddau hyn a gofnodwyd gan yr heddlu wedi cynyddu'n gyson, gyda 41,626 o droseddau wedi'u cofnodi yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022.¹³ Mae hyn yn cymharu â 4,246 o droseddau yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017.¹⁴
27. Amcangyfrifodd Arolwg Troseddu Lloegr a Chymru (CSEW), y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, fod mwy na chwarter y menywod 16 oed a hŷn (29.3%) yn Lloegr a Chymru wedi profi cam-drin domestig (heb ei gyfyngu i ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi) ar ryw adeg yn eu bywydau. Ar gyfer dynion, roedd hyn tua 1 o bob 7 (14.1%).¹⁵
28. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, mewn 74.1% o'r troseddau cam-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu yn Lloegr a Chymru roedd y dioddefwr yn fenywod, ac mewn 25.9% o achosion roedd y dioddefwr yn

⁹ Stark, E (2007) [Coercive Control: The Entrapment of Women in Personal Life](#), Oxford: Oxford University Press, t.5.

¹⁰ Myhill A, Hohl K (2019) [The "Golden Thread": Coercive Control and Risk Assessment for Domestic Violence](#), *Journal of Interpersonal Violence*. Cyfrol 34, Rhifyn 21-22, tt.4477-4497.; y Swyddfa Gartref, Rhaglen Agored i Niwed a Gwybodaeth, NPCC, Coleg Plismona (2021) [Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Agored i Niwed \(VKPP\): Dynladdiadau Domestig a Hunanladdiadau Dioddefwyr a Amheuir yn ystod Pandemig Covid-19 2020-2021](#).

¹¹ Gweler Myhill, A (2018) [The police response to domestic violence: Risk, discretion, and the context of coercive control](#). City, University of London; [Controlling or Coercive Behaviour in an Intimate or Family Relationship | The Crown Prosecution Service \(cps.gov.uk\); An introduction to coercive control | Safelives](#).

¹² Guedes, A, Bott, S, Garcia-Moreno, C., Colombini, M. (2016) Bridging the gaps: a global review of intersections of violence against women and violence against children, see [What is domestic abuse? - Cymorth i Ferched \(womensaid.org.uk\)](#).

¹³ ONS (2022) [Data agored troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu Tablau Ardaloedd Heddlu o'r flwyddyn yn diweddu Mawrth 2013 ymlaen](#).

¹⁴ ONS (2017) [Cam-drin domestig yn Lloegr a Chymru - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#).

¹⁵ [Troseddau yn Lloegr a Chymru - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#) Nid oes gan y CSEW fesur ar gyfer mynychter ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, felly nid ydym yn gwybod y mynychter a amcangyfrifir o'r drosedd hon.

ddynion¹⁶. Rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 a'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, mae 72% o ddiodefwyr lladdiadau domestig wedi bod yn fenywod, sy'n cyfateb i tua 90 o fenywod yn cael eu lladd mewn lladdiad domestig bob blwyddyn yn Lloegr a Chymru. Roedd mwyafrif y diffynyddion a erlynwyd, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 am ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn ddynion (98%, lle roedd y rhyw yn hysbys).¹⁷

29. Gall ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi fod yn rhan o batrwm ehangach o gam-drin, sy'n cynnwys mathau eraill o gam-drin sy'n aml yn fwy amlwg neu weladwy, fel ymosodiad corfforol neu rywiol. Er bod adran 76 o Ddeddf 2015 yn nodi'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi fod yn gymwys, mae hefyd yn bwysig bod yn ymwybodol y gall rhai mathau o ymddygiad sy'n gyfystyr ag ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi amlygu eu hun mewn mathau eraill o niwed a chamdriniaeth, gan gynnwys cam-drin economaidd, cam-drin a hwylusir gan dechnoleg, aflonyddu neu stelcian (cyfeiriwch hefyd at *Adran 6 - Niwed cysylltiedig, troseddau a mathau eraill o gam-drin domestig*).

30. Mae gwahaniaethu rhwng ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi a mathau eraill o gam-drin, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys ymddygiad tebyg fel stelcian, yn ffactor pwysig wrth benderfynu pa drosedd i ymchwilio iddi er mwyn adeiladu achos a chymhwyso'r cyhuddiad priodol (cyfeiriwch hefyd at *Ystyried Troseddau Eraill* yn yr adran hon). Mae hefyd yn bwysig pennu'r risg a berir gan y tramgwyddwr er mwyn ystyried y cymorth arbenigol y gallai fod ei angen ar y dioddefwr ac i lywio unrhyw ddedfryd.

31. Wrth nodi ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, mae'n bwysig ystyried y cyd-destun y mae'r ymddygiad yn digwydd ynddo, yn enwedig:

- Hanes y berthynas rhwng y dioddefwr a'r tramgwyddwr (gall hyn gynnwys, er enghraifft, unrhyw hanes o gam-drin, cyfeiriadau at MARACs (Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol) a gwasanaethau cymorth cam-drin domestig arbenigol). Nid cofnodion troseddol o gam-drin yw'r unig ddangosyddion bod ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn digwydd;
- Tactegau'r tramgwyddwr (cyfeiriwch hefyd at *Dactegau'r Tramgwyddwr* yn yr adran hon); a'r
- Niwed, neu'r risg o niwed, ac effaith y niwed hwn ar y dioddefwr (cyfeiriwch hefyd at y *Mathau o Dystiolaeth* yn yr adran hon, Rhestr Wirio Ymateb Cyntaf Arfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) a'r Cydgyngor Cenedlaethol Penaethiaid Heddlu (NPCC) a Rhestr Wirio Casglu Tystiolaeth Cam-drin Domestig y CPS).

32. Mae'r rhestr ganlynol yn amlinellu ymddygiadau sydd o fewn yr amrediad o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi:

Trais/cam-drin corfforol a rhywiol ac ymddygiad treisgar

- Trais corfforol, a bygythiadau o drais corfforol;
- Bygythiad corfforol e.e. blocio drysau, clensio neu ysgwyd dyrnau, cau drysau'n

¹⁶ ONS (2022) [Mynychter a thueddiadau cam-drin domestig, Lloegr a Chymru - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#).

¹⁷ ONS (2022) [Cam-drin domestig a'r system cyfiawnder troseddol, Lloegr a Chymru - Swyddfa'r Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#).

- glep, taro waliau, smalio taro neu anelu at daro, taflu gwrthrychau at y dioddefwr neu o'i gwmpas, arddangos arfau neu wrthrychau niweidiol, gyrru'n beryglus neu'n afreolaidd â'r dioddefwr yn y car; ac
- Ymosodiad rhywiol, gorfodaeth neu gamdriniaeth, a bygythiadau o ymosodiad rhywiol.

Camdriniaeth emosiynol a seicolegol

- Camdriniaeth yn ymwneud â ffydd neu gredoau;
- Cam-drin geiriol;
- Beirniadaeth gyson o rôl y dioddefwr fel partner, priod neu riant;
- Beirniadu dewis y dioddefwr o ffrindiau a chydabod;
- Tanseilio a/neu drin y dioddefwr yn fwriadol; a
- Postio negeseuon diangen ar gyfryngau cymdeithasol y dioddefwr.

Rheoli Ymddygiad

- Rheoli neu fonitro gweithgareddau ac ymddygiad dyddiol y dioddefwr, er enghraifft gwneud iddynt roi cyfrif am eu hamser, pennu beth y gallant wisgo, beth a phryd y gallant fwyta, pryd a ble y gallant gysgu, â phwy y maent yn cyfarfod neu'n siarad, lle gallant weithio, cyfyngu mynediad i hyfforddiant/datblygiad ac ati;
- Defnyddio systemau digidol, megis dyfeisiau clyfar neu gyfryngau cymdeithasol, i orfodi, rheoli, cynhyrfu a monitro'r dioddefwr (e.e. cyfyngu ar y defnydd o'r ffôn a'i wirio, angen gwybod cyfrineiriau ar gyfer cyfrifon, defnyddio tracio lleoliad ar ddyfeisiau, postio delwedd a allai sbarduno'r person mewn ffordd negyddol);
- Rheoli a monitro mynediad y dioddefwr i'w swydd;
- Gweithredoedd o orfodaeth neu rym i berswadio'r dioddefwr i wneud rhywbeth nad ydynt yn fodlon gwneud;
- Cam-drin economaidd (e.e. dyled dan orfodaeth, rheoli gwariant/cyfrifon banc/buddsoddiadau/morgeisi /taliadau budd-dal);
- Defnyddio gweithle'r dioddefwr i'w reoli, e.e. gwrthod mynediad at waith, pennu ble maent yn gweithio, ymddangos yn y gwaith;
- Gwneud a gorfodi rheolau a rheoliadau y disgwylir i'r dioddefwr eu dilyn a defnyddio cosbau i wneud iddynt gydymffurfio e.e. gwneud cyhuddiadau neu fychanu person yn gyhoeddus neu'n breifat am wroddi wrth y rheolau;
- Gorfodi'r dioddefwr i gyflawni ymddygiad troseddol fel gwerthu cyffuriau neu gario arfau;
- Dilyn y dioddefwr a/neu ymddangos yn annisgwyl, e.e. yn ei man gwaith neu mewn mannau lle mae'n cyfarfod â ffrindiau;
- Gorfodaeth atgenhedlu, gan gynnwys cyfyngu ar fynediad dioddefwr i reolaeth geni; gwrthod defnyddio dull rheoli genedigaeth; beichiogrwydd gorfodol; gorfodi dioddefwr i gael erthyliad, i gael ffrwythloniad in vitro (IVF) neu weithdrefn arall; neu wrthod mynediad i weithdrefn o'r fath;
- Defnyddio sylweddau fel alcohol neu gyffuriau i reoli dioddefwr trwy ddibyniaeth, neu reoli ei mynediad at sylweddau;
- Defnyddio trefniadau plant a chynhaliadau plant i reoli'r dioddefwr.

Ymddygiadau Cyfyngol

- Atal a/neu ddinistrio dogfennau mewnfudo'r dioddefwr, e.e. pasbortau a fisas;
- Atal gweithgareddau hamdden arferol fel gwirfoddoli, ymuno â chlybiau a

- grwpiau lleol, timau chwaraeon, gweithgaredd sifil/elusennol, ac ati;
- Atal y dioddefwr rhag dysgu iaith, gwella ei sgiliau iaith presennol, fel Saesneg os nad hon yw'r iaith gyntaf, neu wneud ffrindiau y tu allan i'w chefnidir ethnig/neu ddiwylliannol;
- Gwrthod dehongli (gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain, BSL, ar gyfer dioddefwyr byddar) ar ran y dioddefwr;
- Rhwystro mynediad at gyfathrebu, e.e. gwrthod gwneud gwybodaeth yn hygyrch, gwrthod mynediad at offer cymorth cyfathrebu, cyfathrebu cynyddol ac amgen (AAC), a/neu weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi cyfathrebu;
- Cyfyngu mynediad i apwyntiadau iechyd a gofal cymdeithasol, neu atal y dioddefwr rhag cael mynediad i ofal iechyd neu gymdeithasol, gan gynnwys gwrthod caniatáu i'r dioddefwr fynychu apwyntiadau ar ei ben ei hun (yn arbennig o berthnasol i ddioddefwyr sydd ag anabledau neu gyflyrau iechyd hirdymor);
- Atal y dioddefwr rhag cymryd meddyginiaeth, neu gael mynediad at offer meddygol, neu ei or-feddyginiaethu; ac
- Ynysu'r dioddefwr oddi wrth deulu, ffrindiau, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol a allai fod yn ceisio ei chefnogi, gan ryng-gipio negeseuon neu alwadau ffôn.

Ymddygiadau Bygythiol

- Bygythiadau o gael eich gosod mewn sefydliad yn groes i ewyllys y dioddefwr, e.e. cartref gofal, cyfleuster byw â chymorth, cyfleuster iechyd meddwl, ac ati (yn enwedig i ddioddefwyr anabl neu oedrannus);
- Bygythiadau i ddatgelu/amlygu gwybodaeth sensitif (e.e. gweithgaredd rhywiol, lluniau neu ffilmiau rhywiol preifat¹⁸, cyfeiriadedd rhywiol a/neu hunaniaeth drawsryweddol), neu wneud honiadau ffug i aelodau o'r teulu, ffrindiau, cydweithwyr, y gymuned neu eraill, gan gynnwys trwy ffotograffau neu'r rhyngwrdd;
- Gwneud honiadau ffug i asiantaethau statudol (e.e. yr Heddlu, Gwasanaethau Plant, Canolfan Gwaith, Gwasanaethau Cynhaliaeth Plant);
- Defnyddio plant i reoli'r dioddefwr, e.e. bygwth mynd â'r plant i ffwrdd, bygwth niweidio'r plant;
- Defnyddio anifeiliaid anwes i reoli neu orfodi dioddefwr, e.e. niweidio, neu fygwth niweidio neu roi anifeiliaid anwes i ffwrdd;
- Brawychiad a bygythiadau o ddatgelu statws iechyd neu nam i deulu, ffrindiau, cydweithwyr a'r gymuned ehangach, yn enwedig lle gallai hyn achosi stigma yn y gymuned;
- Bygythiadau i'r dioddefwr, gan gynnwys i'w theulu, ffrindiau ac anifeiliaid anwes, sy'n gwneud iddi deimlo'n ofnus;
- Bygythiadau i adrodd am ddioddefwr i orfodaeth mewnffudo a/neu'r heddlu, neu fygwth symud y dioddefwr i'w wlad wreiddiol; a
- Brawychiad neu fygythiadau i fynd at yr heddlu i adrodd am drosedd honedig.

Cyfeiriwch hefyd at Adran 6 yn y canllaw hwn i gael rhagor o fanylion am niwed cysylltiedig, troseddau a mathau eraill o gam-drin domestig.

Astudiaeth Achos - Ewa

¹⁸ Mae bygythiadau i ddatgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol preifat, heb ganiatâd yr unigolyn perthnasol, a chyda'r bwriad o achosi trallod emosiynol, wedi'i wneud yn drosedd benodol o dan Adran 69 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021.

Roedd Ewa mewn damwain car a oedd yn golygu bod angen iddi ddefnyddio cadair olwyn yn aml ac yn cael trafferth â phoen cronig. Er gwaethaf hyn, roedd ei phartner Piotr yn dal i ddisgwyl i Ewa i gadw'r tŷ'n lân, coginio prydau bwyd, gwneud y siopa bwyd a gofalu am eu plant yn llawn amser. Pe na bai Ewa'n gallu cwblhau'r tasgau hyn i safon Piotr, byddai'n gwrthod casglu ei phresgripsiwn neu'n cuddio ei meddyginiaeth, gan ei gadael mewn poen gwaeth. Weithiau pan fyddai Piotr yn mynd i'w waith, byddai'n mynd â chadair olwyn Ewa gydag ef fel "cosb" a oedd yn golygu na allai adael y tŷ yn gorfforol.

Roedd methu â chael gafael yn ei meddyginiaeth a'i chadair olwyn yn gwaethygu cyflwr Ewa, ac ar brydiau byddai'n cael trafferth gwisgo ei hun neu ymolchi. Byddai Piotr yn gwrthod helpu â'r tasgau dyddiol hyn, gan y byddai'n dweud "nid ei swydd ef" oedd hyn. Byddai'n aml yn beirniadu Ewa am ei hymddangosiad a byddai'n dweud na allai adael y tŷ tra'n edrych mewn ffordd arbennig. Yn y diwedd dywedodd Piotr y byddai'n helpu Ewa â'i gofal ond y byddai'n disgwyl cael rhyw yn gyfnewid. Teimlai Ewa nad oedd ganddi ddewis gan ei bod yn dod yn fwyfwy dibynnol ar Piotr. Effeithiodd y gamdriniaeth hon ar hunan-barch Ewa a'i gadael yn teimlo'n gaeth ac yn gwbl ynysig.

Daeth Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn bryderus am gyflwyniad y plant ac ymwelodd ag Ewa tra roedd Piotr yn y gwaith. Datgelodd Ewa beth oedd wedi bod yn digwydd a chafodd yr heddlu eu galw. Roedd awdurdod lleol Ewa yn gallu helpu i ddod o hyd i lety hygyrch i Ewa a'r plant, yn ogystal â chynorthwyo Ewa â'i hanghenion gofal parhaus. Yn ddiweddarach cyhuddwyd Piotr o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.

Adnabod y drosedd

33. Wrth weithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig, mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad oes unrhyw ddioddefwyr "nodweddiadol". Gall rhai grwpiau fod mewn mwy o berygl o brofi cam-drin domestig ond gall unrhyw un gael ei effeithio. Dylid cymryd gofal i osgoi rhagdybiaethau ystrydebol ynghylch cam-drin domestig. Beth bynnag yw'r rhyw, mae cam-drin domestig yn digwydd ymhlith pobl o bob ethnigrwydd, rhywioldeb, oedran, anabledd, crefydd neu gred, statws mewnffudo neu gefndiroedd cymdeithasol-economaidd. Gall cam-drin domestig ddigwydd rhwng aelodau o'r teulu, gan gynnwys aelodau o'r teulu estynedig, yn ogystal â rhwng partneriaid agos neu gyn-bartneriaid.¹⁹
34. **Mae hefyd yn bwysig gwrando ar ddioddefwyr cam-drin domestig ac osgoi gwneud rhagdybiaethau a allai arwain at golli cyfleoedd i gynorthwyo ac amddiffyn dioddefwyr.**²⁰ Dylai swyddogion hefyd ystyried canllawiau'r Coleg Plismona ar *Adnabod ac ymateb i risgiau sy'n gysylltiedig â bod yn agored i niwed* wrth weithio gyda dioddefwyr.²¹
35. Gall dioddefwyr wynebu rhwystrau mawr wrth adael perthynas â thramgwyddwr, neu ddim am adael ar yr adeg honno. Gall fod diffyg dealltwriaeth gyhoeddus a phroffesiynol ynghylch pam nad yw dioddefwyr "ddim ond yn gadael", a all greu stigma ychwanegol ynghylch y cam-drin y mae'n ei brofi a bod yn rhwystr i ddioddefwyr gael mynediad at gymorth effeithiol.²² Mae'n bosibl y bydd gan rai dioddefwyr brofiad blaenorol o beidio â chael eu credu neu o beidio â chael eu datgeliad wedi'i gymryd o ddifrif, neu o beidio â chael ei weithredu arno'n effeithiol. Mae dioddefwyr hefyd yn aros yn y berthynas fel ffordd o reoli eu risg eu hunain neu risg i eraill, os ydynt yn credu y gallai gadael y berthynas achosi mwy o risg iddyn nhw, eu plant a/neu eu teulu ehangach.
36. **Wrth ymateb i alwad allan, mae'n bwysig i swyddogion heddlu ddefnyddio chwilfrydedd proffesiynol ac edrych y tu hwnt i'r hyn y gellir ei gyflwyno iddynt yn y lleoliad, er mwyn nodi unrhyw batrymau ymddygiad.** Mae'n rhaid i swyddogion heddlu bob amser ystyried y cyd-destun ehangach ac y gallai fod elfennau eraill o ymddygiad y tramgwyddwr, neu fathau eraill o gam-drin yn cael eu cyflawni, a allai fod yn gyfystyr ag ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi. I gynorthwyo â hyn, dylid hysbysu'r swyddogion ymateb o unrhyw adroddiadau blaenorol.
37. **Gall galwad allan fod yn y lle cyntaf mewn ymateb i adroddiad am ddigwyddiad arall (e.e. trais corfforol, ymosodiad rhywiol, difrod troseddol, bygythiadau neu gam-drin geiriol) ond mae'n bwysig cydnabod y gallai hyn fod yn rhan o batrwm o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.** Er enghraifft, gallai'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd ddefnyddio atgof o ymosodiad i'w atgoffa o'r bygythiad o drais ychwanegol ac fel arf ar gyfer rheolaeth a gorfodaeth.
38. Mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) wedi argymhell y dylai swyddogion heddlu gael hyfforddiant i ddatblygu eu dealltwriaeth o ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi, a'u gallu i'w

¹⁹Gweler [Mynychter a thueddiadau cam-drin ddomestig, Lloegr a Chymru - Swyddfa'r Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#).

²⁰[SafeLives \(2015\) Mae gweithwyr proffesiynol yn colli pum cyfle i atal trais domestig, meddai SafeLives.](#)

²¹[Cydnabod ac ymateb i risgiau sy'n gysylltiedig â bod yn agored i niwed: Canllawiau \(college.police.uk\).](#)

²²[Overstreet, N. M., & Quinn, D. M. \(2013\). The Intimate Partner Violence Stigmatization Model and Barriers to Help Seeking. Basic and applied social psychology, Cyfrol 35, Cyhoeddiad, tt.109-122.](#)

adnabod.²³ Heb ddealltwriaeth o ymddygiad o'r fath, gall achosion gael eu methu. Mae ymchwil yn awgrymu bod gan swyddogion heddlu brofiad o ymateb i 'ddigwyddiadau' o gam-drin domestig, yn enwedig trais corfforol, yn hytrach na phatrwm o ymddygiad camdriniol.²⁴ Canfu'r un ymchwil fod dioddefwyr yn ymgysylltu'n fwyaf cyffredin â'r heddlu i adrodd am ymosodiad yn hytrach nag ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi. Roedd hyn yn golygu bod llawer o achosion yn cael eu cofnodi fel gwir niwed corfforol (ABH), hyd yn oed pan oedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi hefyd yn bresennol.

39. **Wrth ymateb i adroddiad, fel trais corfforol neu fygythiad o drais corfforol, mae'n hanfodol bod swyddogion heddlu yn holi am elfennau neu batrymau eraill o ymddygiad y tramgwyddwr a arweiniodd at alwad gan yr heddlu, ac os oes mathau eraill o gam-drin wedi digwydd a all fod yn gyfystyr ag ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.** Er enghraifft, gall galwadau heddlu dro ar ôl tro ddangos bod cwrs o ymddygiad a phatrwm o ymddygiad camdriniol gan y tramgwyddwr. Fodd bynnag, gall ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi fod wedi bod yn digwydd am gyfnod hir o amser cyn rhoi gwybod amdano.
40. Mewn llawer o achosion, efallai na fydd ymddygiad y tramgwyddwr yn ymddangos yn gamdriniol, yn enwedig os caiff ei ystyried ar wahân i ymddygiadau ehangach, ac efallai nad yw'r dioddefwr yn ymwybodol o, yn barod i gydnabod, neu'n gallu cyfathrebu ei fod yn cael ei gam-drin. **Mae ystyried effaith gronnol unrhyw ymddygiad, yn enwedig lle mae hyn yn cynnwys rheolaeth neu orfodaeth o fewn y berthynas, yn hollbwysig.** Mae'r dull hwn yn cynorthwyo unrhyw erlynydd i asesu'n effeithiol os oes patrwm o ymddygiad yn bodoli, os yw'r ymddygiad hwn yn gyfystyr ag ofni y bydd trais yn cael ei gyflawni neu wedi achosi braw neu drallod difrifol i'r dioddefwr, ac os yw hyn wedi cael effaith andwyol sylweddol ar eu gweithgareddau dyddiol arferol.²⁵
41. **Er y gellir gwneud cyhuddiad am ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi heb bresenoldeb trais corfforol neu ymosodiad rhywiol, dylai swyddogion heddlu bob amser ystyried mynd ar drywydd achosion o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi lle mae'n briodol, pan nodir trais.**
42. **Dylid nodi nad oes angen dau alwad i'r heddlu er mwyn i'r drosedd fod wedi digwydd er mwyn dangos tystiolaeth o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.**
Mae hefyd yn wir, lle nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo am ymosodiad corfforol, y gall fod tystiolaeth i gyhuddo am y drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.

Astudiaeth Achos - Daniel

Ym Mawrth 2022 am 11pm, ymosododd Andrew yn gorfforol ar Simone oherwydd ei bod wedi gofyn iddo am ychydig o arian i brynu esgidiau ymarfer corff newydd i'w mab, Daniel, ar gyfer ei ben-blwydd. Roedd ei ymosodiad arni wedi torri ei gên.

²³ [Ymateb yr heddlu i gam-drin domestig: Adroddiad diweddar](https://www.justiceinspectorates.gov.uk/y-mateb-yr-heddlu-i-gam-drin-domestig-adroddiad-diweddar/) ([justiceinspectorates.gov.uk](https://www.justiceinspectorates.gov.uk/)).

²⁴ Barlow, C, Johnson, K, Walklate, S, Humphreys, L (2020) [Putting Coercive Control into Practice: Problems and Possibilities](#), The British Journal of Criminology, Cyfrol 60, Cyhoeddiad 1, tt. 160-179.

²⁵ [CPS \(2017\) Ymddygiad sy'n Rheoli neu'n Gorfodi mewn Perthynas Personol neu Deuluol.](#)

Clywodd cymydog yr ymosodiad a galwodd yr heddlu. Hwn oedd y tro cyntaf i'r heddlu gael eu galw. Cafodd Andrew ei arestio a'i gadw yn y ddalfa. Cyflawnwyd cais Cyfraith Clare (Cynllun Datgelu Trais Domestig, DVDS) a chynghorwyd Simone fod Andrew wedi'i arestio am ymosodiad corfforol yn erbyn ei wraig flaenorol chwe blynedd yn ôl.

Roedd Daniel wedi clywed Andrew yn ymosod ar ei fam ac er ei fod yn esgus ei fod yn cysgu pan gyrhaeddodd swyddogion yr heddlu, aethant i'w ystafell a siarad ag ef. Gofynnodd yr heddlu i Daniel sut brofiad oedd byw gydag Andrew. Dywedodd Daniel wrth yr heddlu bod Andrew weithiau'n gofyn iddo ysbïo ar ei fam gan ei fod am wybod i ble'r aeth hi ac â phwy y siaradodd hi pan oedd Andrew ar shifftiau nos. Dywedodd Daniel na fyddai Andrew yn gadael iddo ef na'i fam gael unrhyw arian. Mae hyn yn golygu na allai fforddio gadael iddo fynd ar dripiâu ysgol nac i'r sinema. Dywedodd ei fod yn teimlo cywilydd ei fod yn aml yn gorfod gwisgo dillad ail-law ac roedd yn cael ei fwlio yn yr ysgol oherwydd hyn.

Ar noson yr ymosodiad, ni allai Daniel gysgu ac roedd yn hwyr i'r ysgol y diwrnod wedyn. Nid oedd yn gallu canolbwyntio ac roedd yn poeni trwy'r dydd am ei fam. Digwyddodd yr ymosodiad ar Simone ddau ddiwrnod cyn pen-blwydd Daniel yn 10 oed. Roedd nain Daniel wedi talu i Daniel fynd i fowlio ar gyfer ei ben-blwydd ond nid oedd Daniel eisiau mynd oherwydd roedd gormod o gywilydd arno i adael i'w ffrindiau weld gŕen ei fam wedi'i torri a'i chleisiau. Gan fod Andrew yn rheoli cyllideb y cartref, nid oedd gan Simone fynediad at unrhyw ran o gyllid y teulu ac felly ni allai hyd yn oed fynd â Daniel allan am bryd o fwyd ar ei ben-blwydd.

Fe wnaeth teulu Andrew feio Simone am 'gael Andrew wedi'i arestio' ac fe wnaethon nhw ffraeo â hi. Roedd hyn yn golygu nad oedd Daniel yn gallu eu gweld o gwmpas adeg ei ben-blwydd, ac ni dderbyniodd ychwaith anrhegion ganddynt.

Yn dilyn hynny, cyhuddwyd Andrew o nifer o droseddau, gan gynnwys ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.

Cynnal asesiadau risg priodol

43. **Efallai na fydd dioddefwyr ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn ymwybodol o, yn barod i gydnabod, neu'n gallu cyfathrebu bod y cam-drin y maent yn profi ar hyn o bryd neu wedi'i brofi o'r blaen, yn rhan o batrwm o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.** Ymhellach, efallai na fydd dioddefwyr ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn ymwybodol bod ymddygiad o'r fath yn drosedd.
44. Mae swyddogion heddlu sy'n mabwysiadu ymagwedd drylwyr ar ymweliad cyntaf â dioddefwr yn hollbwysig wrth ddatgelu tystiolaeth mewn perthynas â'r drosedd ac adeiladu achos. **Mae cynnal ymholiad diogel â'r dioddefwr a chynnal asesiad risg priodol yn hollbwysig wrth ymchwilio i drosedd bosibl, er mwyn dod â thystiolaeth i'r amlwg o unrhyw batrwm o gam-drin, yn hytrach na digwyddiad unigol.**
45. Dylid ystyried ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi ym mhob achos o gam-drin domestig, fel rhan o'r asesiad o'r cynnydd posibl mewn risg i'r holl bartïon yr effeithir arnynt. Mae ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn ffactor risg uchel o drais tuag at y dioddefwr²⁶ yn y dyfodol ac yn ffactor risg hysbys mewn lladdiadau domestig a hunanladdiadau.²⁷ Mae'n bwysig felly bod presenoldeb ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn cael ei ystyried gan yr heddlu ac awdurdodau eraill wrth gynnal unrhyw ymchwiliad i gam-drin domestig.
46. Mae sicrhau bod y dioddefwr i ffwrdd oddi wrth y tramgwyddwr a phlant (os yw'n ddiogel gwneud hynny) yn hanfodol i asesu risg a chynllunio diogelwch. Dylai prif swyddogion yr heddlu sicrhau eu hunain mai asesiadau risg a ddefnyddir yn eu heddluoedd yw'r rhai gorau sydd ar gael ar gyfer nodi ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.
47. Gall cofnodi troseddau yn gywir fod yn gymorth i asesu risg yn ogystal â dangos tystiolaeth o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn fwy cyffredinol. Gall swyddogion ymateb i ddigwyddiad sy'n ymddangos yn amherthnasol i ddechrau, neu ddigwyddiad unigol nad yw'n gyfystyr â throedd ar ei ben ei hun, ond dros amser gallai hyn adeiladu'r achos ar gyfer erlyniad ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi. Gall swyddogion sy'n mynychu galwad allan ddefnyddio Fideos a Wisgir ar y Corff (BWVs) i helpu i gasglu tystiolaeth, er enghraifft, adroddiad y dioddefwr, amodau'r cartref (e.e. os datgelwyd difrod), materion diogelu (e.e. plant sy'n bresennol yn ystod y digwyddiad) ac ymarwedd y sawl a ddrwgdybir.
48. **Fel rhan o unrhyw asesiad risg, mae'n rhaid sicrhau diogelwch plant.** Mae gan yr heddlu ddyletswydd i amddiffyn plant rhag niwed ac ym mhob ymchwiliad dylid cadw at yr egwyddor mai lles y plentyn sydd bwysicaf.²⁸ Mewn unrhyw alwad cam-drin domestig, dylai swyddogion heddlu siarad ag unrhyw blant sy'n bresennol yn dibynnu os yw'n ddiogel gwneud hynny, a chan ystyried oedran y plentyn.

²⁶ [Myhill, A & Hohl](#). Interpersonal Violence, Cyfrol 34, Rhifyn 21-22 t.4477-4497.

²⁷ [Y Swyddfa Gartref, Rhaglen Agored i Niwed a Gwybodaeth, NPCC, Coleg Plismona \(2021\)](#) Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Agored i Niwed (VKPP): Dynladdiadau Domestig a [Hunanladdiadau Dioddefwyr a Amheuir yn ystod Pandemig Covid-19 2020-2021](#).

²⁸ [Coleg Plismona - Cam-drin Domestig: Ymateb Cyntaf](#).

49. Yn unol â Deddf Cam-drin Domestig 2021, ystyrir bod plant yn ddioddefwyr cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain os ydynt yn gweld,²⁹ yn clywed, neu'n profi effeithiau cam-drin, ac yn perthyn i'r dioddefwr neu'r tramgwyddwr. Dylid ystyried ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi mewn perthynas â'r plant yn uniongyrchol, ond hefyd o ran defnyddio'r plant i reoli'r dioddefwr. I gael rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau diogelu, gan gynnwys ar gyfer plant a gwaith amlasiantaeth, cyfeiriwch at Bennod 4 o'r Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig a [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant \(2018\)](#). Dylai'r heddlu hefyd gyfeirio at eu protocolau perthnasol ar gyfer diogelu oedolion a phlant.
50. Wrth fynychu galwadau, mae'n bwysig bod yn sensitif i ymateb y bobl y rhoddir sylw iddynt. Gall tramgwyddwr ymddangos yn bwyllog tra gallai dioddefwr ymddangos yn ofidus neu'n ymosodol. Fel arall, gall tramgwyddwr sy'n ceisio cuddio ei ymddygiad ymddangos yn ofidus mewn ymgais i roi bai ar y dioddefwr. Dylai swyddogion sy'n ymateb ganolbwyntio ar les y dioddefwr a'i ddiogelwch, gan gynnwys trwy dechnegau dad-ddwysáu, ymwybyddiaeth emosiynol, gwrando gweithredol a chyfathrebu geiriol a di-eiriau,³⁰ er mwyn helpu i dawelu dioddefwyr a allai gael eu trawmateiddio o ganlyniad i'r hyn maen nhw wedi ei brofi.

*"Pan ddaeth yr heddlu i fyny - roedd wedi bod yn swnllyd, yn dreisgar, yn ymosodol, yn malu pethau ac yn fy nharo. Erbyn i'r heddlu gyrraedd - yr hyn y bydden nhw wedi'i gyfarfod yw fi - ofnus iawn, llawn panig, emosiynol iawn, crynedig iawn - tŷ wedi'i falu, ddim yn gwneud llawer o synnwyr ac ef yn ŵr bonheddig hynod hunanfeddiannol, wedi'i addysgu'n wych, yn dawel, yn dweud nad oedd erioed wedi gosod llaw arnaf."*³¹

Data Grŵp Ffocws HMIC, 2014

51. Ym mhob achos o gam-drin domestig, os yw drylliau'n cael eu dal gan y cyflawnwr neu os ydynt yn y cartref, dylid hysbysu Tîm Trwyddedu Drylliau Saethu lleol yr heddlu fel y gallant ystyried atafaelu'r drylliau neu ddiddymu unrhyw drwydded sydd gan y tramgwyddwr. Mae hefyd yn bwysig o ran lliniaru risg a chudd-wybodaeth i sicrhau bod swyddogion sy'n mynychu galwadau yn y dyfodol yn meddu ar yr wybodaeth hon. [Cyhoeddiad Canllawiau Statudol Trwyddedu Drylliau Saethu](#) ar gyfer yr heddlu ym mis Chwefror 2023 ac mae'n cynnwys rhagor o wybodaeth am drwyddedu drylliau mewn achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig.
52. I gael rhagor o offer cymorth ar gyfer swyddogion heddlu yn Lloegr a Chymru, cyfeiriwch at: • [Ymateb Cyntaf Canllawiau'r Coleg Plismona \(digwyddiad cam-drin domestig\)](#),
- [Rhestr Wirio Casglu Tystiolaeth NPCC a CPS ar y cyd](#); a'r
 - [Rhaglen Hyfforddi Materion Cam-drin Domestig](#).

²⁹ [Deddf Cam-drin Domestig 2021 - Adran 3 \(legislation.gov.uk\)](#).

³⁰ [Coleg Plismona \(2020\) Sgiliau Rheoli Gwrthdaro](#).

³¹ [Arolygiaeth Cwnstablfaeth Ei Mawrhydi \(HMIC\) \(2014\) Busnes pawb: Gwella ymateb yr heddlu i gam-drin domestig](#), t.76.

Gwrth-honiadau ac adnabod y tramgwyddwr

53. Mae [Canllawiau Cyfreithiol Cam-drin Domestig](#) y CPS yn nodi “Mae’n bosibl y cyflwynir adroddiadau anghyson o’r digwyddiad i erlynwyr yn aml, â phob parti’n honni mai nhw yw’r dioddefwr. Gall y sawl a ddrwgdybir wneud gwrth-honiad o gamdriniaeth, neu ddadlau ei fod wedi gweithredu mewn hunanamddiffyniad, gan ei wneud yn anodd adnabod a gwahaniaethu rhwng y prif ddioddefwr a’r prif un o dan amheuaeth.”³² Gweler Tabl 1 Pecyn Cymorth y [CPS ar gyfer Erlynwyr ar Achosion Trais yn Erbyn Menywod a Merched sy’n Cynnwys Dioddefwr sy’n Agored i Niwed](#) ar asesu hygrdedd a deall tactegau cyflawnwyr.
54. Dylai swyddogion heddlu osgoi arestiadau deuol, yn enwedig os oes plant yn bresennol, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl. Lle gwneir gwrth-honiadau yn y fan a’r lle, dylai swyddogion werthuso cwyn pob parti ar wahân i benderfynu os oedd prif droseddwr.³³
55. Dylai swyddogion heddlu archwilio os:
- yw’r dioddefwr wedi defnyddio grym y gellir ei gyfiawnhau yn erbyn y sawl a ddrwgdybir mewn ymateb i’w gamdriniaeth;
 - yw’r sawl a ddrwgdybir yn gwneud gwrth-honiad ffug;
 - yw’r ddau barti yn arddangos rywfaint o anaf a/neu drallodl; a
 - gall tramgwyddwr ystrywgar fod yn ceisio tynnu’r heddlu i mewn i gydgyllwynio â’i reolaeth neu’i orfodaeth o’r dioddefwr, trwy wneud adroddiad digwyddiad ffug.
56. Wrth ymchwilio i wrth-honiadau, dylai swyddogion nodi a chofnodi:
- iaith y corff;
 - os yw’r naill barti neu’r llall wedi bygwth parti, plentyn arall neu aelod arall o’r teulu neu aelod o’r cartref;
 - os oes gan y naill barti neu’r llall hanes o gam-drin neu drais;
 - os yw’r naill barti neu’r llall wedi gwneud gwrth-honiadau blaenorol;
 - os gweithredodd y naill barti neu’r llall yn amddiffynol i’w amddiffyn ei hun neu drydydd person rhag anaf; a
 - yr hyn y mae unrhyw dystion trydydd parti yn dweud.³⁴
57. I gael rhagor o wybodaeth, gweler [Canllawiau’r Coleg Plismona ar Ymateb Cyntaf](#), Canllawiau’r Coleg Plismona a’r adran ar *Hunanamddiffyn a gwrth-honiadau o [Ganllawiau Cam-drin Domestig y CPS](#)*.

Mathau o dystiolaeth

58. Gall fod canfyddiad bod ymddygiad sy’n rheoli neu’n gorfodi yn drosedd ‘gymhleth’ â throthwy tystiolaeth uchel a’i fod felly’n anodd ymchwilio, cyhuddo ac erlyn.³⁵ Fodd bynnag, mae data’r³⁶ heddlu a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder

³² [Canllawiau Cyfreithiol y CPS: Cam-drin domestig.](#)

³³ [Ymateb cyntaf | Coleg Plismona.](#)

³⁴ [Ymateb cyntaf | Coleg Plismona.](#)

³⁵ [Myhill, A., Johnson, K., McNeill, A., Critchfield, E. and Westmarland, N. \(2022\): ‘A genuine one usually sticks out a mile’: plismona rheolaeth orfodol yn Lloegr a Chymru. Plismona a Chymdeithas.](#)

³⁶ [Nifer yr achosion o gam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\).](#)

(MoJ)³⁷ yn dangos, ers i Ddeddf 2015 ddod i rym, fod cynnydd cyson wedi bod yn yr achosion sy'n cael eu cofnodi, eu herlyn a'u collfarnu. Mae ymchwil ar ymateb yr heddlu i ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi wedi dangos bod y tebygolrwydd o arestio mewn achosion o'r fath wedi'i ddylanwadu'n arbennig gan y potensial ar gyfer erlyniadau llwyddiannus neu 'ganlyniadau cadarnhaol'. Effeithiwyd ar hyn gan ganfyddiadau bod ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn 'anodd ei brofi'.³⁸ Mae'r drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn ddarostyngedig i'r un [Cod CPS ar gyfer Erlynwyr y Goron](#), sy'n rhoi arweiniad i erlynwyr ar yr egwyddorion cyffredinol i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau am erlyniadau, ag ar gyfer unrhyw drosedd arall. **Os oes ansicrwydd ynghylch a yw'r drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn berthnasol mewn achos penodol, dylid ymgynghori â'r CPS.**³⁹

59. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, arweiniodd 3.7% o droseddau ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi a gofnodwyd at gyhuddiad,⁴⁰ o gymharu â 6.7% ar gyfer pob trosedd yn ymwneud â cham-drin domestig.⁴¹ Roedd troseddau ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn fwy tebygol o gael canlyniad anawsterau tystiolaethol (nid yw'r dioddefwr yn cefnogi gweithredu). Dyrannwyd y canlyniad hwn i dros hanner (53.9%) o droseddau rheoli neu orfodi, o gymharu â 51.4% o'r holl droseddau yn ymwneud â cham-drin domestig.
60. Mae casglu tystiolaeth effeithiol yn hanfodol i achos yr erlyniad, yn enwedig lle mae'r dioddefwr yn penderfynu tynnu'n ôl o'r achos. Dylai ymchwilwyr gyfeirio at Restr Wirio Casglu Tystiolaeth Cam-drin Domestig ar y Cyd NPCC a CPS.
61. Gall meithrin ymddiriedaeth helpu i ennyn datgeliad a gall fod yn briodol wrth ymateb i anghenion dioddefwr, megis trwy asesiad risg unigol. Dylai swyddogion hefyd drafod â'r dioddefwr, a/neu ei gweithiwr cymorth os oes ganddo un, pa fesurau diogelwch y gallai fod eu hangen ar y dioddefwr. Dylai swyddogion heddlu fod yn ymwybodol o effaith trawma wrth holi dioddefwyr a chasglu tystiolaeth. Gall dioddefwyr ei chael yn anodd cofio holl fanylion y gamdriniaeth yn ystod un cyfweiliad â swyddogion a dylid ystyried nifer o sesiynau. Gall trawma sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig gynnwys teimladau o unigedd, bod yn ddiwerth a dibyniaeth ar y tramgwyddwr. Gall hefyd gynnwys iselder, gorbryder, anhwylder pryder ôl-drawmatig,⁴² ac anhwylderau cysgu a bwyta.⁴³ Wrth gasglu tystiolaeth, dylai swyddogion gynorthwyo dioddefwyr i ddeall beth yw tystiolaeth.
62. Mae'n bwysig ystyried patrymau ehangach o ymddygiad a/neu droseddu, gan gynnwys cyd-destun ehangach y berthynas. Mae natur gyfyngol ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn golygu, yng nghyd-destun cam-drin parhaus, y gall dioddefwyr fod yn gyfyngedig yn eu gallu i arfer ymreolaeth. Mae gan lawer

³⁷ [Tablau data agored troseddau a chanlyniadau a gofnodwyd gan yr heddlu - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

³⁸ [Barlow, C \(2019\) Policing Coercive Control Project Report, The British Academy a Lancaster University Law School, t.2](#).

³⁹ Dylai'r Heddlu a'r Prif Swyddogion gyfeirio at Awdurdod Erlyn y Gwasanaethau (SPA) yn hytrach na'r CPS.

⁴⁰ Swyddfa Gartref (2022). [Tablau data agored troseddau a chanlyniadau a gofnodwyd gan yr heddlu - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

⁴¹ ONS (2022) [Cam-drin domestig a'r system cyfiawnder troseddol - Swyddfa'r Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#).

⁴² Bacchus, L., Ranganathan, M., Watts, C., Devries, K. [Recent intimate partner violence against women and health: a systematic review and meta-analysis of cohort studies](#). BMJ: 2018; 8; Lagdon, S., Armour, C., Stringer, M., 2014. Profiad oedolion o ganlyniadau iechyd meddwl o ganlyniad i erledigaeth trais partner agos: adolygiad systematig. European Journal of Psychotraumatology, 5(1).

⁴³ Bundock, L., Howard, L. M., Trevillion, K., Malcolm, E., Feder, G., & Oram, S. [Prevalence and risk of experiences of intimate partner violence among people with eating disorders: a systematic review](#). Journal of psychiatric research, 2013; 47(9), 1134-1142.; WHO (2012) [Understanding and addressing violence against women - Health consequences](#).

ymdeimlad bod y cyflawnwr ym mhobman, yn gwybod am bopeth y maent yn ei wneud ac wedi dod i gredu barn negyddol y tramgwyddwr ohonynt. Gall y culhau hwn mewn opsiynau arwain at allu dioddefwr i wneud penderfyniadau, gweithredu neu roi newid ar waith, fod yn gyfyngedig.⁴⁴ Dylai hyn lywio ymarfer wrth weithio gyda dioddefwyr o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, yn enwedig o ran cynorthwyo'r cwestiynau y dylid eu gofyn.

63. Yn hytrach na dim ond gofyn 'beth ddigwyddodd' i ysgogi'r alwad benodol i'r heddlu, dylai swyddogion heddlu ofyn cwestiynau i nodi os yw ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn cael ei gyflawni. Mae hyn yn cynnwys deall:

- Os oes unrhyw reolau, disgwyliadau neu fonitro y mae'r dioddefwr yn ddarostyngedig iddynt
- Faint o reolaeth sydd gan y dioddefwr yn y berthynas, gan gynnwys ar benderfyniadau ariannol a mynediad y dioddefwr i'r rhyngrwyd a dyfeisiau cyfathrebu
- Y mynediad sydd gan y dioddefwr i ddogfennau hanfodol, e.e. pasbort, tystysgrifau geni plentyn
- Yr effaith a gaiff yr ymddygiad ar y dioddefwr ac unrhyw blant
- Y mynediad sydd gan y dioddefwr at aelodau o'r teulu a ffrindiau, neu gefnogaeth arall
- Tystiolaeth o unrhyw ymddygiadau camdriniol eraill e.e. trais corfforol neu ymosodiad rhywiol

64. Mae hyn wedi'i gynnwys fel rhan o offeryn asesu risg y Coleg Plismona, yr Asesiad Risg Cam-drin Domestig (DARA), sydd wedi'i gynllunio i'w wneud yn haws i swyddogion nodi ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.

65. Mae hefyd yn bwysig gofyn am ymddygiad y cyflawnwr yn y gorffennol, oherwydd efallai na fydd y dioddefwr yn sylweddoli y gallai hyn fod yn rhan o batrwm o gam-drin. Mae llawer o ddioddefwyr yn cael eu cam-drin am gyfnod hir cyn adrodd i'r heddlu ac ni fydd rhai byth yn datgelu.⁴⁵ Mae'n bwysig rhoi lle ac amser i'r dioddefwr brosesu'r hyn sydd wedi digwydd iddo/iddi, i ffwrdd oddi wrth y tramgwyddwr. Gall hyn hefyd wneud i'r dioddefwr deimlo'n fwy diogel a chyfforddus wrth ddarparu rhagor o fanylion am y gamdriniaeth, hyd yn oed yn ddiweddarach yn ystod unrhyw ymchwiliad. Dylid cynnig gwasanaethau cymorth bob amser.

O dan y [Cod Dioddefwyr](#), os yw dioddefwr yn adrodd trosedd i'r heddlu, mae ganddo/ganddi'r hawl i gael ei atgyfeirio i wasanaeth sy'n cynorthwyo dioddefwyr o fewn dau ddiwrnod gwaith. Os yw'r dioddefwr yn dewis peidio âg adrodd trosedd, mae ganddo/ganddi'r hawl o hyd i gael mynediad at wasanaethau cymorth ar unrhyw adeg.

66. Mae [canllawiau'r Coleg Plismona ar weithio gyda dioddefwyr a thystion](#) yn rhoi canllawiau i swyddogion i "gydnabod anghenion a phryderon unigol tystion a'u trin

⁴⁴ Kelly. L, Sharp. N, Klein. R (2014) [Finding the costs of freedom: How women and children rebuild their lives after domestic violence](#). Solace Women's Aid.

⁴⁵ [Centre for Women's Justice \(2021\) Women Who Kill](#); ONS (2018) [Partner abuse in detail - Appendix tables - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#).

ag urddas a pharch". Cyfeiriwch hefyd at *Adran 5* am fanylion ychwanegol ar sut y gall cymorth a gwasanaethau eraill fod o gymorth.

67. Mae archwilio pob trywydd ymholi posibl i gasglu tystiolaeth ar raddau llawn ymddygiad tramgwyddwr a chael disgrifiad manwl o'r ymddygiad hwn yn hanfodol. **Mae datganiad dioddefwr yn allweddol i gasglu tystiolaeth. Mae cymryd cyfrif cynhwysfawr o'r hyn a ddigwyddodd i'r dioddefwr, sut yr effeithiodd arno ef a'i blant yn ogystal ag ymddygiad y tramgwyddwr yn fwy cyffredinol, yn hanfodol i adeiladu achos.**
68. **Mae'n hanfodol bod datganiadau yn dal yr "effaith ddifrifol" ar y dioddefwr, yn hytrach na disgrifiad yn unig o'r ymddygiadau sy'n bresennol.** Gall swyddogion heddlu helpu i sicrhau bod yr effaith gyffredinol yn cael ei hadlewyrchu'n briodol trwy ofyn y cwestiynau cywir yn gynnar. Mewn rhai achosion, os yw dioddefwr yn darparu tystiolaeth yn y llys nad yw wedi'i chynnwys yn y datganiad cychwynnol, gall fod yn niweidiol i'w hachos. Dylai swyddogion ystyried pa mor agored i niwed yw'r dioddefwr a'i allu i ddarparu datganiad cywir. Gall eiriolwyr annibynnol a gwasanaethau arbenigol gefnogi dioddefwr drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol (Cyfeiriwch hefyd at *Adran 5 - Ymateb amlasiantaethol* i gael rhagor o wybodaeth am gefnogi'r dioddefwr).
69. **Mae datganiadau tystion hefyd yn bwysig i gefnogi casglu tystiolaeth. Er enghraifft, efallai y bydd teulu a ffrindiau'r dioddefwr yn gallu rhoi tystiolaeth am effaith ymddygiad y tramgwyddwr ar y dioddefwr, megis ynysu'r dioddefwr oddi wrth y teulu.** Fodd bynnag, nid datganiad yw'r unig dystiolaeth y gellir ei ddefnyddio i gefnogi achos. Mae gan swyddogion ddyletswydd i ymchwilio i ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi a chasglu tystiolaeth yn rhagweithiol, hyd yn oed mewn achosion lle nad yw datganiad tyst yn bosibl.
70. **Mae enghreifftiau eraill o'r mathau o dystiolaeth y gellid eu defnyddio yn ogystal â datganiad dioddefwr neu dyst yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:**
- Cofnodion ffôn (tra'n sicrhau amhariad cyfyngedig, os o gwbl, i'r dioddefwr, gan sicrhau golygu priodol a pheidio â pheryglu niwed ychwanegol);
 - Negeseuon testun (tra'n sicrhau amhariad cyfyngedig, os o gwbl, i'r dioddefwr, gan sicrhau golygu priodol a pheidio â pheryglu niwed ychwanegol);
 - Logiau dyfais (tra'n sicrhau amhariad cyfyngedig, os o gwbl, i'r dioddefwr, gan sicrhau golygu priodol a pheidio â pheryglu niwed ychwanegol);
 - Tystiolaeth o gam-drin dros y rhynggrwyd, technoleg ddigidol (e.e. seinyddion clyfar) a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol;
 - Copïau o e-byst;
 - Ffotograffau o anafiadau megis: anafiadau amddiffynnol i freichiau, cydio cudd rhan uchaf y fraich, cleisio croen y pen, clystyrau o wallt ar goll;
 - Ffotograffau o ddifrod i eiddo megis drysau wedi'u torri, tyllau mewn bwrdd plastr, drysau wedi'u tynnu o gypyrddau neu arwyddion o fynediad gorfodol i ystafelloedd;
 - Tapiau neu drawsgrifiadau o alwadau 999;
 - CCTV a ffilm fideo cartref - e.e. clychau drws clyfar;
 - Fideo wedi'i wisgo ar y Corff (BWV);
 - Ffordd o fyw a chartref gan gynnwys tystiolaeth ffotograffig yn y lleoliad - e.e.

y pethau maen nhw'n eu gwneud fel arfer, ble maen nhw'n byw, â phwy maen nhw'n rhyngweithio, sut maen nhw'n gwario eu harian;

- Cofnodion rhyngweithio â gwasanaethau megis gwasanaethau cymorth (hyd yn oed os yw rhannau o'r cofnodion hynny'n ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd cyn i'r drosedd newydd ddod i rym, mae'n bosibl o hyd, mewn rhai amgylchiadau, y gellir dibynnu ar eu cynnwys mewn tystiolaeth);
- Cofnodion meddygol;
- Cofnodion banc i ddangos rheolaeth ariannol;
- Bygythiadau blaenorol i blant neu aelodau eraill o'r teulu;
- Bygythiadau hunanladdiad gan y tramgwyddwr - e.e. trwy neges destun, e-bost, neu bostiadau ar gyfryngau cymdeithasol neu wefannau aml-gyfrwng;
- Postiadau sarhaus ar lwyfannau cyhoeddus, gan gynnwys dyddiadur cyfryngau cymdeithasol a gedwir gan y dioddefwr;
- Tystiolaeth o unigedd megis diffyg cyswllt rhwng teulu a ffrindiau, dioddefwr yn tynnu'n ôl o weithgareddau megis clybiau, tramgwyddwr yn mynd gyda'r dioddefwr i apwyntiadau meddygol;
- Dyfeisiau tracio GPS a osodwyd wedi'u trosi a/neu yn amlwg ar ffonau symudol, tabledi, cerbydau ac ati;
- Lle mae gan y tramgwyddwr gyfrifoldeb gofalwr, gallai'r cynllun gofal fod yn ddefnyddiol gan ei fod yn manylu ar ba arian y dylid ei ddefnyddio – e.e. gofalu am blentyn, gofalu am riant neu frawd neu chwaer.
- Tystiolaeth o orchmynion amddiffyn

71. Bydd y pwerau Echdynnu Gwybodaeth yn Neddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd 2022 (Deddf 2022) yn sicrhau bod dull cyson o ofyn am wybodaeth o ffonau a dyfeisiau electronig eraill. Gellir ddefnyddio'r pwerau yn Neddf 2022 pan fod defnyddiwr dyfais, neu yn achos plentyn neu oedolyn heb alluedd, rhywun sy'n gweithredu ar ei ran, yn gwirfoddoli dyfais ac yn cytuno i dynnu gwybodaeth ohoni (ac eithrio mewn amgylchiadau penodol pan fydd person ar goll, yn blentyn neu'n oedolyn sy'n agored i niwed a all fod mewn perygl neu wedi marw).

72. Darperir canllawiau clir i bersonau awdurdodedig ar ddefnyddio'r pwerau mewn cod ymarfer statudol newydd.⁴⁶ Mae'r cod yn cynnwys canllawiau ar ddefnyddio'r pwerau hyn, yn enwedig pan fydd person yn agored i niwed, a all gynnwys y rhai sydd wedi dioddef cam-drin domestig.⁴⁷

73. Gall cyflawnwyr geisio atal llwybrau tystiolaeth, er enghraifft, trwy ddileu negeseuon/ffotograffau neu orfodi dioddefwyr i rannu eu cyfrineiriau neu ddyfeisiau. Dylai swyddogion sicrhau nad oes gorddibyniaeth ar y math hwn o dystiolaeth.

74. Mae ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn batrwm parhaus o droseddu yn hytrach na digwyddiadau unigol ar wahân. Mae hyn yn golygu, er ei bod yn bosibl

⁴⁶ [Echdynnu Gwybodaeth o ddyfeisiau electronig: cod ymarfer \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk).

mae'n rhaid i berson awdurdodedig (fel swyddog heddlu) beidio a bod wedi rhoi unrhyw bwysau gormodol ar berson i wirfoddoli'r ddyfais a rhoi cytundeb, a bod yn rhaid i'r person awdurdodedig ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'r person sy'n rhoi'r cytundeb

Sy'n manylu ar neu'n disgrifio'r wybodaeth a geisir;

Yn manylu ar y rheswm pam y ceisir yr wybodaeth, (y trywydd ymholi rhesymol);

Yn manylu ar sut yr ymdrinnir â'r wybodaeth unwaith y bydd wedi'i hechdynnu;

Yn datgan y caiff y person y gofynnir iddo roi cytundeb wrthod darparu'r ddyfais neu gytuno i echdynnu gwybodaeth ohoni; a

nad yw'r gwrthodiad hwnnw yn dod â'r ymchwiliad neu'r ymchwiliad i ben yn awtomatig.

nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo'r drosedd pan gaiff ei hadrodd yn wreiddiol, wrth i amser fynd heibio ac i'r ymddygiad barhau, gellir casglu rhagor o dystiolaeth. Mae canllawiau'r CPS yn nodi, hyd yn oed lle nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo achos penodol, y dylai erlynwyr ofyn i swyddogion heddlu gynghori'r dioddefwr i gymryd camau i gasglu cofnodion i gynorthwyo unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol.

75. Gallai enghreifftiau o gofnodion a gasglwyd gynnwys:

- Dyddiadur o ddigwyddiadau (yn ddelfrydol mewn llyfr wedi'i rwymo, a/neu drwy gadw cofnod electronig i gofnodi dyddiadau/amserau), gan nodi bod risgiau posibl i'r dioddefwr pe bai'r troseddwr yn darganfod hyn;
- Nodi'n ddiogel fanylion tystion a allai fod wedi arsylwi ar neu glywed y digwyddiadau hyn;
- Storio negeseuon neu recordio galwadau a wneir gan y tramgwyddwr;
- Siarad yn ddiogel â chymdogion, cydweithwyr, cyflogwr, teulu, ffrindiau neu wasanaethau cymorth arbenigol.

Ceir enghreifftiau ychwanegol o dystiolaeth hefyd yn yr adran ar *Ddatblygiad Ymchwiliol* yn [Arfer Proffesiynol Awdurdodedig ar gyfer Cam-drin Domestig y Coleg Plismona](#).

76. Cyn gofyn i ddiodeffwr gasglu cofnodion, dylai swyddogion heddlu fod yn ymwybodol os yw diodeffwr yn dal i fyw gyda'r tramgwyddwr neu'n parhau i gael cyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol ag ef/hi neu deulu neu ffrindiau'r tramgwyddwr, y gallai cadw cofnodion o'r fath roi'r diodeffwr mewn perygl os bydd y tramgwyddwr yn darganfod cofnodion y diodeffwr. Dylai swyddogion heddlu hefyd ystyried y gall y troseddwr hefyd fod yn ymwybodol y gall yr heddlu ddibynnu ar dystiolaeth o'r fath ac felly y gallai ei wneud yn amhosibl i'r diodeffwr gadw cofnodion o'r fath.

77. Dylai asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu, ystyried ffyrdd y gall y diodeffwr gadw cofnodion yn ddiogel o'r hyn sy'n digwydd iddo/iddi. Gallai hyn gynnwys: cadw negeseuon testun neu eu hanfon at ffrind i'w cadw'n ddiogel; cymryd sgrinluniau o e-byst a negeseuon cyfryngau cymdeithasol; a chadw dyddiadur. **Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod diogelwch diodeffwyr yn hollbwysig a gwaith yr heddlu yw adeiladu'r achos ar ran y diodeffwr, ac nid rôl y diodeffwr i adeiladu'r achos ar ran yr heddlu.** Gall gwasanaethau cymorth cam-drin domestig arbenigol, fel yr amlinellir yn **Atodiad G**, gynorthwyo diodeffwyr a gweithwyr proffesiynol â chynghor ymarferol ar sut i gofnodi a chadw tystiolaeth yn ddiogel.

78. Gallai diodeffwyr elwa o gael eu tystiolaeth wedi'i chofnodi i'w galluogi i roi eu tystiolaeth orau yn y llys. I nodi, mae Deddf 2021 yn darparu y bydd pob diodeffwr cam-drin domestig yn awtomatig yn gymwys i gael cymorth wrth gymryd rhan neu roi tystiolaeth mewn achosion teuluol, sifil neu droseddol. Gallai hyn eu galluogi, er enghraifft, i roi eu tystiolaeth o'r tu ôl i sgrin, neu drwy gyswllt fideo, os yw'r rhain ar gael, neu unrhyw fesurau arbennig eraill os yw'n berthnasol.

79. Mae angen tystiolaeth ddigonol ar y CPS i awdurdodi unrhyw gyhuddiad. Fodd bynnag, hyd yn oed os na ellir awdurdodi cyhuddiad, mae mesurau amddiffynnol y gall yr heddlu roi cyngor arnynt, gan gynnwys mesurau diogelwch yn y cartref a gorchmynion amddiffynnol. Ceir rhagor o wybodaeth am y gorchmynion hyn yn *Adran 4* y canllaw hwn.

80. Weithiau bydd dioddefwyr yn gofyn i'r heddlu beidio â bwrw ymlaen â'r achos ac yn datgan nad yw'n dymuno rhoi tystiolaeth rhagor. Gall dioddefwyr dynnu'n ôl o erlyniad am lawer o resymau ac ni ddylid gwneud unrhyw ragdybiaethau pan fydd hyn yn digwydd. Nid yw ychwaith yn golygu na ddylid cymryd unrhyw gamau ychwanegol. Mae [Canllawiau Cyfreithiol Cam-drin Domestig y CPS](#) yn nodi y dylai'r heddlu ddarparu datganiad i'r erlynydd yn dilyn cyswllt â'r dioddefwr i egluro'r rhesymau pam mae tynnu'r honiad yn ôl/tynnu cymorth yn ôl wedi cael ei wneud. Heb hyn ni ellir gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch y camau nesaf i'w cymryd. Gydag unrhyw achos ac unrhyw reswm wedi'i roi, mae'n bwysig bod erlynwyr yn canfod pam fod dioddefwr wedi tynnu ei honiad yn ôl neu wedi tynnu ei gefnogaeth yn ôl o'r achos, a'r risgiau a'r effeithiau i unrhyw blant a/neu unrhyw ddibynyddion, cyn penderfynu pa gamau i'w cymryd.

81. Gall adroddiad swyddog heddlu ddatgelu'r angen i ystyried os dylid dwyn cyhuddiadau ychwanegol, er enghraifft, bygwth tystion, aflonyddu neu stelcian, neu os torrwyd amodau mechnïaeth y tramgwyddwr. Lle nad yw adroddiad dioddefwr o honiad yn ei ddatganiad tynnu'n ôl yr un peth, neu nad yw'n gyson â datganiad cynharach, mae posibilrwydd y gallai'r dioddefwr fod wedi cael ei roi dan bwysau i newid ei adroddiad. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid gofyn i'r heddlu ymchwilio i newidiadau ac os oes angen ymchwiliad ychwanegol i'r amgylchiadau.

82. Gall fod llawer o resymau posibl pam na fydd dioddefwr cam-drin domestig yn cefnogi achos rhagor ac mae'n hanfodol peidio â beio'r dioddefwr gan y gallai hyn atal pobl rhag adrodd yn y dyfodol.⁴⁸ **Gall rhesymau pam na all dioddefwr gefnogi achos bellach gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:**

- ofn cyflawni troseddau eraill, neu risg o niwed ychwanegol (yn bersonol a thrwy dechnoleg);
- ofn dod wyneb yn wyneb â'r tramgwyddwr yn y llys;
- bygythiadau a/neu bwysau gan y tramgwyddwr, teulu neu gydnabod y tramgwyddwr;
- bygythiadau a/neu bwysau gan deulu neu gydnabod y dioddefwr (er enghraifft, mewn achosion o gam-drin ar sail 'anrhydedd')
- dymuniad i gael ei gymodi â'r tramgwyddwr, os nad yw wedi'i gymodi eisoes, neu ddymuniad i ddychwelyd at y teulu, os yw wedi dieithrio;
- nad yw'r dioddefwr bellach mewn perthynas â'r tramgwyddwr neu nad yw am ail-fyw'r digwyddiad;
- ofn y bydd plant yn cael eu symud a'u rhoi mewn gofal, neu ddim am gael ei gweld yn 'anodd' os yw plant neu ddibynyddion eraill yn gysylltiedig;
- gall parhau ag erlyniad achosi i'r dioddefwr deimlo ei fod yn gyfrifol am y tramgwyddwr yn cael cofnod troseddol (er enghraifft, mewn achosion o gam-drin plentyn i riant);
- cywilydd wrth adrodd am y gŵyn (o ganlyniad i gefndir y dioddefwr neu'r tramgwyddwr, neu er enghraifft, mewn achosion o gam-drin plentyn i riant);
- amser, gallu neu gymorth i gymryd rhan yn y broses;
- profiad negyddol blaenorol neu ddiffyg ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder troseddol (e.e.: achosion yn cael eu atal, oedi yn y broses, teimlo wedi'u haildrawmateiddio gan y broses); a
- ofn yr effaith ar statws mewnfudo'r dioddefwr (e.e. os yw ei statws yn dibynnu

⁴⁸ [Canllawiau Cyfreithiol y CPS: Cam-drin domestig.](#)

ar y cyflawnwr).⁴⁹

Cyfeiriwch at Atodiad E am ragor o enghreifftiau o resymau dros ddioddefwyr yn tynnu'n ôl. Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch hefyd at:

- [Canllawiau Cyfreithiol Cam-drin Domestig y CPS](#) ar dynnu'n ôl; a'r
- adran arweiniad cyfreithiol ar [Osgoi troseddoli achwynydd](#) am gyngor ychwanegol i erlynwyr.

Tactegau tramgwyddwr

83. Nid oes byth unrhyw gyfiawnhad dros gyflawni cam-drin domestig ac er y gall y tramgwyddwr ac eraill feio'r dioddefwr am ei ymddygiad/hymddygiad, nid bai'r dioddefwr yw hynny byth. Er nad yw rhai tramgwyddwyr yn cydnabod bod eu hymddygiad yn gyfystyr â cham-drin domestig, mae'r holl dramgwyddwyr yn gyfrifol am eu hymddygiad a dylid eu dal yn atebol.
84. **Gall tramgwyddwr drin y dioddefwr neu'r rhai o'i gwmpas i wneud y cam-drin yn llai gweladwy neu anghanfyddadwy yn gyfan gwbl. Gall tramgwyddwyr hefyd fod yn arbennig o fedrus wrth drin gweithwyr proffesiynol, asiantaethau a systemau, a gallant ddefnyddio amrediad o dactegau i gadw cysylltiad â'r dioddefwr a rheolaeth drosto/drosti.** Gall tramgwyddwyr hefyd geisio lleihau honiadau, normaleiddio'r ymddygiad a difrio neu danseilio adroddiad neu hygyrdd y dioddefwr. Gall y rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

Bygythiadau a brawychu

- Bygythiadau trais neu fygythiadau i ladd;
- Bygythiadau i dorri gorchmynion llys;
- Defnyddio bygythiadau er mwyn trin y dioddefwr e.e. trwy ddweud wrth y dioddefwr na fydd yr heddlu nac asiantaethau eraill yn ei chredu/gredu, y byddant yn hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol, a/neu y bydd eu plant yn cael eu cymryd i ffwrdd;
- Bygwth tynnu gofal neu beidio ag ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu lle mae'r dioddefwr yn ddibynnol ar hyn, bygwth y dioddefwr ynghylch tynnu meddyginiaethau yn ôl;
- Defnyddio eraill (e.e. teulu, ffrindiau, cyfoedion) i gyfleu bygythiadau gan y tramgwyddwr a/neu adrodd yn ôl i'r tramgwyddwr; a
- Dweud wrth y dioddefwr na fydd yn cael ei chredu/gredu oherwydd bod ganddo/ganddi broblemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu neu anableddau, neu broblemau â chamddefnyddio sylweddau.

Triniaeth

- Gwneud honiadau ffug neu flinderus yn erbyn dioddefwyr a/neu argyhoeddi gweithwyr proffesiynol bod eu tactegau rheoli er diogelwch y dioddefwr ei hun a/neu er diogelwch eu plant. Dylai'r heddlu archwilio os yw hyn wedi bod yn nodwedd ym mherthynas flaenorol y tramgwyddwr drwy drafod â'r dioddefwr neu gael mynediad at alwadau gan yr heddlu neu gofnodion troseddol perthnasol a gedwir am y tramgwyddwr;⁵⁰
- Bygwth 'enwi' y dioddefwr fel ffurf o reolaeth neu orfodaeth, dweud wrth y

⁴⁹ [Canllawiau Cyfreithiol y CPS: Cam-drin domestig \[mae enghreifftiau wedi'u hychwanegu y tu allan i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar restr y CPS\].](#)

⁵⁰ Dylai'r heddlu wneud defnydd priodol o'r [Cynllun Datgelu Trais Domestig](#) (DVDS), gan gynnwys ar yr "hawl i wybod", lle bo angen er mwyn amddiffyn dioddefwr rhag niwed. Cyhoeddwyd canllawiau DVDS wedi'u diweddarau ar 20 Chwefror 2023.

dioddefwr na fydd yn cael ei gredu/chredu oherwydd ei fod/bod yn uniaethu fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol a/neu draws, neu drin gwybodaeth y dioddefwr o ba gefnogaeth sydd ar gael i bobl LHDT a defnyddio mythau a stereoteipiau ynghylch cam-drin domestig LGBT i wneud i weithwyr proffesiynol gredu nad yw cam-drin rhwng cyplau o'r un rhyw yn bodoli;

- Cuddio cydymffurfiaeth e.e. dehongli amodau gorchymyn llys sy'n eu galluogi i barhau i gamddefnyddio yn hytrach na chydymffurfio â'r telerau a nodir yn y gorchymyn;
- Chwarae gwahanol weithwyr proffesiynol yn erbyn ei gilydd;
- Gorliwio eu galluoedd a'u rhwydwaith e.e. mae'r tramgwyddwr yn honni ei fod yn gallu hacio i mewn i ffôn neu gyfrifon y dioddefwr, neu'n honni bod ganddynt ffrindiau troseddol a allai niweidio'r dioddefwr;
- Trin statws mewnfudo'r dioddefwr fel ffurf o reolaeth neu orfodaeth, gan gynnwys atal ID, pasbortau a fisas oddi wrth y dioddefwr, dweud celwydd am ei statws, gadael i fisa dioddefwr ddod i ben yn bwrpasol, neu fethu â gweithredu ar ddyletswyddau noddi at ddibenion mewnfudo;
- Gwneud bygythiadau o hunanladdiad fel dull o reoli'r dioddefwr, yn enwedig i'w atal rhag gadael. Mae ymchwil yn dangos cysylltiad rhwng dynladdiad domestig a syniadaeth hunanladdol tramgwyddwyr, hunan-niweidio, a bygythiadau o hunanladdiad.⁵¹ Canfu archwiliad o gofnodion Heddlu Thames Valley fod y rhai a gyflawnodd ymosodiad domestig difrifol bron deirgwaith yn fwy tebygol o fod yn hunanladdol na throseddwyr treisgar eraill;⁵² a
- Defnyddio plant i reoli neu orfodi'r dioddefwr e.e. cyswllt plentyn rhwystredig a/neu drefniadau plentyn, dweud wrth y plant am alw enwau difrifol ar y dioddefwr neu daro'r dioddefwr, disgwyl i'r plant fonitro'r dioddefwr ac adrodd yn ôl, methu dro ar ôl tro â chasglu'r plant pan wnaethant gytuno i wneud hynny'n flaenorol i achosi problemau'r dioddefwr yn y gwaith, bygwth cipio'r plant, arfogi plant mewn achosion cyfraith teulu.

Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona ar Arestio ac ymagweddau cadarnhaol eraill yn nodi "gall tramgwyddwr ystrywgar fod yn ceisio tynnu'r heddlu i gydgyllwynio â'u rheolaeth a'u gorfodaeth dros y dioddefwr; mae'n rhaid i swyddogion heddlu osgoi chwarae i ddwylo'r prif dramgwyddwr ac ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael wrth wneud y penderfyniad i arestio".

Ecsbloetiaeth

- Ecsbloetio anghenion cymorth cyfathrebu'r dioddefwr neu drin gwybodaeth y dioddefwr o ba gymorth sydd ar gael a gwneud i weithwyr proffesiynol gredu nad oes gan y dioddefwr y gallu i adrodd yn gywir, neu nad yw adroddiadau'n gredadwy oherwydd anawsterau cyfathrebu;
- Manteisio ar ddehongliadau o grefydd neu ffydd i gadw rheolaeth ar ddioddefwr a pharhau â niwed; a

⁵¹ Gweler Bridger, E., Strang, H., Parkinson, J., & Sherman, L. (2017) [Intimate Partner Homicide in England and Wales 2011-2013](#): Pathways to Prediction from Multi-agency Domestic Homicide Reviews. Cambridge Journal of Evidence-Based Policing, 1(2-3): 93-104; Button, I.M., Angel, C., & Sherman, L.W. (2017) [Predicting Domestic Homicide and Serious Violence in Leicestershire with Intelligence Records of Suicidal Ideation or Self-Harm Warnings: A Retrospective Analysis](#). Cambridge Journal of Evidence-Based Policing, 1: 105-115; Home Office, Vulnerability and Knowledge Programme, NPCC, College of Policing (2021) [Vulnerability Knowledge and Practice Programme \(VKPP\): Domestic Homicides and Suspected Victim Suicides During the Covid-19 Pandemic 2020-2021, p.55](#).

⁵² Thornton, S. (2017) [Police Attempts to Predict Domestic Murder and Serious Assaults: Is Early Warning Possible Yet?](#) Cambridge Journal of Evidence-based Policing, 1(2-3): 64-80.

- Thargeddu pobl a allai fod yn agored i niwed (efallai y bydd tystiolaeth o hyn o berthnasoedd blaenorol).⁵³

Tanseilio

- Ceisio rhwystro neu ymyrryd ag ymchwiliad heddlu, gan gynnwys ceisio tanseilio datganiadau'r dioddefwr trwy, er enghraifft, honni ei fod/bod yn sâl yn feddyliol;
- Ceisio rheoli cyllid y dioddefwr, neu ei allu/gallu i gyrchu arian neu gael incwm;
- Ymyrryd â chyfluoedd personol neu broffesiynol y dioddefwyr, e.e. bygwth galw eu cyflogwr a dod i'w man gwaith;
- Torri neu addasu dyfeisiau neu osodiadau cyfrif i ddrysu, cynhyrfu a dychryn y dioddefwr e.e. addasu'r tymheredd gwresogi o bell trwy thermostat sy'n gysylltiedig â'r rhyngwyd;
- Defnyddio'r llysoedd i barhau i gam-drin y dioddefwr, er enghraifft trwy beidio â dod i ddyddiadau'r llys, anfon llythyrau cyfreithiol diangen a bygwth cyswllt; a
- Colli neu ganslo apwyntiadau.

Ceir rhagor o wybodaeth am dramgwyddwyr ym Mhennod 3 y [Canllawiau Statudol ar Gam-drin Domestig](#).

Astudiaeth Achos - David

Roedd David, a oedd mewn perthynas â Harry, wedi dechrau swydd newydd yn ddiweddar a thrwy hyn, gwnaeth grŵp newydd o ffrindiau. Dechreuodd David dreulio rhagor o amser gyda'r grŵp newydd hwn o ffrindiau ac roedd yn mynd allan i glybio gyda nhw'n rheolaidd. Dechreuodd Harry holi David ynghylch pam roedd yn treulio cymaint o amser gyda'r ffrindiau hyn, pan oedd ganddo gariad eisoes a chyhuddodd ef o dwyllo. Pan wadodd David hyn, tarodd Harry ef ar draws ei wyneb. Cyfiawnhaodd Harry ei ymddygiad gan honni, pan fod partneriaid o'r un rhyw, nad yw'n anghyffredin i ddadleuon fynd yn gorfforol ond na fyddai byth yn brifo David yn fwriadol.

Meddyliodd David am hyn a sylweddolodd fod popeth yr oedd wedi'i weld am gam-drin yn canolbwyntio ar barau heterorywiol. Roedd David yn teimlo'n llai abl i herio Harry gan ei fod yn teimlo ei fod yn gwybod mwy am berthnasoedd LHDT na David.

Pan geisiodd David herio Harry, bygythiodd Harry ddweud wrth ffrindiau David sut oedd e "mewn gwirionedd" pe bai'n ceisio dod â'u perthynas i ben. Dywedodd Harry hefyd y byddai'n dweud wrth deulu David am y twyll honedig hwn. Roedd David yn teimlo ei fod yn cael ei reoli'n llwyr gan Harry a phan fyddai'n anghytuno ag ef, byddai Harry yn mynd yn dreisgar ac yn bygwth ei berthynas â ffrindiau a theulu ymhellach.

Defnyddiodd David wasanaeth gwe-sgwrs ar-lein i siarad â chynghorydd cam-drin domestig a ddywedodd wrtho fod yr ymddygiad hwn yn annerbyniol mewn

⁵³[Pecyn Cymorth i Erlynywyr ar Achosion Trais yn Erbyn Menywod a Merched sy'n Cynnwys Dioddefwr Agored i Niwed \(cps.gov.uk\)](#): Gall gwendidau ddisgrifio amgylchiadau penodol person, neu grŵp, y gallai fod angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau mynediad llawn a chyfartal gan y system cyfiawnder troseddol. Mae hefyd yn berthnasol i bobl sydd mewn perygl o ganlyniad i amodau, amgylcheddol neu bersonol, sy'n peryglu eu diogelwch neu eu diogeledd.

perthnasoedd LHDT, yn yr un modd mae'n annerbyniol mewn perthnasoedd heterorywiol. Dywedasant hefyd wrth David am ei opsiynau ar gyfer ceisio cymorth ychwanegol, a chyngor ymarferol ar sut y gallai ddod â'r berthynas i ben yn y ffordd fwyaf diogel posibl pe bai'n dymuno, yn ogystal â sut i adrodd am yr ymddygiad hwn i'r heddlu. Yn ddiweddarach cyhuddwyd Harry o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.

Potensial i fynd ymlaen ag erlyniad heb dystiolaeth fyw y dioddefwr (erlyniadau ar sail tystiolaeth)

85. Mae canllawiau cyfreithiol y CPS yn cadarnhau y dylai'r strategaeth erlyn, o'r cychwyn cyntaf, ystyried y posibilrwydd o fwrw ymlaen heb gefnogaeth y dioddefwr. Yn yr achosion hyn, dylid ystyried y dystiolaeth yn yr achos ac os oes digon i fwrw ymlaen heb dystiolaeth fyw y dioddefwr.

86. Dylai erlynwyr ystyried:

- Defnyddio tystiolaeth ar wahân i dystiolaeth y dioddefwr, gan gynnwys derbyniadau mewn cyfweiliad, CCTV, recordiadau 999, darnau o Fideo a wisgir ar y Corff (BWV), tystiolaeth cyfryngau cymdeithasol neu dystion eraill;
- *Res gestae* - datganiadau a wneir gan y dioddefwr neu dyst i drydydd parti, yn ystod neu'n fuan ar ôl yr amser y cyflawnwyd y drosedd, sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r digwyddiadau, fel ei fod yn annhebygol eu bod wedi'u hystumio neu eu creu, gall fod yn dderbyniol fel tystiolaeth achlust;
148. **Gall tagu a mygu nad ydynt yn angheuol fod yn rhan o gam-drin corfforol a/neu rywiol hefyd. Cyflwynodd Adran 75A o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015⁸⁵ (Deddf 2015) drosedd newydd a phenodol o dagu a mygu heb fod yn angheuol yn Lloegr a Chymru.** Daeth y drosedd i rym ar 7 Mehefin 2022 ac mae'n berthnasol i unrhyw achos lle mae person yn tagu neu fygu person arall yn fwriadol neu'n cyflawni gweithred sy'n effeithio ar allu rhywun arall i anadlu ac mae hyn yn gyfystyr â churo. Bydd y drosedd yn cael ei chymhwyso'n gyffredinol, sy'n golygu y gall fod yn berthnasol i bob achos lle mae person yn fwriadol, ond nad yw'n tagu neu fygu person arall yn angheuol, gan gynnwys yr achosion hynny lle mae'r drosedd yn digwydd mewn cyd-destun cam-drin domestig.

149. **Cyfeiriwch hefyd at [ganllawiau tagu angheuol y CPS](#).**

Ymosodiad rhywiol, gorfodaeth a chamdriniaeth

150. Gall tramgwyddwyr ddefnyddio ymosodiad neu gamdriniaeth rywiol, neu fygythiadau o ymosodiad neu gamdriniaeth rywiol, i reoli neu orfodi dioddefwr. Gall hyn gynnwys:

- Trais ac ymosodiad rhywiol;
- Cael eich rhoi dan bwysau i gael rhyw, neu weithredoedd rhywiol, gan gynnwys gyda phobl eraill;
- Cael eich gorfodi i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol oherwydd bygythiadau i eraill, gan gynnwys plant;
- Cael eich gorfodi i fod yn dyst i weithgaredd rhywiol;
- Cyswllt neu ofynion rhywiol digroeso;
- Trais 'cywirol' (yr arfer o dreisio rhywun â'r nod o'i 'wella' o fod yn LHDT);
- Amlygiad bwriadol i HIV neu heintiau a drosglwyddir yn rhywiol;
- Cael eich rhoi dan bwysau neu gael eich twyllo i gael rhyw anniogel, gan

⁸⁵ Fel y'i diwygiwyd gan adran 70, Deddf Cam-drin Domestig 2021.

- gynnwys twyll dros ddefnyddio atal cenhedlu;
- Ymwneud gorfodol â gwneud neu wyllo pornograffi; a
- Chael eich brifo heb ganiatâd yn ystod rhyw, gan gynnwys trwy fygu neu fygu erotig neu arferion rhywiol sadomasochistaidd eraill.

151. Gall dioddefwyr hefyd fod yn destun gorfodaeth atgenghedlu, a all gynnwys: cyfyngu mynediad dioddefwr at atal cenhedlu; gwrthod defnyddio dull atal cenhedlu; gorfodi'r dioddefwr i feichiogi; methu â datgelu statws atal cenhedlu; twyll ynglŷn â defnyddio atal cenhedlu, gan gynnwys honni ar gam ei fod yn defnyddio atal cenhedlu; gorfodi dioddefwr i gael erthyliad, IVF (ffrwythloni in vitro) neu weithdrefn gysylltiedig arall; neu wrthod mynediad i weithdrefnau o'r fath.

Camdriniaeth eiriol ac emosiynol

152. Gall cam-drin geiriol fod yn gyfystyr â cham-drin emosiynol neu seicolegol neu ymddygiad bygythiol. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Gweiddi dro ar ôl tro;
- Cywilydd llafar naill ai yn breifat neu mewn cwmni;
- Chwerthin a chael hwyl am eich pen;
- Iaith ddilornus, sarhaus, bygythiol neu ddiraddiol; a
- Gwahaniaethu yn erbyn rhywun neu eu gwatwar am eu hanabledd, rhyw neu hunaniaeth rhywedd, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred ffydd, credoau gwleidyddol neu gredoau eraill, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, hil neu ethnigrwydd, ymddangosiad corfforol ac ati.

I gael arweiniad ychwanegol ar gam-drin geiriol, emosiynol neu seicolegol, cyfeiriwch hefyd at Bennod 2 y [Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig](#).

Cam-drin economaidd

153. **Mae Deddf 2021 yn cynnwys cam-drin economaidd fel math o gam-drin domestig (gweler Atodiad C am ddiffiniad llawn). Gall cam-drin economaidd hefyd fod yn fath o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, lle mae'n digwydd dro ar ôl tro neu'n barhaus.** Gall wneud unigolyn yn economaidd ddibynnol ar y tramgwyddwr, a/neu greu ansefydlogrwydd economaidd, gan ei wneud yn anodd iddo/iddi ddianc a chael mynediad at ddiogelwch. Gall hyn arwain at unigolyn yn aros gyda thramgwyddwr ac yn profi rhagor o gamdriniaeth a niwed o ganlyniad.⁸⁶ Fel gyda llawer o fathau eraill o gam-drin, gall cam-drin economaidd fod yn rhan o batrwm ehangach o gam-drin domestig parhaus ac yn ei atgyfnerthu, a dylid ei ystyried fel ffactor posibl mewn ymholiadau cam-drin domestig.

154. **Mae'n bwysig bod yn ymwybodol y gall cam-drin economaidd ddigwydd neu barhau ar ôl i'r dioddefwr wahanu oddi wrth y tramgwyddwr. Gellir ymchwilio i'r patrwm ymddygiad hwn o dan y drosedd ymddygiad rheoli neu orfodi ddiwygiedig (Adran 68 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021).**

155. Canfu arolwg cenedlaethol cynrychioliadol a gynhaliwyd gan Refuge and Co-Op

⁸⁶ Gweler Butt, E. [Know economic abuse: 2020 Report](#); Refuge: 2020; Surviving Economic Abuse (2018) '[Economic abuse is your past, present and future](#)'; Adroddiad ar y rhwystrau ymarferol y mae menywod yn eu hwynebu wrth ailadeiladu eu bywydau ar ôl trais domestig.

fod 17% o fenywod ac 16% o ddynion yn dweud eu bod yn ddioddefwyr cam-drin economaidd. Dywedodd llawer o'r dioddefwyr hyn hefyd eu bod wedi dioddef mathau eraill o gam-drin domestig, fel rhan o batrwm o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi. Roedd y profiadau cyffredin a adroddwyd yn cynnwys achosi difrod i eiddo personol, defnyddio arian fel modd o drin, a chael rheolaeth gyfyngedig neu ddim rheolaeth dros eich incwm eich hun. Mae'r arolwg yn dangos y gallai rhai grwpiau fod yn llai abl i nodi cam-drin economaidd. Er enghraifft, er mai'r rhai 70 oed a hŷn oedd y grŵp oedran lleiaf tebygol o ddweud eu bod wedi profi cam-drin economaidd (8%), pan ofynnwyd iddynt am ymddygiadau penodol, dywedodd 28% eu bod wedi profi'r rhain.⁸⁷

156. Mae'n bosibl na fydd dioddefwyr cam-drin economaidd yn cydnabod eu bod yn cael eu cam-drin a/neu efallai nad ydynt yn ymwybodol y gallai cam-drin o'r fath fod yn drosedd. Er enghraifft, efallai na fydd rhywun sydd wedi ymrwmo i drefniadau ariannol a rennir yn sylweddoli bod y tramgwyddwr yn defnyddio'r trefniant i reoli, pennu neu gamddefnyddio sut y caiff yr arian hwn ei wario. Gall cam-drin economaidd effeithio ar ddioddefwyr o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd, er enghraifft gall dioddefwr cam-drin economaidd ymddangos yn sefydlog yn ariannol ond efallai nad oes ganddo fynediad at, na rheolaeth dros, ei gyllid.

157. Felly mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r amrywiaeth o ffyrdd y gall tramgwyddwr geisio cam-drin ei ddioddefwr yn economaidd. Gall nodi cam-drin o'r fath yn effeithiol hefyd ddarparu tystiolaeth bwysig i gefnogi tystiolaethu ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi neu droseddau eraill.

158. Gall enghreifftiau o gam-drin economaidd gynnwys y canlynol:

Ymddygiadau rheoli/cyfyngol

- Rheoli incwm y teulu;
- Gwrthod cyfrannu at incwm y cartref na rheolaeth y cartref, neu gostau sy'n ymwneud â rhannu cyfrifoldeb riant;
- Peidio â chaniatáu i ddioddefwr wario unrhyw arian oni bai y 'caniateir';
- Gorfodi'r dioddefwr i gyfrif am yr holl wariant;
- Eithrio'r dioddefwr o benderfyniadau ariannol;
- Atal y dioddefwr rhag cael mynediad i gyfrif banc yn ei enw'n unig a/neu gael yr holl gyfrifon yn enw'r tramgwyddwr;
- Atal dioddefwr rhag hawlio budd-daliadau lles a/neu anabledd, rheoli hawliadau am fudd-daliadau lles, hawlio budd-dal plant pan fod y plentyn yn byw gyda'r dioddefwr, neu orfodi rhywun i gyflawni twyll budd-daliadau neu gamddefnyddio budd-daliadau o'r fath;
- Gwadu bwyd i'r dioddefwr neu ganiatáu iddynt fwyta math penodol o fwyd yn unig (e.e. cyfyngu ar fynediad at ddeiet ragnodedig);
- Cynyddu biliau a dyledion fel cardiau credyd/siop yn enw dioddefwr, gan gynnwys heb yn wybod iddynt, neu orfodi'r dioddefwr i'w alluogi i gynyddu biliau/cymryd cardiau credyd/benthyciadau/gorddrafftiau yn ei enw/henw;
- Gamblo gydag arian dioddefwr heb iddo/iddi wybod neu ei orfodi/gorfodi i ddarparu arian ar gyfer gamblo;
- Gwrthod prynu neu wrthod caniatáu prynu cymhorthion hygrychedd;

⁸⁷ Butt, E. [Know economic abuse: 2020 Report](#): Refuge: 2020.

- Gorfodi'r dioddefwr i gymryd contractau (fel ar gyfer ffonau neu ddyfeisiau eraill), neu gymryd contractau yn enw'r dioddefwr heb ei ganiatâd;
- Peidio â chaniatáu i ddioddefwr ddefnyddio ffôn symudol/car/cyfleustodau;
- Peidio â chaniatáu i ddioddefwr brynu bwyd anifeiliaid anwes na chael mynediad at ofal milfeddygol i'w anifail anwes;
- Gwrthod gwneud taliadau y cytunwyd arnynt neu sy'n ofynnol, er enghraifft ad-daliadau morgais neu daliadau cynhaliaeth plant.

Difrodi

- Arwain dioddefwr yn dwyllodrus neu'n orfodol i wneud penderfyniadau ariannol nad ydynt er y budd pennaf iddo/iddi;
- Ymestyn achosion llys teulu a/neu sifil yn fwriadol, neu gynnal achosion yn afresymol â'r bwriad o gynyddu ffioedd cyfreithiol;
- Ymyrryd â dioddefwr neu ei atal rhag rheoleiddio ei statws mewnfudo fel ei fod yn economaidd ddibynnol ar y tramgwyddwr;
- Peidio â chaniatáu i ddioddefwr sefydlu dull adnabod personol (e.e. gwneud cais am rif Yswiriant Gwladol) a all ei atal/hatal rhag gallu cyflawni annibyniaeth ariannol;
- Anfon arian i gyfrif y dioddefwr fel ei fod yn effeithio ar ei gymhwysedd i hawlio budd-daliadau;
- Ymyrryd ag addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a gyrfa dioddefwr;
- Difrodi eiddo'r dioddefwr;
- Gorfodi'r dioddefwr i drosglwyddo eiddo neu asedau;
- Camddefnyddio cynhyrchion ariannol ar y cyd i gael effaith negyddol ar sgôr credyd y dioddefwr ac atal datgysylltiad ariannol;
- Atal y dioddefwr rhag gael hanes credyd;
- Ffugio llofnodion ar contractau;
- Rhoi arian a fwriedir fel cynhaliaeth plant i'r plant yn hytrach na'r dioddefwr, i danseilio awdurdod rhiant;
- Rhoi cwmnïau yn enw'r dioddefwr yn dwyllodrus fel eu bod yn atebol am lenwadau ariannol a thalu treth gorfforaeth;
- Rhwystro gwerthu asedau a rennir yn fwriadol, neu gau cyfrifon ar y cyd neu forgeisi;
- Cuddio asedau, yn enwedig yn ystod setliad ariannol ysgariad; a;
- Chofrestru Atwrneiaeth Arhosol yn dwyllodrus.

159. Amlygodd arolwg Refuge and Co-op ar gam-drin economaidd fod 57% o ddioddefwyr cam-drin economaidd mewn dyled neu wedi bod mewn dyled, a bod gan 26% sgôr credyd yr effeithiwyd arni'n negyddol. Canfuwyd bod menywod yn cael eu gadael â lefelau uwch o ddyled a'u bod yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dal i dalu'r ddyled ar adeg yr arolwg.⁸⁸ Gall hyn gyfyngu ar allu rhywun i adael tramgwyddwr, neu gall greu anawsterau parhaus ar ôl gwahanu, er enghraifft anallu i wneud cais am gynnyrch ariannol newydd, anhawster wrth asesu incwm ac anhawster dychwelyd i'r gwaith. Dylid cyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cyngor ar arian, dyled neu fudd-daliadau a chael eu cynghori i gysylltu â'u banc i weld pa gymorth sydd ar gael. Roedd gan y rhai a oedd yn defnyddio llinell gymorth ariannol arbenigol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig ag anawsterau ariannol (a redir gan y sefydliad Surviving Economic Abuse mewn partneriaeth â Money Advice Plus) rhwng Medi 2018 ac Awst 2020, bum credydwr ar

⁸⁸ Butt, E. [Know economic abuse: 2020 Report](#): Refuge: 2020.

gyfartaledd.⁸⁹

160. **Fel patrwm o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, gall cam-drin economaidd ddechrau, parhau, neu waethygu ar ôl gwahanu yn achos partneriaid agos, neu gall cyllid y dioddefwr gael ei reoli gan aelod arall o'r teulu y mae'n byw gydag ef neu hi, neu nad yw'n byw gydag ef/hi, neu pan allai absenoldeb agosrwydd corfforol olygu mai dyma un o'r unig ffyrdd sydd ar ôl i reoli'r dioddefwr.**
161. Gallai enghreifftiau o gam-drin economaidd ar ôl gwahanu gynnwys y canlynol:
- Ymestyn achosion yn fwriadol ac yn afresymol, er enghraifft trwy fethu â darparu gwybodaeth neu ddatgeliad y gofynnodd y llys amdano â'r bwriad o gynyddu ffioedd cyfreithiol;
 - Peidio â thalu'r morgais heb reswm mwyach, er gwaethaf talu'n flaenorol;
 - Atal gweithredu gorchymyn ariannol a wnaed gan y llys yn afresymol, er enghraifft trwy wrthod caniatáu ymweliadau ar gyfer gwerthu eiddo mewn perchnogaeth ar y cyd;
 - Camddefnyddio cyfrifon banc ar y cyd;
 - Peidio â thalu cynhaliaeth plant y cytunwyd arni a/neu sydd ei hangen, talu cynhaliaeth yn afreolaidd, neu fynnu na wneir taliadau cynhaliaeth oni bai y rhoddir mynediad at y plant;
 - Gwneud ceisiadau diangen mewn achosion llys; a
 - Mynnu arian yn gyfnewid am ganiatáu amser â phlant.

Sylwch nad yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysfawr, a gall yr enghreifftiau a restrir hefyd fod yn berthnasol mewn achosion o gam-drin economaidd ar ôl gwahanu.

Astudiaeth Achos - John

Pan fu farw gwraig John, awgrymodd ei ferch Jenny y dylai hi symud i mewn i helpu i ofalu amdano. Cynigiodd Jenny fod yn gyfrifol am y siopa a biliau eraill y cartref, gan ddefnyddio cerdyn banc ei thad. Pan ofynnodd John os gallai fynd i siopa gyda Jenny, dywedodd y byddai hyn yn ormod o ymdrech ac yn y diwedd rhoddodd y gorau i adael iddo fynd gyda hi ar unrhyw wibdeithiau na defnyddio ei gerdyn banc ei hun. Roedd yr oergell yn aml yn wag ac, er iddo roi arian i Jenny dalu'r biliau cyfleustodau, dechreuodd John gael llythyrau yn dweud nad oedd y biliau'n cael eu talu. Pan ofynnodd John i Jenny am hyn, aeth yn ddig a dywedodd ei fod yn fwy na thebyg yn drysu oherwydd henaint.

Cafodd y llinell ffôn ei thorri i ffwrdd yn y pen draw oherwydd diffyg talu. Awgrymodd John y dylai gael ffôn symudol ond dywedodd Jenny nad oedd ganddo neb i siarad â nhw ac na fyddai'n gwybod sut i'w ddefnyddio beth bynnag. Yn fuan dechreuodd John golli cysylltiad â'i ffrindiau.

Roedd John hefyd yn cael trafferth cadw ar ben golchi dillad ac awgrymodd eu bod yn llogi glanhawr. Gwrthododd Jenny, gan nodi ei fod yn wastraff arian a'i gyhuddo

⁸⁹ Surviving Economic Abuse (2020) [SEA-EJP-Evaluation-Framework_112020-2-2.pdf](https://survivingeconomicabuse.org/SEA-EJP-Evaluation-Framework_112020-2-2.pdf) (survivingeconomicabuse.org)

o ddweud ei bod yn gwneud gwaith gwael yn gofalu amdano. Byddai Jenny yn aml yn gwahodd ffrindiau draw ac yn dweud wrth ei thad fod angen iddo aros yn ei ystafell. Pe bai John yn dod allan, byddai Jenny yn mynd yn ddig, yn ei fychanu ac yn gweiddi arno o flaen ei ffrindiau. Yn y diwedd arhosodd John yn ei ystafell pryd bynnag roedd ffrindiau Jenny drosodd.

Roedd John yn isel iawn, aeth yn flêr, collodd bwysau a theimlai'n unig. Roedd meddyg teulu John yn bryderus am ei gyflwyniad a gofynnodd iddo os oedd popeth yn iawn gartref. Eglurodd John y sefyllfa a gyda'i gilydd fe gysyllton nhw â'r heddlu a nododd gam-drin ariannol oherwydd i Jenny gyfyngu ar fynediad John at ei gyllid, yn ogystal â chaniatáu i ddyledion gronni yn enw ei thad. Dywedodd John wrth yr heddlu am y siopa bwyd a nododd swyddogion fod hyn yn cyfyngu ar ei annibyniaeth a mynediad at fwyd.

Roedd hyn yn galluogi'r heddlu i adeiladu achos ar gyfer ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi. Rhoddwyd amodau mechniaeth i atal Jenny rhag dychwelyd i'r cartref a chyfeiriodd y Meddyg Teulu John at y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion i drefnu trefniadau gofal amgen i'w gefnogi gartref.

162. Gall cam-drin economaidd gael ei amlygu trwy ddefnyddio technoleg a'r rhyngwrwyd. Gall hyn fod yn arbennig o bresennol mewn achosion o gam-drin ar ôl gwahanu. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cyfathrebiadau maleisus trwy gyfeirnodau trosglwyddiadau banc, a monitro a chamddefnyddio cyfrifon ariannol fel bancio ar-lein neu symudol, siopa ar-lein, gwybodaeth asiantaethau gwirio credyd a chyfrifon fel PayPal.

163. Mae'r sefydliad Surviving Economic Abuse, mewn partneriaeth â Money Advice Plus, wedi creu [canllaw](#) i ddeall cam-drin economaidd i ddioddefwyr.

Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ganllawiau wedi'u diweddarau i gwmnïau ar drin cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn deg, ac mae hyn yn cynnwys cyfeiriad penodol at reolaeth economaidd o ran deall tor-perthynas a cham-drin domestig fel sbardun i bobl agored i niwed. Mae'r FCA yn diffinio y rhai sy'n agored i niwed fel cwsmeriaid sydd, "oherwydd eu hamgylchiadau personol, yn arbennig o agored i niwed, yn enwedig pan nad yw sefydliad gwasanaethau ariannol yn gweithredu â lefelau priodol o ofal".⁹⁰

164. Wrth asesu pa mor agored i niwed posibl mae cwsmeriaid, dylid ystyried:

- **Iechyd:** cyflyrau iechyd neu salwch sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni tasgau o ddydd i ddydd;
- **Digwyddiadau bywyd:** digwyddiadau bywyd fel profedigaeth, colli swydd neu dor-perthynas;
- **Gwydnwch:** gallu isel i wrthsefyll sioc ariannol neu emosiynol;
- **Gallu:** gwybodaeth isel am faterion ariannol neu hyder isel mewn rheoli arian (gallu ariannol). Gallu isel mewn meysydd perthnasol eraill megis llythrennedd, neu sgiliau digidol.

165. Mae canllawiau'r FCA yn nodi y dylai cwmnïau gymryd camau i sicrhau bod eu staff yn gallu adnabod ac ymateb yn briodol i anghenion cwsmeriaid sy'n agored i

⁹⁰ Awdurdod Ymddygiad Ariannol (2021) Canllawiau i gwmnïau ar drin cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn deg, t.9.

niwed a'u bod yn "disgwyl i gwmnïau ddarparu lefel o ofal i'w cwsmeriaid sy'n briodol o ystyried nodweddion y cwsmeriaid eu hunain". Mewn perthynas â cham-drin domestig ac economaidd, mae canllawiau'r FCA yn nodi "dylai staff perthnasol fod yn ymwybodol bod hyn yn gyffredin, gydag effeithiau uniongyrchol a hirdymor ar ddioddefwyr a goroeswyr ar draws holl achoswyr bod yn agored i niwed. Mae'n bwysig bod staff perthnasol yn ymwybodol o sut y gall cyflawnwyr camdriniaeth ddefnyddio gwasanaethau ariannol yn eu ffordd o gam-drin a chydabod sut i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar ddioddefwyr yn ddiogel".⁹¹ Mae gan sefydliadau ariannol ddyletswydd a chyfrifoldeb i leihau'r posibilrwydd o niwed i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed.

166. Dylai gwasanaethau ariannol hefyd gyfeirio at [God Cyllid Cam-drin Ariannol y DU](#), sy'n nodi sut y dylai banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n cymryd rhan gynorthwyo cwsmeriaid sy'n dioddef o gam-drin domestig, ariannol neu economaidd. Nod y Cod yw cynyddu ymwybyddiaeth a gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae cam-drin domestig, ariannol ac economaidd yn ei olygu i gwmnïau, gweithwyr, dioddefwyr, dioddefwyr posibl, a'u teuluoedd, a sicrhau rhagor o gysondeb yn y cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd ei angen.

Camdriniaeth wedi'i hwyluso gan dechnoleg

167. Gall ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi hefyd ddigwydd gan ddefnyddio technoleg a'r rhyngwrdd, gan alluogi'r cam-drin i gael ei gyflawni yn y cartref ac o bell. Mae cam-drin a hwylusir gan dechnoleg yn ffurf gynyddol gyffredin o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi a gall ddigwydd fel rhan o batrwm ymddygiad. Mae camddefnyddio technoleg yn y modd hwn yn caniatáu anhysbysrwydd sylweddol i dramgwyddwyr ac ychydig o oruchwyliaeth nac atebolrwydd am eu hymddygiad.

168. Canfu arolwg cynrychioliadol y DU a gynhaliwyd gan Refuge fod 16% o fenywod a 10% o ddynion wedi profi o leiaf un ymddygiad a oedd yn awgrymu cam-drin neu aflonyddu ar-lein gan bartner presennol neu gyn-bartner. Mae'r ffigur hwn yn codi i 1 o bob 5 (22%) ymhlith menywod iau rhwng 18 a 34 oed. Canfu'r un arolwg fod 94% o fenywod sy'n profi cam-drin wedi'i hwyluso gan dechnoleg ar gyfryngau cymdeithasol, hefyd wedi profi mathau eraill o gam-drin domestig.⁹² Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn effro i gam-drin a hwylusir gan dechnoleg a sut y gall chwarae rhan allweddol mewn cam-drin domestig. Efallai y bydd dioddefwr yn teimlo na all wyro oddi wrth ei drefn arferol na chael mynediad at gymorth oherwydd monitro a gwyliadwriaeth a hwylusir gan dechnoleg a gynhelir gan y tramgwyddwr. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i gam-drin a hwylusir gan dechnoleg o fewn perthnasoedd agos pobl ifanc, o ystyried bod eu bywydau yn aml wedi'u seilio'n drwm ar-lein.

169. **Mae rhai enghreifftiau o gam-drin a hwylusir gan dechnoleg yn cynnwys,** ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Rhoi gwybodaeth ffug neu faleisus am ddioddefwr ar eu cyfryngau cymdeithasol neu gyfryngau cymdeithasol pobl eraill;
 - Seiber-stelcian ac aflonyddu wedi'i hwyluso gan dechnoleg;

⁹¹ Awdurdod Ymddygiad Ariannol (2021) Canllawiau i gwmnïau ar drin cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn deg, t.18.

⁹² [Refuge \(2021\) Unsocial Spaces: Make online spaces safer for women and girls.](#)

- Trolïo, fel gadael negeseuon sarhaus trwy gyfryngau cymdeithasol;
- Negeseuon difriol, ymosodol neu fygythiol trwy neges destun, WhatsApp neu e-bost;
- Hacio i mewn i gyfrifon e-bost, proffiliau cyfryngau cymdeithasol a galwadau ffôn, eu monitro neu eu rheoli;
- Hacio i mewn, monitro neu reoli dyfeisiau;
- Gorfodi'r dioddefwr i rannu ei gyfrineiriau;
- 'Docsio' - rhoi gwybodaeth bersonol breifat rhywun ar-lein;
- Rhwystro'r dioddefwr rhag defnyddio ei gyfrifon ar-lein, ymateb yn lle'r dioddefwr neu greu cyfrifon ar-lein ffug;
- Cyrchu, monitro a rheoli cofnodion iechyd digidol a chyfrifon meddygol, e.e. diwygio ceisiadau presgripsiwn, canslo apwyntiadau, gwneud cais ffug am apwyntiadau neu ddefnyddio'r cynnwys i reoli neu orfodi;
- Defnyddio ysbïwedd neu leolwyr GPS ar eitemau fel ffonau, cyfrifiaduron, technoleg gwisgadwy, ceir, beiciau modur ac anifeiliaid anwes neu ar blant a/neu eu heiddo;
- Hacio dyfeisiau sydd wedi'u galluogi gan y rhyngwrdd fel PlayStations neu iPads i gael mynediad at gyfrifon neu olrhain gwybodaeth fel lleoliad person;
- Rheoli'r dioddefwr trwy dechnoleg y plentyn, er enghraifft ffôn neu deganau'r plentyn;
- Defnyddio dyfeisiau personol fel orïawr clyfar neu ddyfeisiau cartref clyfar (fel Amazon Alexa, Google Home Hubs, cloeon clyfar a dyfeisiau goleuo/gwresogi clyfar) i fonitro, rheoli neu godi ofn;
- Defnyddio camerâu cudd a chlychau drws clyfar i fonitro neu sbïo;
- Defnyddio nodweddion camera a meicroffon i ddal delweddau personol i'w defnyddio fel blacmel;
- Creu cyfrifon ffug; a
- Defnyddio pobl eraill i greu cyfrifon ar-lein neu gyfryngau cymdeithasol ffug neu ddefnyddio eu cyfrifon eu hunain i aflonyddu neu fonitro'r dioddefwr trwy ddirprwy. Gall hyn ganiatáu i'r cam-drin barhau hyd yn oed pan fydd y dioddefwr efallai wedi rhwystro'r tramgwyddwr ar ei gyfryngau cymdeithasol a'i ddyfeisiau.

Mae datblygiad cynhyrchion technolegol newydd a dyfeisiau 'clyfar' yn golygu bod hwn yn ffurf esblygol o gam-drin.

170. Diwygiodd Deddf Cam-drin Domestig 2021 Adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015, gan ehangu'r drosedd bresennol o 'ddatgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol preifat â'r bwriad o achosi trallod emosiynol', a elwir ar lafar yn 'porn dial' i gynnwys 'bygwth rhannu' y defnyddiau hyn. Mae hyn yn golygu ei fod nawr yn drosedd i unigolyn fygwth rhannu delweddau personol, â'r bwriad o achosi trallod emosiynol i'r unigolyn hwnnw, heb ganiatâd yr unigolyn a ddarlunnir. Gellir defnyddio bygythiadau i rannu delweddau a ffilmiau personol neu rywiol fel rhan o batrwm ymddygiad i reoli a gorfodi dioddefwyr, yn ystod perthynas â thramgwyddwr ac ar ôl gwahanu.
171. Gan fod technoleg yn rhan annatod o fywydau llawer o bobl, ni ddylid byth gofyn i ddioddefwyr cam-drin a hwylusir gan dechnoleg roi'r gorau i ddefnyddio eu dyfeisiau neu gyfrifon ar-lein i atal cam-drin rhag parhau. Dylai swyddogion heddlu ymateb i gamdriniaeth a hwylusir gan dechnoleg drwy gynnal ymchwiliad trylwyr a chymryd agwedd ragweithiol at gasglu tystiolaeth. Yn yr achosion hyn, mae adalw

amserol a thrylwyr o ddyfeisiau'r cyflawnwr yn bwysig wrth gasglu tystiolaeth. Pan fydd cyflawnwyr yn cael eu cyfweld cyn i'w dyfeisiau gael eu hadalw, gallai hyn roi cyfle iddynt ddileu neu ddinistrio tystiolaeth, rhoi'r dyfeisiau anghywir, neu ddiogelu eu dyfeisiau â chyfrinair.

Astudiaeth Achos - Tania

Dywedodd gŵr Tania, Charlie, ei fod yn gwybod mwy am dechnoleg nag y gwnaeth hi a sefydlodd ei ffôn clyfar gan ddefnyddio ei gyfeiriad e-bost. Fe wnaeth Charlie hefyd lawrlwytho ap dilyn i ffôn Tania gan ddweud bod hyn rhag ofn i Tania ei golli, ond pan ddangosodd Tania fel unrhyw le arall heblaw am gartref, yr archfarchnad neu'r gwaith, byddai'n mynd yn ddig.

Gosododd Charlie CCTV hefyd ym mhob un o'r prif fannau byw yn eu cartref, gan ddweud wrth Tania fod hyn er eu diogelwch. Yn fuan dechreuodd Charlie wirio'r camerâu o bell, gan gwestiynu beth oedd Tania yn ei wneud, pryd bynnag y byddai gartref hebddo.

Un diwrnod, gadawodd Tania ei ffôn gartref ac aeth i gwrdd â ffrind. Ymddangosodd Charlie yn ddirybudd ac roedd yn ddig, gan ei chyhuddo o adael ei ffôn gartref yn fwriadol. Yn ddiweddarach daeth Tania o hyd i ddyfais dilyn ar ei char. Dechreuodd Tania deimlo ei bod yn cael ei monitro drwy'r amser a theimlai na allai wneud dim heb ganiatâd Charlie, gan y byddai bob amser yn darganfod rhywsut.

Dechreuodd Tania sylwi hefyd nad oedd hi bellach yn cael hysbysiadau gan ei apiau cyfryngau cymdeithasol a bod y rhain wedi'u hanalluogi. Pan agorodd Tania yr apiau, gwelodd fod Charlie wedi anfon negeseuon sarhaus at ei theulu a'i ffrindiau, yn smalio mai hi oedd hi, yn dweud wrthyn nhw nad oedd eisiau cyswllt arni rhagor a bod eu rhifau wedi cael eu blocio.

Siaradodd Tania â'i brawd ar y ffôn am fod eisiau dod â'r berthynas i ben. Pan ddaeth Charlie adref, roedd yn gwybod popeth am y sgwrs ac aeth yn dreisgar. Pan adroddodd Tania am yr ymosodiad i'r heddlu a chyrhaeddodd nhw i gymryd ei datganiad, fe wnaethon nhw sylwi ar y camerâu yn y tŷ. Gofynnodd swyddogion yr heddlu am hyn, gan arwain at Tania yn datgelu elfennau eraill o ymddygiad Charlie. Yn ystod yr ymchwiliad, daeth yr heddlu o hyd i apiau recordio cudd ar ffôn Tania a oedd yn gysylltiedig ag e-bost Charlie.

Llwyddodd yr heddlu i gyhuddo Charlie am ymosod, yn ogystal ag ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.

Camdriniaeth yn ymwneud â ffydd

172. Er y gall ffydd fod yn ffynhonnell cymorth a chysur i ddioddefwyr, gall cam-drin domestig ddigwydd mewn perthynas â system ffydd a chred unigolyn, a thrwy ddefnyddio'r system honno. Gall defnyddio systemau crefydd a ffydd i reoli a darostwng dioddefwr fod yn fath o gam-drin emosiynol a seicolegol. Fe'i nodweddir yn aml gan batrwm systematig o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi o fewn cyd-destun crefyddol,⁹³ a gall partner presennol neu gyn-bartner, yn ogystal ag aelodau o'r teulu, ei gyflawni. **I gael rhagor o arweiniad ar gam-drin sy'n ymwneud â ffydd, cyfeiriwch hefyd at Bennod 2 o'r [Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig](#).**

Cam-drin ar sail 'Anrhydedd' fel y'i gelwir

173. Mae cam-drin ar sail 'Anrhydedd' (HBA) fel y'i gelwir yn drosedd neu ddigwyddiad sydd wedi'i gyflawni neu a allai fod wedi'i gyflawni i amddiffyn neu amddiffyn anrhydedd canfyddedig y teulu a/neu'r gymuned, neu mewn ymateb i unigolion sy'n ceisio torri rhag cyfyngau normau ymddygiad y mae eu teulu a/neu gymuned yn ceisio eu gosod. Gall HBA gynnwys cam-drin corfforol, emosiynol neu seicolegol ac amrywiaeth o amgylchiadau eraill, nad yw pob un ohonynt yn cynrychioli cam-drin domestig o dan Ddeddf 2021, er enghraifft os nad oes cysylltiad personol rhwng y dioddefwr a'r troseddwr. Fodd bynnag, fel arfer bydd HBA yn cael ei gynnal gan aelod neu aelodau o'r teulu ac mae'n debygol o gynnwys ymddygiadau a nodir yn y diffiniad statudol o gam-drin domestig yn Neddf 2021. **I gael rhagor o arweiniad ar gam-drin ar sail 'Anrhydedd', cyfeiriwch hefyd at Bennod 2 o'r [Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig](#).**

174. **Mae priodas dan orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) yn fathau o HBA (mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys ym Mhennod 3 o'r [Canllawiau Statudol ar Gam-drin Domestig](#)).**

Atodiad A - Ystyriaethau cysylltiedig

Gall unigolion ddioddef ymddygiadau camdriniol lluosog a gwahanol oherwydd y ffordd y gall nodweddion gwahanol, megis rhyw, hil, ethnigrwydd, anabledd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, crefydd neu gred **groesdorri a gorgyffwrdd**, ynghyd â ffactorau eraill megis sefyllfa economaidd-gymdeithasol neu statws mewnffudo. Gall y ffactorau hyn greu rhwystrau ychwanegol i gael mynediad at wasanaethau a chymorth os nad ydynt wedi'u cynllunio'n ddigonol i ddiwallu anghenion penodol dioddefwr.

Mae ffactorau eraill a all greu rhwystrau ychwanegol i ddioddefwr rhag cael mynediad at gymorth wedi'u rhestru isod. Mae eraill yn cael eu harchwilio'n fanylach yng ngweddill yr Atodiad hwn:

- **Risg o gam-drin, bygythiadau a thrais yn gwaethygu** - gall y dioddefwr fod yn ofnus o'r hyn y gall y cyflawnwr ei wneud iddyn nhw neu eu plant, gan gynnwys os byddant yn gadael eu sefyllfa, neu'n ofni colli eu plant ar sail bygythiadau gan y tramgwyddwr;

⁹³ gweler Oakley, L. R., Kinmond, K. S., & Humphreys, J. 2018. [Spiritual abuse in Christian faith settings: Definition, policy and practice guidance](#). Journal of Adult Protection, 20(3/4), 144-154.

- **Effaith ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi a thrawma** – gall y cam-drin wneud i'r dioddefwr deimlo'n ynysig, yn ddiwerth, i deimlo mai ef sydd ar fai am y cam-drin a/neu gael ei argyhoeddi na allant ofalu amdano'i hun;
- **Cywilydd a stigma** - gall y dioddefwr ofni peidio â chael ei gredu, teimlo cywilydd ynghylch datgelu cam-drin a/neu ofni methu â chael mynediad at gymorth;
- **Dibyniaeth/ansefydlogrwydd economaidd** - efallai na fydd gan y dioddefwr fynediad at yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gynnal eu hunain neu eu plant yn annibynnol, neu efallai na fydd yn gallu fforddio cynrychiolaeth gyfreithiol oherwydd diffyg mynediad at gymorth cyfreithiol;
- **Byw mewn cymuned wledig neu ynysig** - gall dioddefwr wynebu mwy o arwahanrwydd oddi wrth rwydweithiau cymorth a diffyg mynediad at wasanaethau os ydynt yn byw mewn cymuned wledig o gymharu â lleoliad trefol neu os nad ydynt wedi cael cymysgu'n rhydd â'r gymdeithas ehangach;
- **Priod neu bartner gweithiwr sydd wedi cael ei benodi** - gall dioddefwr fod yn byw mewn llety a ddarperir gan gyflogwr y troseddwr a gallai hyn fod i ffwrdd o'u rhwydweithiau cymorth, megis mewn llety milwrol;
- **Iaith a chyfathrebu** - gall y dioddefwr wynebu heriau penodol wrth gyfathrebu'r gamdriniaeth a allai eu rhwystro rhag cyrchu neu geisio cymorth;
- **Cysylltiadau â'r ardal leol** - gall y dioddefwr ofni gadael ei ardal leol lle mae ganddo rwydwaith o gymorth (ffrindiau/teulu), cyflogaeth a lle mae eu plant wedi setlo yn yr ysgol, yn ogystal â phryder am y chwyldro i fywydau eu plant;
- **Mae'r troseddwr mewn sefyllfa o ymddiriedaeth (e.e. heddwes, meddyg, gweithiwr cymdeithasol)** - gall y dioddefwr fod yn poeni na fyddai'n cael ei gredu neu sgil-effeithiau posibl;
- **Pwysau crefyddol/cymunedol/teuluol** - gall y dioddefwr fod dan bwysau gan ffigurau crefyddol neu gymunedol, neu aelodau o'i deulu estynedig, i beidio â gadael, neu i ddychwelyd os yw wedi gadael;
- **Effaith camddefnyddio alcohol, cyffuriau neu sylweddau** - gall y dioddefwr fod wedi datblygu dibyniaeth ar sylweddau i geisio ymdopi â'r cam-drin, neu fod mewn sefyllfa lle mae'r tramgwyddwr yn cefnogi a/neu'n hwyluso'r caethiwed i gadw rheolaeth arno/arni;
- **Digartrefedd ar y stryd** - gall perthnasoedd camdriniol ddatblygu ar hyd y rhai sydd eisoes yn ddigartref wedi'i ysgogi gan gred ymhlith dioddefwyr agored iawn i niwed eu bod yn fwy diogel ar y stryd mewn cwpl, hyd yn oed lle gallai perthynas fod yn rheoli, yn ymosodol neu'n niweidiol.⁹⁴
- **Iechyd meddwl** - gall cam-drin domestig arwain at nifer o faterion yn ymwneud ag iechyd i'r dioddefwr, gan gynnwys datblygiad cyflwr iechyd meddwl penodol neu gyflyrau lluosog. Gall tramgwyddwyr ddweud wrth ddioddefwr na fydd yn cael ei gredu/chredu oherwydd ei iechyd/hiechyd meddwl;
- **Galluedd meddyliol** - gall rhywun sydd â galluedd meddyliol diffygiol (oherwydd anabledd, salwch neu anaf i'r ymennydd) fod yn arbennig o agored i niwed, o ran y siawns o fod yn ddioddefwr, a'i allu/gallu i gael mynediad at gymorth priodol. Gall tramgwyddwyr drin galluedd meddyliol y dioddefwr trwy geisio gwneud i weithwyr proffesiynol gredu bod gan y dioddefwr y gallu i wneud penderfyniadau pan nad oes ganddo/ganddi, neu nad oes gan y dioddefwr y galluedd i wneud penderfyniadau pan fydd yn gwneud hynny. Nod Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yw grymuso pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain lle bynnag mae'n bosibl a sicrhau bod unrhyw benderfyniad a wneir, neu gamau a gymerir, ar ran rhywun

⁹⁴ Brighton Women's Centre (2018) [Couples First? Deall anghenion cyplau sy'n cysgu allan](#)

sydd heb allu i wneud y penderfyniad neu weithredu drosto'i hun, yn cael ei wneud er ei fudd/budd pennaf. Dylid tybio bod gan berson alluedd i wneud penderfyniad drosto'i hun (yr hawl i ymreolaeth) oni bai y sefydlir nad oes ganddo alluedd. Er y gall fod ganddynt alluedd, gall ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi effeithio ar allu dioddefwr i wneud penderfyniadau'n rhydd;

- **Beichiogrwydd** - Gall bod yn feichiog roi menywod mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin,⁹⁵ er bod y data sydd ar gael ar nifer yr achosion o gam-drin domestig ymhlith unigolion beichiog yn gyfyngedig. I gael rhagor o wybodaeth am gam-drin domestig a beichiogrwydd, cyfeiriwch at Bennod 5 y [Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig](#).
- **Gall nodweddion gwarchodedig**, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, megis oedran, anabledd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, **hefyd greu rhwystrau penodol rhag gadael perthynas â thrangwyddwr neu gael mynediad at gymorth. gan gynnwys:**
- **Anabledd** - Yn achos dioddefwyr anabl, mae'r gamdriniaeth a brofir ganddynt yn aml yn uniongyrchol gysylltiedig â'u hanabledd ac yn cael ei chyflawni gan yr unigolion y maent yn fwyaf dibynnol arnynt am ofal, megis partneriaid agos, cyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu a all fod yn gweithredu fel gofalwr. Mae ymchwil yn awgrymu bod dioddefwyr anabl yn fwy tebygol o wynebu cam-drin gan oedolyn o'r teulu o gymharu â dioddefwyr nad ydynt yn anabl ac yn fwy tebygol o fod yn dal i fyw gyda'r cyflawnwr.⁹⁶ I gael rhagor o wybodaeth am ddioddefwyr anabl cam-drin domestig, cyfeiriwch at Bennod 5 y [Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig](#).
- **Hil ac ethnigrwydd** - Yn aml mae tan-adrodd am gam-drin domestig o fewn cymunedau lleiafrifol, a llawer o ddioddefwyr yn dweud bod stereoteipiau a rhagdybiaethau wedi'u gwneud amdanynt yn dod o 'ddiwylliannau lle cafodd VAWG ei normaleiddio a'i dderbyn' neu eu profiadau o gam-drin domestig yn cael ei drin fel achosion tai a/neu achosion mewnfudo gan awdurdodau cyhoeddus.⁹⁷ Gall profiadau o wahaniaethu a hiliaeth hefyd wneud person yn agored i gael ei gam-drin.⁹⁸ I gael rhagor o wybodaeth am hil ac ethnigrwydd mewn perthynas â cham-drin domestig, cyfeiriwch at Bennod 5 y [Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig](#).

I gael canllawiau ychwanegol ar effaith cam-drin domestig ar wahanol nodweddion a sut y gall gweithwyr proffesiynol ddarparu cymorth, cyfeiriwch at Benodau 4 a 5 o'r [Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig](#) a [Strategaeth VAWDASV Llywodraeth Cymru](#). Ceir rhestr lawn o sefydliadau a gwasanaethau cymorth arbenigol yn **Atodiad G** y canllawiau hyn.

Rhyw

Mae'n bwysig nodi nad yw'r diffiniad statudol o gam-drin domestig yn ymwneud yn

⁹⁵ Gweler [Cam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd - NHS \(www.nhs.uk\)](#); Yakubovich, A, et al (2018) [Factorau risg ac amddiffynol ar gyfer trais partner agos yn erbyn menywod: Adolygiad systematig a meta-ddadansoddiadau o ddarpar astudiaethau hydredol](#). Cymdeithas Iechyd Cyhoeddus America: 108(7): 1-11.

⁹⁶ [SafeLives \(2017\) Disabled Survivors Too: Disabled people and domestic abuse. t.9.](#)

⁹⁷ Thiara. R, Roy. S and Ng. P (2015) Between the lines research briefing: service responses to Black and Minority Ethnic Women and Girls experiencing Sexual Violence, University of Warwick, Swell, Isla Foundation and Imkaan, tt.1-31. Thiara. R, Roy. S and Ng. P (2015) Between the lines research briefing: service responses to Black and Minority Ethnic Women and Girls experiencing Sexual Violence, University of Warwick, Swell, Isla Foundation and Imkaan, tt.1-31. Gweler [Between the Lines: Service Responses to Black and Minority Ethnic \(BME\) Women and Girls Experiencing Sexual Violence - adroddiad newydd i womensgrid - newyddion grwpiau merched](#)

⁹⁸ [SafeLives \(2021\) Ymateb SafeLives i Adroddiad Hil y Comisiwn ar Gydraddoldeb Hiliol ac Ethnig.](#)

benodol â rhyw.

Dioddefwyr benywaidd

Cydnabyddir bod mwy o fenywod na dynion yn cael eu heffeithio gan gam-drin domestig.⁹⁹ Dangosodd ystadegau o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 Arolwg Trosedd Lloegr a Chymru (CSEW) fod menywod yn y flwyddyn flaenorol fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod wedi profi cam-drin domestig na dynion.¹⁰⁰

Dioddefwyr Gwrywaidd

Gall rhwystrau systemig, amgylcheddol a diwylliannol gwahanol effeithio ar grwpiau o ddioddefwyr, gan gynnwys dynion a bechgyn. Gall dioddefwyr gwrywaidd fod yn llai tebygol o ddatgelu eu bod yn cael eu cam-drin neu efallai nad ydynt yn cydnabod eu bod yn ddioddefwyr cam-drin domestig oherwydd efallai eu bod yn credu bod y term 'cam-drin domestig' yn gymwys i fenywod yn unig.¹⁰¹ I gael rhagor o wybodaeth am ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig, cyfeiriwch at Bennod 5 [o'r Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig a'r Datganiad Sefyllfa Cynorthwyo Dioddefwyr Gwrywaidd](#).

Oedran

Plant a phobl ifanc

Mae ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn cael effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc mewn perthynas â pherthnasoedd rhieni neu aelodau eraill o'r teulu. Mae Adran 3 o Ddeddf 2021 yn cydnabod y gall cam-drin domestig effeithio ar blentyn sy'n gweld, yn clywed, neu'n profi effeithiau'r cam-drin, ac yn ymwneud naill ai â'r sawl sy'n cyflawni'r cam-drin neu'r dioddefwr ac felly mae plant bellach yn cael eu cydnabod fel dioddefwyr cam-drin domestig yn eu hawl eu hunain. Dengys ymchwil, ar gyfer plant sy'n profi ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, fod yr effaith yn debygol o fod yn debyg i ddioddefwyr sy'n oedolion.¹⁰² Mae hyn yn amlygu y bydd byw gyda cham-drin domestig yn cael effaith uniongyrchol ar les meddyliol a chorfforol plentyn.

*"Mae'n rhaid i ymarferwyr, llunwyr polisi ac arweinwyr sefydliadau ddechrau cydnabod sut y bydd plant sydd wedi byw gyda thrais domestig gorfodol ar sail rheolaeth yn debygol o fod wedi profi bywydau teuluol hynod gyfyngol a chaeth, â chyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu hyder personol, ymdeimlad o annibyniaeth a chymhwysedd, a sgiliau cymdeithasol."*¹⁰³

Dr Emma Katz (2016)

Os ydynt yn bresennol yn y tŷ yn ystod digwyddiadau penodol o gam-drin domestig neu beidio, bydd plant a phobl ifanc yn profi effeithiau patrymau bob dydd y tramgwyddwr o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi. Gall bod yn ynysig oddi wrth deulu a ffrindiau, y tensiwn a'r ofn yn y cartref a diffyg mynediad at annibyniaeth ariannol a mathau eraill o annibyniaeth i'r rhiant nad yw'n cam-drin i gyd effeithio'n

⁹⁹ Cam-drin domestig a'r system cyfiawnder troseddol - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk).

¹⁰⁰ ONS (2022) [Troseddu yn Lloegr a Chymru - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#).

¹⁰¹ Llywodraeth EM (2022) [Cynorthwyo dioddefwyr gwrywaidd Datganiad sefyllfa ar ddioddefwyr gwrywaidd troseddau a ystyriwyd yn y Strategaeth Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched trawslywodraethol a'r Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig](#).

¹⁰² McLeod, D (2018) [Research in Practice: Coercive control: Impacts on children and young people in the family environment](#), t.29.

¹⁰³ Katz, E (2016) 'Coercive control-based domestic abuse: Impacts on mothers and children'. Llundain: Cyflwyniad, seminar hyfforddi ADA (Yn Erbyn Trais a Cham-drin).

uniongyrchol ar ddatblygiad ac ansawdd bywyd y plentyn.

Gall pobl ifanc brofi cam-drin domestig yn eu perthnasoedd eu hunain. Gall pobl ifanc hefyd brofi camdriniaeth a hwylusir gan dechnoleg trwy dechnolegau newydd a chyfryngau cymdeithasol, y gellir eu defnyddio i fonitro neu aflonyddu ar ddioddefwr.

Dangosodd data Mewnwelediadau Plant Cyfunol SafeLives o 2010 i 2017 fod 53% o'r rhai 13 i 17 oed a gefnogwyd wedi profi difrifoldeb uchel o ymddygiad cenfigennus a rheolaethol.¹⁰⁴ Gall llywio eu perthynas gyntaf neu berthynas agos ei wneud yn anoddach i bobl ifanc adnabod ymddygiadau camdriniol. Yn ogystal, gall rhwystr arall rhag adrodd am y cam-drin fod yn ofn awdurdod neu gael partner, cyn-bartner neu aelod o'r teulu i drafferth â'r heddlu.

Mae'r diffiniad o gam-drin domestig yn Neddf 2021 yn nodi bod gan gam-drin domestig, yng nghyd-destun perthynas agos, isafswm oedran o 16 oed. Fodd bynnag, mae canllawiau'r CPS yn berthnasol i bob achos o gam-drin domestig, beth bynnag yw oedran yr unigolion dan sylw.

Gellir ymchwilio i unrhyw un dros oed cyfrifoldeb troseddol am droseddau sy'n ymwneud ag ymddygiad cam-drin domestig, gan gynnwys y drosedd benodol o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, a'u cyhuddo o droseddau o'r fath. Pan mae dioddefwr yn 18 oed neu'n iau, dylid dilyn gweithdrefnau diogelu plant, heb ystyried a oes unrhyw gamau gan yr heddlu (am ragor o wybodaeth am ddiogelu plant, cyfeiriwch at Bennod 4 yn y [Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig](#)).

Mae angen cymorth wedi'i deilwra ar bobl ifanc sy'n profi neu'n arddangos ymddygiad niweidiol yn eu perthnasoedd eu hunain. Yng Nghymru, nodir hyn yng [Nghanllaw Ymarfer Cymru Gyfan - diogelu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt](#), a gyhoeddwyd (ac i'w defnyddio ar y cyd â) Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Gall gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc gynnig gweithwyr hyfforddedig arbenigol, megis Eiriolwyr

Trais Domestig Annibynnol i Blant (IDVAs) neu Eiriolwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs), a fydd â gwell cysylltiadau ag ysgolion a gwell dealltwriaeth o natur y cam-drin y mae pobl ifanc yn profi yn eu perthnasoedd agos eu hunain.

Gall cam-drin plentyn-i-riant, a elwir hefyd yn gyffredin fel Trais/Cam-drin Pobl Ifanc i Rien (APV/A) a Phlant a'r Glasoed i Drais a Cham-drin Rhieni (CAPVA), gynnwys plant o bob oed, gan gynnwys plant sy'n oedolion, a cham-drin tuag at frodyr a chwiorydd, neiniau a theidiau, modrybedd, ewythrod yn ogystal ag aelodau eraill o'r teulu fel y rhai sy'n gofalu am berthnasau. Os yw'r plentyn yn 16 oed neu'n hŷn, mae'r cam-drin yn dod o dan y diffiniad statudol o gam-drin domestig yn Neddf 2021.

Nid oes diffiniad cyfreithiol penodol o gam-drin plentyn-i-riant ond derbynnir yn gyffredinol ei fod yn cynnwys rhai o'r patrymau ymddygiad y gellir eu canfod mewn cyd-destunau perthynas eraill. Gall ymddygiad gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, iaith bychanu, trais a bygythiadau, ymddygiadau cenfigennus a rheoli, difrod i eiddo, lladrata ac ymddygiad rhywiol dwysach. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at Bennod 2 y [Canllawiau Statudol ar Gam-drin Domestig](#).

Pobl hŷn

¹⁰⁴ [SafeLives \(2017\) Safe Young Lives: Young People and domestic abuse, t.19.](#)

Gall pobl hŷn ddioddef ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi partneriaid, cyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu. Gall y cam-drin hwn gynnwys cam-drin neu esgeulustod economaidd, emosiynol, seicolegol, rhywiol neu gorfforol, a gall effeithio ar ddynion a merched. I gael rhagor o wybodaeth am ddioddefwyr hŷn cam-drin domestig, cyfeiriwch at Bennod 5 y [Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig](#).

Statws mewnfudo a dioddefwyr mudol

Gall dioddefwyr mudol wynebu rhwystrau wrth geisio dianc rhag cam-drin domestig oherwydd eu statws mewnfudo neu ddiffyg hynny. Efallai na fydd gan rai dioddefwyr unrhyw hawl i arian cyhoeddus (NRPF), a all arwain at ddibyniaeth helaethach ar y partner, cyn-bartner neu deulu. Gallant hefyd wynebu effaith economaidd helaethach o adael troseddwr os na allant hawlio budd-daliadau neu gael mynediad at dai, neu os byddant yn colli eu statws mewnfudo trwy adael eu partner, gan gynnwys amddifadedd a digartrefedd. Gall tramgwyddwyr drin statws mewnfudo dioddefwr fel arf ar gyfer ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.¹⁰⁵

Mae enghreifftiau o sut y gall tramgwyddwyr reoli dioddefwyr mudol yn cynnwys:

- Bygwth peidio â darparu cymorth ar gyfer eu harhosiad yn y DU mwyach;
- Ffugio statws mewnfudo dioddefwr a/neu ddod â dioddefwr i'r DU yn bwrpasol â fisa anghywir i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn agored i orfodaeth mewnfudo, a heb opsiynau ar gyfer rheoleiddio;
- Atal dogfennau mewnfudo allweddol rhag dioddefwr, gan gynnwys ei basbort/phasbort, fel na all ganfod pa hawliau a all fod ganddo/ganddi;
- Atal gwybodaeth gywir rhag ddibynnydd, er enghraifft, pan fydd ei fisa yn dod i ben;
- Camreoli statws mewnfudo a/neu gais dioddefwr yn bwrpasol, fel ei fod yn dod yn or-arhoswr a/neu heb statws dilyys. Gallai hyn olygu colli dyddiad cau yn bwrpasol i adnewyddu fisa dibynnydd;
- Defnyddio'r system fewnfudo yn fwriadol i reoli a bygwth dioddefwr. Er enghraifft, os daeth y dioddefwr i mewn i'r DU ar fisa priod, gall tramgwyddwr ddefnyddio, neu fygwth defnyddio, y ddibyniaeth hon fel arf ar gyfer ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi;
- Darparu gwybodaeth anghywir neu gamddealltwriaeth i ddioddefwr am ei hawliau neu i weithwyr proffesiynol amlasiantaethol sy'n ymwneud â gweithio gyda'r dioddefwr. Er enghraifft, dweud ar gam fod gan y dioddefwr NRPF pan nad yw hyn yn wir; a
- Darostwng dioddefwr i drais neu gamdriniaeth ar sail "anrhydedd" o fewn cydestun trawswladol. Er enghraifft, sicrhau bod dioddefwr yn wynebu risg uchel o drais neu gamdriniaeth ar sail "anrhydedd" yn ei wlad wreiddiol, ac wedyn defnyddio'r bygythiad o gael ei alltudio a'r tebygolrwydd o niwed ychwanegol fel arf i'w reoli.

I gael arweiniad ychwanegol ar ddioddefwyr mudol, statws mewnfudo ac ystyriaethau cysylltiedig, cyfeiriwch at Benodau 2 a 5 yn y [Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig](#).

¹⁰⁵ Comisiynydd Cam-drin Domestig. [Diogelwch Cyn Statws: Gwellu llwybrau at gymorth i ddioddefwyr mudol cam-drin domestig](#): 2021.

Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd

Gall dioddefwyr LHDT brofi camddefnydd o bŵer a rheolaeth sydd â chysylltiad agos â chael eu rhywioldeb, hunaniaeth rhywedd neu ailbennu rhywedd yn cael eu defnyddio yn eu herbyn. Gall hyn gynnwys yr ymddygiadau camdriniol canlynol:

- Rheoli neu danseilio cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd dioddefwr;
- Bygythiadau o ddatgelu cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd i deulu, ffrindiau, cydweithwyr, y gymuned ac eraill;
- Datgelu hanes hunaniaeth o ran rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol neu statws HIV heb ganiatâd;
- Cyfyngu neu reoli mynediad i fannau neu adnoddau LHDT;
- Defnyddio cyfraith mewnfudo i fygwth alltudio'r dioddefwr i'w wlad wreiddiol, a allai fod yn annïogel, oherwydd, er enghraifft, deddfwriaeth gwrth-hoyw; a
- Gweithredoedd corfforol neu rywiol treisgar a ysgogir gan gredoau am gyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd unigolyn.

Fel yn achos pob dioddefwr, mae'n bwysig nad yw pobl LHDT yn cael eu hystyried yn grŵp homogenaidd. Gall cam-drin a ddatgelir gan fenywod lesbïaidd fod yn wahanol i gamdriniaeth menywod deurywiol a thraws. Yn yr un modd, gall profiadau dynion hoyw fod yn wahanol i brofiadau dynion deurywiol neu draws.

I gael rhagor o wybodaeth am ddioddefwyr cam-drin domestig LGBT, cyfeiriwch at Bennod 5 y Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig.

Atodiad B - Y drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi

Diwygiodd Deddf Cam-drin Domestig 2021 y drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi i ddileu'r gofyniad 'byw gyda'n gilydd', sy'n golygu y gallai fod yn berthnasol bellach i bartneriaid, cyn-bartneriaid, neu aelodau o'r teulu os yw'r dioddefwr a'r troseddwr yn byw gyda'i gilydd.

Mae adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 68 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021) yn darparu:

(1) Mae person (A) yn cyflawni trosedd os—

(a) yw A yn cymryd rhan dro ar ôl tro neu'n barhaus mewn ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi tuag at berson arall (B),

(b) ar adeg yr ymddygiad, mae gan A a B gysylltiad personol [(gweler is-adran (6))],

(c) mae'r ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar B, a

(d) mae A yn gwybod neu fe ddylai wybod y bydd yr ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar B. ¹⁰⁶

(3) Ond nid yw A yn cyflawni trosedd o dan yr adran hon os, ar adeg yr ymddygiad o dan sylw—

(a) Mae gan A gyfrifoldeb dros B, at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Plant a Phobl

Ifanc 1933 (gweler adran 17 o'r Ddeddf honno), ac

(b) Mae B o dan 16 oed.

(4) Mae ymddygiad A yn cael "effaith ddifrifol" ar B os—

(a) yw'n achosi i B ofni, ar o leiaf ddau achlysur, y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn erbyn B, neu

(b) mae'n achosi braw neu drallod difrifol i B sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar weithgareddau arferol B o ddydd i ddydd.

(5) At ddibenion is-adran (1)(d) "Dylai "wybod" yr hyn y byddai person rhesymol sydd â'r un wybodaeth yn ei feddiant yn gwybod.

(6) "Mae gan A a B "gysylltiad bersonol" os yw unrhyw un o'r canlynol yn gymwys—

(a) eu bod, neu wedi bod, yn briod â'u gilydd;

¹⁰⁶ Nodwch, mae is-adran (2) wedi'i hepgor oherwydd y diwygiadau i'r diffiniad o 'gysylltiad personol' a wnaed gan a.68 Deddf Cam-drin Domestig 2021.

(b) maen nhw, neu maen nhw wedi bod, yn bartneriaid sifil i'w gilydd;

(c) maen nhw wedi cytuno i briodi ei gilydd (os yw'r cytundeb wedi'i derfynu neu beidio);

(d) maen nhw wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil (os yw'r cytundeb wedi'i derfynu neu beidio);

(e) maen nhw, neu maen nhw wedi bod, mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd;

(f) mae gan y ddau, neu mae adeg wedi bod pan fu gan y ddau, berthynas rhiant mewn perthynas â'r un plentyn (gweler is-adran (6A));

(g) maen nhw'n berthnasau.

(6A) At ddibenion is-adran (6)(f) mae gan berson berthynas rhiant mewn perthynas â phlentyn os—

(a) yw'r person yn rhiant i'r plentyn, neu

(b) os oes gan y person gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(7) Yn is-adran (6) a (6a)—

mae gan "gytundeb partneriaeth sifil" yr ystyr a roddir gan adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004;

ystyr "plentyn" yw person o dan 18 oed;

mae gan "cyfrifoldeb rhiant" yr un ystyr ag sydd yn Neddf Plant 1989;

mae gan “perthynas” yr ystyr a roddir gan adran 63(1) o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996.

(8) Mewn achos am drosedd o dan yr adran hon mae’n fath o amddiffyniad i A ddangos—

(a) wrth ymgymryd â’r ymddygiad o dan sylw, bod A yn credu ei fod yn gweithredu er budd B, a

(b) roedd yr ymddygiad o dan yr holl amgylchiadau yn rhesymol.

(9) Cymerir bod A wedi dangos y ffeithiau a grybwyllir yn is-adran (8) os—

(a) y dygir tystiolaeth ddigonol o’r ffeithiau i godi mater mewn perthynas â nhw, ac

(b) os na phrofir i’r gwrthwyneb y tu hwnt i amheuaeth resymol.

(10) Nid yw’r amddiffyniad yn is-adran (8) ar gael i A mewn perthynas ag ymddygiad sy’n peri i B ofni y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn erbyn B.

(11) Mae person sy’n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored—

(a) o’i gollfarnu ar dditiad, i garchariad am gyfnod nad yw’n fwy na phum mlynedd, neu ddirwy, neu’r ddau;

(b) o’i gollfarnu’n ddiannod, i garchariad am gyfnod nad yw’n fwy na 12 mis, neu i ddirwy, neu’r ddau.

Pŵer cyfreithiol ar gyfer canllawiau statudol

Mae Adran 77 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 yn darparu:

Canllawiau ar ymchwilio i droseddau o dan adran 76

(1) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ynghylch ymchwilio i droseddau o dan adran 76 i ba bynnag bersonau y mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn eu hystyried yn briodol.

(2) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o dan yr adran hon.

(3) Mae’n rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol drefnu i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir neu a ddiwygir o dan yr adran hon gael eu cyhoeddi.”

Atodiad C – Darpariaethau yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 sy'n berthnasol i'r canllawiau hyn

Adran 1: Diffiniad o “gam-drin domestig”

- (1) Mae'r adran hon yn diffinio “cam-drin domestig” at ddibenion y Ddeddf hon.
- (2) Mae ymddygiad person (“A”) tuag at berson arall (“B”) yn “gam-drin domestig” os yw—
 - (a) A a B yn 16 oed neu'n hŷn a bod ganddynt gysylltiad personol â'i gilydd, a
 - (b) bod yr ymddygiad yn gamdriniol.
- (3) Mae ymddygiad yn “ddifriol” os yw'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol—
 - (a) cam-drin corfforol neu rywiol;
 - (b) ymddygiad treisgar neu fygythiol;
 - (c) ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi
 - (d) cam-drin economaidd (gweler is-adran (4));
 - (e) cam-drin seicolegol, emosiynol neu gam-drin arall;

ac nid oes gwahaniaeth os yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu gwrs o ymddygiad.

- (4) Mae “cam-drin economaidd” yn golygu unrhyw ymddygiad sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar allu B i —
 - (a) gaffael, defnyddio neu gynnal arian neu eiddo arall, neu
 - (b) gael nwyddau neu wasanaethau.
- (5) At ddibenion y Ddeddf hon gall ymddygiad A fod yn ymddygiad “tuag at” B er gwaethaf y ffaith ei fod yn ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at berson arall (er enghraifft, plentyn B).
- (6) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at fod yn sarhaus tuag at berson arall i'w darllen yn unol â'r adran hon.
- (7) I gael ystyr “cysylltiad personol”, gweler adran 2.

Adran 2: Diffiniad o “gysylltiad personol”

- (1) “Mae gan A a B “gysylltiad personol” os yw unrhyw un o’r canlynol yn gymwys—
- (a) maen nhw, neu maen nhw wedi bod, yn briod â’i gilydd;
 - (b) maen nhw, neu maen nhw wedi bod, yn bartneriaid sifil i’w gilydd;
 - (c) maen nhw wedi cytuno i briodi ei gilydd (os yw’r cytundeb wedi’i derfynu neu beidio);
 - (d) maen nhw wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil (os yw’r cytundeb wedi’i derfynu neu beidio);
 - (e) maen nhw, neu maen nhw wedi bod, mewn perthynas bersonol agos â’i gilydd;
 - (f) mae gan y ddau, neu mae adeg wedi bod pan fu gan y ddau, berthynas rhiant mewn perthynas â’r un plentyn (gweler is-adran (2));
 - (g) maen nhw’n berthnasau.
- (2) At ddibenion is-adran (1)(f) mae gan berson berthynas rhiant mewn perthynas â phlentyn os—
- (a) yw’r person yn rhiant i’r plentyn, neu
 - (b) oes gan y person gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
- (3) Yn yr adran hon —
- ystyr “plentyn” yw person o dan 18 oed;
- mae gan “gytundeb partneriaeth sifil” yr ystyr a roddir gan adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004;
- mae gan “cyfrifoldeb rhiant” yr un ystyr ag sydd yn Neddf Plant 1989;
- mae gan “perthynas” yr ystyr a roddir gan adran 63(1) Deddf Cyfraith Teulu 1996.

Adran 3: Plant fel dioddefwyr cam-drin domestig

- (1) Mae’r adran hon yn gymwys lle maeymddygiad person (“A”) tuag at berson arall (“B”) yn gam-drin domestig.
- (2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Ddeddf hon at ddioddefwr cam-drin domestig yn cynnwys cyfeiriad at blentyn sydd -
- (a) yn gweld neu’n clywed, neu’n profi effaith y cam-drin, ac
 - (b) sy’n gysylltiedig ag A neu B. Fframwaith Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig 16

(3) Mae plentyn yn perthyn i berson at ddibenion is-adran (2) os -

(a) yw'r person yn rhiant i'r plentyn, neu os oes ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto, neu

(b) mae'r plentyn a'r person yn berthnasau.

(4) Yn yr adran hon -

ystyr "plentyn" yw person o dan 18 oed;

mae gan "cyfrifoldeb rhiant" yr un ystyr ag sydd yn Neddf Plant 1989 (gweler adran 3 o'r Ddeddf honno);

mae gan "perthynas" yr ystyr a roddir gan adran 63(1) o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996.

Adran 68: Ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi mewn perthynas agos neu deuluol

(1) Mae adran 76 Deddf Troseddau Difrifol 2015 (y drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi mewn perthynas agos neu deuluol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1)(b), ar ôl "cysylltiedig personol" mewnosoder "(gweler is-adran (6))".

(3) Gadael allan is-adran (2).

(4) Ar gyfer is-adran (6) rhodder—

"(6) Mae gan A a B "gysylltiad personol" os yw unrhyw un o'r canlynol yn gymwys—

(a) maen nhw, neu maen nhw wedi bod, yn briod â'i gilydd;

(b) maen nhw, neu maen nhw wedi bod, yn bartneriaid sifil i'w gilydd;

(c) maen nhw wedi cytuno i briodi ei gilydd (os yw'r cytundeb wedi'i derfynu neu beidio);

(d) maen nhw wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil (os yw'r cytundeb wedi'i derfynu neu beidio);

(e) maen nhw, neu maen nhw wedi bod, mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd;

(f) mae gan y ddau, neu mae adeg wedi bod pan fu gan y ddau, berthynas rhiant mewn perthynas â'r un plentyn (gweler is-adran (6A));

(g) maen nhw'n berthnasau.

(6A) At ddibenion is-adran (6)(f) mae gan berson berthynas rhiant mewn perthynas â phlentyn os—

(a) yw'r person yn rhiant i'r plentyn, neu

(b) os oes gan y person gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.”

(5A) Yn is-adran (7), ar gyfer “is-adran (6)” rhodder “is-adrannau (6) a (6A)”.

Atodiad D - Diffiniadau perthnasol yn Neddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015

(1) Yn y Ddeddf hon—

ystyr “*cam-drin*” yw cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol;

ystyr “*cam-drin domestig*” yw cam-drin pan mae'r dioddefwr ohono wedi bod yn gysylltiedig â'r camdriniwr;

ystyr “*blwyddyn ariannol*” yw cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr “*trais ar sail rhywedd*” yw—

(a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;

(b) anffurfio organau cenhedlu benywod;

(c) gorfodi person (boed drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni briodas grefyddol neu sifil (boed yn gyfreithiol rwymol neu beidio);

ystyr “*awdurdod lleol*” yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr “*Bwrdd Iechyd Lleol*” yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o [Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) 2006 \(c42\)](#);

ystyr “*diben y Ddeddf hon*” yw'r diben yn adran 1;

ystyr “*awdurdod perthnasol*” yw'r ystyr a roddir gan adran 14;

ystyr “*trais rhywiol*” yw camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol, neu fygythiadau o drais o natur rhywiol;

ystyr “*canllawiau statudol*” yw canllawiau o dan adran 15;

(2) Mae person yn gysylltiedig â pherson arall at ddiben y diffiniad o “cam-drin domestig” yn is-adran (1) os—

(a) ydynt yn briod neu wedi bod yn briod â'i gilydd;

(b) ydynt yn bartneriaid sifil i'w gilydd neu wedi bod yn bartneriaid sifil i'w gilydd;

(c) ydynt yn byw neu wedi byw mewn perthynas deuluol barhaus â'i gilydd (boed o wahanol ryw neu o'r un rhyw);

- (d) ydynt yn byw neu wedi byw yn yr un cartref; ac at y diben hwn mae person yn aelod o aelwyd person arall—
- (i) yw'r person fel arfer yn byw gyda'r person arall fel aelod o'i deulu, neu
 - (ii) y gellid yn rhesymol ddisgwyl i'r person fyw gyda'r person arall hwnnw;
- (e) ydynt yn berthnasau;
- (f) ydynt wedi cytuno i briodi ei gilydd (os yw'r cytundeb hwnnw wedi'i derfynu neu beidio);
- (g) ydynt wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil rhyngddynt (os yw'r cytundeb hwnnw wedi'i derfynu neu beidio);
- (h) ydynt mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd neu wedi cael un;
- (i) mewn perthynas â phlentyn, mae'e ddau ohonynt yn rhiant i'r plentyn neu'n meddu ar, neu wedi bod â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
- (3) Os yw plentyn wedi'i fabwysiadu neu'n dod o fewn is-adran (4), mae dau berson hefyd yn gysylltiedig â'i gilydd at ddibenion y diffiniad o "cam-drin domestig" yn is-adran (1) os—
- (a) yw un yn rhiant naturiol i'r plentyn neu riant y fath riant naturiol, ac
 - (b) mae'r llall yn -
 - (i) blentyn, neu
 - (ii) berson sydd wedi dod yn rhiant i'r plentyn yn rhinwedd gorchymyn mabwysiadu, sydd wedi gwneud cais am orchymyn mabwysiadu neu y mae'r plentyn wedi'i leoli gyda nhw ar unrhyw adeg i'w fabwysiadu.
- (4) Mae plentyn yn dod o fewn yr is-adran hon os—
- (a) yw asiantaeth fabwysiadu, o fewn ystyr adran 2 o [Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 \(c.38\)](#), wedi ei hawdurdodi i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu o dan adran 19 o'r Ddeddf honno (lleoli plant â chydsyniad rhiant) neu os yw'r plentyn wedi dod yn destun gorchymyn o dan adran 21 o'r Ddeddf honno (gorchmynion lleoli), neu
 - (b) os rhyddheir y plentyn i'w fabwysiadu yn rhinwedd gorchymyn a wnaed—
 - (i) yn Lloegr a Chymru, o dan adran 18 o [Ddeddf Mabwysiadu 1976 \(c.36\)](#), neu
 - (ii) yng Ngogledd Iwerddon, o dan Erthygl 17(1) neu 18(1) o [Orchymyn Mabwysiadu \(Gogledd Iwerddon\) 1987 \(S.I. 1987/2203\)](#), neu
 - (c) bod y plentyn yn destun gorchymyn sefydlogrwydd Albanaidd sy'n cynnwys rhoi awdurdod i fabwysiadu.

(5) Yn yr adran hon—

ystyr “*gorchymyn mabwysiadu*” yw gorchymyn mabwysiadu o fewn ystyr adran 72(1) o Ddeddf Mabwysiadu 1976 neu adran 46(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr “*plentyn*” yw person o dan 18 oed;

mae gan “*gytundeb partneriaeth sifil*” yr ystyr a roddir gan adran 73 o [Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004](#);

ystyr “*anffurfio organau cenhedlu benywod*” yw gweithred sy’n dramgwydd o dan adrannau 1,2 neu 3 o [Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 \(c.31\)](#);

ystyr “*cam-drin ariannol*” yw—

- (a) cael arian neu eiddo arall wedi’i ddwyn,
- (b) cael eich twyllo,
- (c) cael eich rhoi dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall, a
- (d) cael arian neu eiddo arall yn cael ei gamddefnyddio;

ystyr “*aflonyddu*” yw cwrs o ymddygiad gan berson y mae’n gwybod neu y dylai wybod ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu; ac at ddiben y diffiniad hwn—

- (a) dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu neu’n ymwneud ag aflonyddu os yw person rhesymol sydd â’r un wybodaeth yn ei feddiant yn meddwl bod cwrs yr ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu ar berson arall, ac
- (b) mae “ymddygiad” yn cynnwys lleferydd;

ystyr “*camfanteisio rhywiol*” yw rhywbeth a wneir i berson neu mewn cysylltiad â person sy’n—

- (a) ymwneud â chyflawni tramgwydd o dan Ran 1 o [Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003 \(c.42\)](#), fel y mae iddo effaith; yn Lloegr a Chymru, neu
- (b) byddai’n golygu cyflawni trosedd o’r fath pe bai’n cael ei wneud yn Lloegr a Chymru;

mae gan “*cyfrifoldeb rhiant*” yr ystyr a roddir gan adran 3 o [Ddeddf Plant 1989 \(c.41\)](#);

ystyr “*perthynas*”, mewn perthynas â pherson, yw rhiant, nain neu daid, plentyn, wyres, brawd, hanner brawd, chwaer, hanner chwaer, ewythr, modryb, nai, nith (gan gynnwys unrhyw berson sydd neu wedi bod yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus).

Atodiad E - Enghreifftiau o resymau dros achwynwyr yn tynnu'n ôl

- Ofn cyflawni troseddau eraill, neu risg o niwed ychwanegol (yn bersonol, ond hefyd trwy dechnolegau ar-lein);
- Ofn dod wyneb yn wyneb â'r tramgwyddwr yn y llys;
- Pwysau gan y tramgwyddwr, teulu neu gydnabod y tramgwyddwr;
- ofn ôl-efeithiau a all ddilyn gan gyfoedion y tramgwyddwr, neu aelodau gang lle mae naill ai'r achwynydd, y cyflawnwr neu'r ddau yn gysylltiedig â gang;
- Pwysau gan aelodau eraill o'r teulu, aelodau eraill o'r gymuned neu 'flaenoriaid' cymunedol, gan gynnwys cael eu rhoi dan bwysau i ddatrys 'gwahaniaethau' rhwng partïon trwy gyfryngu, neu dribiwnlysoedd cyflafareddu a gynhelir yn y gymuned;
- Ofn cael eich cywilyddio'n gyhoeddus, eich diarddel neu eich gadael allan o'r gymuned;
- Dymuniad i gael ei gymodi â'r tramgwyddwr, os nad yw wedi'i gymodi eisoes, neu ddymuniad i ddychwelyd at y teulu, os yw wedi'i ddieithrio;
- Nid yw'r achwynydd bellach mewn perthynas â'r tramgwyddwr neu nid yw am ail-fyw'r digwyddiad;
- Ofn y bydd plant yn cael eu symud a'u rhoi mewn gofal, neu ddim am gael ei gweld/weld yn 'anodd' os yw plant neu ddibynyddion eraill yn gysylltiedig;
- Ofn yr effaith ar blant, neu ddibynyddion eraill, neu ôl-efeithiau ariannol (megis derbyn cynhaliaeth plant penodol, lwfansau treth neu gymorth ariannol drwy fudd-daliadau) pe bai'r tramgwyddwr yn cael dedfryd o garchar;
- Gall parhau ag erlyniad achosi i'r achwynydd deimlo ei fod yn gyfrifol am y tramgwyddwr yn derbyn cofnod troseddol a'r effaith ar ei swydd a chyllid ei deulu;
- Gall y tramgwyddwr gytuno i ollwng achosion eraill megis ceisiadau trefniant plant ar gyfer plant, os bydd yr achwynydd yn tynnu'r gŵyn yn ôl;
- Cywilydd wrth adrodd am y gŵyn (o ganlyniad i gefndir cymdeithasol yr achwynydd neu'r troseddwr, neu er enghraifft, mewn achosion o [gam-drin plentyn i riant](#));
- Ofn efallai na ellir eu credu ac ofnau bod y system cyfiawnder troseddol yn rhagfarnllyd tuag at y tramgwyddwr;
- Teimladau o unigedd neu fregusrwydd, ac ofnau na ellir eu credu o ganlyniad i'r gwendidau hynny;
- Ofnau y gallai dangos cefnogaeth i erlyniad eu rhoi mewn perygl ychwanegol o niwed;

- Ofn y bydd statws mewnfudo yn cael ei hysbysu i awdurdodau gorfodi'r gyfraith, neu ofn y gallai cwyn ddatgelu statws mewnfudo'r tramgwyddwr nad yw o bosibl yn ddiogel;
- Ofn cael ei 'enwi' am ei gyfeiriadedd rhywiol, neu hunaniaeth drawsryweddol os nad yw'n hysbys eisoes;
- Ofn datgelu statws HIV neu wybodaeth bersonol sensitif iawn arall os nad yw'n hysbys eisoes;
- Lle mae achwynwyr yn ymwneud â phuteindra, bydd ofnau y bydd unrhyw gysylltiad blaenorol â'r heddlu yn arwain at beidio â chymryd eu cwyn o ddifrif;
- Diffyg ymgysylltu neu gyfathrebu gan asiantaethau cyfiawnder troseddol, neu ofn o beidio â gwybod beth fydd yn digwydd os byddant yn cefnogi erlyniad; neu
- Pryderon nad yw'r asiantaethau cyfiawnder troseddol yn ymwybodol o'r materion y maent yn eu hwynebu neu efallai nad ydynt yn sensitif i'w sefyllfa benodol (fel dealltwriaeth pam fod angen rhai mesurau arbennig).

Atodiad F - Troseddau presennol a all fod yn berthnasol mewn achosion cam-drin domestig

Nid yw'r rhestr ganlynol yn hollgynhwysfawr. Mae'n rhoi rhestr i erlynwyr o droseddau presennol a all fod yn gymwys mewn achosion o gam-drin domestig.

Trosedd trais yn y cartref (Lloegr a Chymru)	Darpariaeth statudol neu gyfraith gwlad (Lloegr a Chymru)
Bygythiadau i ladd	Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 a16
Saethu neu geisio saethu, neu glwyfo, â'r bwriad o wneud niwed corfforol difrifol	Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 a18
Achosi anaf corfforol ag arf neu heb arf	Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 a20
Ceisio tagu, ac ati, er mwyn cyflawni unrhyw drosedd dditiadwy	Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 a21
Rhoi gwenwyn ac ati yn faleisus er mwyn peryglu bywyd neu achosi niwed corfforol difrifol	Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 a23
Rhoi gwenwyn, ac ati, yn faleisus â'r bwriad o anafu, tramgwyddo, neu gythruddo unrhyw un arall	Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 a24
Achosi i bowdwr gwn ffrwydro, neu anfon sylwedd ffrwydrol at unrhyw berson, neu daflu hylif crydrol ar berson, â'r bwriad o wneud niwed corfforol difrifol	Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 a29
Ymosodiad sy'n achosi niwed corfforol	Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 a47
Cydsynio i niwed difrifol er boddhad rhywiol nid amddiffyniad	Deddf Cam-drin Domestig 2021 a71
Dinistrio plant	Deddf Bywyd Babanod (Cadwraeth) 1929
Creulondeb i bersonau dan un ar bymtheg oed	Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 a1
Y drosedd o dorri gorchymyn atal	Deddf Dedfrydu 2000 a636
Trais	Deddf Troseddau Rhywiol 1956 a1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a1
Caffael menyw trwy fygythiadau	Deddf Troseddau Rhywiol 1956 a2
Gweinyddu cyffuriau i gael neu hwyluso cyfathrach rhywiol	Deddf Troseddau Rhywiol 1956 a4
Ymosodiad anwedus ar fenyw	Deddf Troseddau Rhywiol 1956 a14
Ymosodiad anwedus ar ddyn	Deddf Troseddau Rhywiol 1956 a15
Caffael camesgoriad	Deddf Erthylu 1967 a5(2)
Dwyn	Deddf Dwyn 1968 a7
Blacmel	Deddf Dwyn 1968 a21
Dinistrio neu ddifrodi eiddo	Deddf Difrod Troseddol 1971 a1
Bygythiadau i ddinistrio neu ddifrodi eiddo	Deddf Difrod Troseddol 1971 a2

Trosedd trais yn y cartref (Lloegr a Chymru)	Darpariaeth statudol neu gyfraith gwlad (Lloegr a Chymru)
Trais dros sicrhau mynediad	Deddf Cyfraith Droseddol 1977 a6
Cipio plentyn gan riant	Deddf Cipio Plant 1984 a1
Cipio plentyn gan bersonau eraill (nid rhiant)	Deddf Cipio Plant 1984 a2
Affrae	Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 a3
Ofn trais neu ei gymell	Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 a4
Aflonyddu, braw neu drallod bwriadol	Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 a4A
Aflonyddu, braw neu drallod	Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 a5
Y drosedd o anfon llythyrau ac ati â'r bwriad o achosi trallod neu bryder	Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 a1
Ymosodiad a churo cyffredin	Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 a39
Brawychu tystion, rheithwyr ac eraill	Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 a51
Torri gorchymyn amddiffyn priodas dan orfodaeth	Deddf Cyfraith Teulu 1996 a63CA
Aflonyddu - Rhoi pobl mewn ofn trais	Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 a4
Stelcian yn ymwneud ag ofn trais neu ddychryn neu drallod difrifol	Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 a4A
Ymosodiad a waethygydd gan hiliaeth neu grefydd	Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a29
Difrod troseddol a waethygydd gan hiliaeth neu grefydd	Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a30
Troseddau trefn gyhoeddus a waethygydd gan hiliaeth neu grefydd	Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a31
Aflonyddu a waethygydd gan hiliaeth neu grefydd ac ati	Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a32
Ymosodiad trwy dreiddiad	Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a2
Ymosodiad rhywiol	Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a3
Achosi person i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heb ganiatâd	Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a4
Achosi neu annog puteindra er mwyn elw	Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a52
Rheoli puteindra er mwyn elw	Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a53
Masnachu pobl i'r DU ar gyfer camfanteisio rhywiol	Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a57
Masnachu pobl o fewn y DU ar gyfer camfanteisio rhywiol	Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a58
Masnachu pobl allan o'r DU ar gyfer camfanteisio rhywiol	Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a59
Gweinyddu sylwedd â'r bwriad o gyflawni trosedd rywiol	Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a61
Cyflawni trosedd â'r bwriad o gyflawni trosedd rywiol	Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a62
Tresmasu â'r bwriad o gyflawni trosedd rywiol	Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a63

Trosedd trais yn y cartref (Lloegr & Chymru)	Darpariaeth statudol neu gyfraith gwlad (Lloegr & Chymru)
Defnydd amhriodol o rwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus	Deddf Cyfathrebiadau 2003 a127
Torri gorchymyn rhag molestu	Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 a1
Masnachu pobl ar gyfer camfanteisio	Deddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr, etc) 2004 a4 wedi'i ddisodli nawr gan y drosedd yn adran 2 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.
Herwgipio	Cyfraith gyffredin
Carcharu ar gam	Cyfraith gyffredin
Gwyrddroi cwrs cyfiawnder cyhoeddus	Cyfraith gyffredin
Cynorthwyo, annog, cynghori neu sicrhau cyflawni: (a) trosedd dditiadwy a restrir yn y tabl hwn; neu (b) y drosedd o geisio llofruddio	Deddf Affeithwyr ac Anogwyr 1861 a8
Y drosedd o gynllwynio mewn perthynas â: (a) throsedd dditiadwy a restrir yn y tabl hwn; a (b) y drosedd o lofruddio	Deddf Cyfraith Droseddol 1977 a1
Ceisio cyflawni trosedd mewn perthynas â: (a) throsedd dditiadwy a restrir yn y tabl hwn a (b) y drosedd o lofruddio	Deddf Ymdrechion Troseddol 1981 a1
Annog neu gynorthwyo trosedd (troseddau dechreuol) mewn perthynas â: (a) throsedd dditiadwy a restrir yn y tabl hwn; a (b) y drosedd o lofruddiaeth	Deddf Troseddau Difrifol 2007 a44-46
Anogaeth (cyn 1 Hydref 2008) mewn perthynas â: (a) trosedd dditiadwy a restrir yn y tabl hwn a (b) y drosedd o lofruddio	Cyfraith gyffredin
Datgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol preifat â'r bwriad o achosi trallod (pornograffi dial).	Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015, a33
Bygythiadau i ddatgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol preifat â'r bwriad o achosi trallod	Deddf Cam-drin Domestig 2021 a69
Priodas dan Orfodaeth	Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, a1210.
Troseddau yn ymwneud ag anffurfio organau cenhedlu benywod	Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003
Tagu a mygu nad ydynt yn angheuol	Deddf Cam-drin Domestig 2021 a70

Atodiad G - Cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr

Llinell Gymorth Rhadffôn Cam-drin Domestig Genedlaethol 24 awr (Lloegr) - 0808 2000 247, ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn.

Llinell gymorth Byw Heb Ofn (Cymru) - Mae llinell gymorth Byw Heb Ofn yn wasanaeth 24/7 am ddim i holl ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r rhai sy'n agos atynt, gan gynnwys teulu, ffrindiau a chydweithwyr ac eraill sy'n pryderu. Gellir cysylltu â Byw Heb Ofn yn y ffyrdd canlynol:

- Galwch: 0808 80 10 800
- Neges destun: 0786 007 7333
- E-bost: info@livefearfreehelpline.wales
- Sgwrs fyw: gov.wales/livefearfree

Age UK - sefydliad sy'n cynorthwyo pobl hŷn, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin hŷn. Mae Llinell Gymorth Age UK ar 0800 678 1602 ac ar agor rhwng 8am a 7pm, 365 diwrnod y flwyddyn.

Broken Rites - grŵp sy'n cynnig cymorth a gwybodaeth i'w gilydd a phartneriaid clerigwyr, gweinidogion, a Swyddogion Byddin yr Eglwys sydd wedi gwahanu ac ysgaru.

Childline - sefydliad sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc. Mae'r llinell gymorth ar 0800 1111, ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn.

Clinks - sefydliad sy'n cynorthwyo'r sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl yn y system cyfiawnder troseddol a'u teuluoedd. Mae gan Clinks gyfeiriadur o wasanaethau, er nad yw'n hollgynhwysfawr, ac mae ganddynt brofiad o gynorthwyo menywod sydd wedi dioddef cam-drin domestig.

Mae Court Navigation Network - yn cynorthwyo dioddefwyr i wneud ceisiadau am orchmynion sifil mewn achosion o gam-drin domestig.

Dogs Trust Freedom Project - gwasanaeth maethu cŵn arbenigol i ddioddefwyr sy'n ffoi rhag cam-drin domestig.

FLAWS (Finding Legal Options for Women Survivors) - gwasanaeth arbenigol sy'n darparu cyngor cyfreithiol cyfraith trosedd a theulu i oroeswyr benywaidd a gweithwyr rheng flaen ledled Lloegr a Chymru.

Llinell Gyngor Ymateb Hestia i Gam-drin – llinell gyngor arbenigol sy'n cynorthwyo cyflogwyr i helpu staff sy'n profi cam-drin domestig ar 0203 879 3695 neu drwy e-bost Adviceline.EB@hestia.org, ar agor 9am-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Hourglass - sefydliad arbenigol sy'n ceisio rhoi terfyn ar niwed, cam-drin a chamfanteisio ar bobl hŷn yn y DU. Gellir cyrchu eu llinell gymorth dros y ffôn ar 0808 808 8141, tecstiwch ar 07860 052906 neu e-bostiwch helpline@wearehourglass.org.

Galop - sefydliad arbenigol ac elusen gwrth-drais LHDT+ sy'n cynnig cymorth i

ddioddefwyr LHDT+.

Jewish Women's Aid - sefydliad arbenigol sy'n cynorthwyo menywod a phlant Iddewig y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Eu llinell gymorth yw 0808 801 0500 ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 9.30am a 9.30pm (ac eithrio gwyliau Iddewig a gwyliau banc).

Loving Me - sefydliad arbenigol sy'n darparu cymorth ar-lein un-i-un ac eiriolaeth ar gyfer dioddefwyr risg uchel Trawsrywiol, Rhyw Cwiar ac Anneuaidd o gam-drin domestig.

Llinell gymorth cam-drin ar sail anrhydedd Karma Nirvana – sefydliad arbenigol sy'n cynorthwyo dioddefwyr cam-drin ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod. Eu llinell gymorth yw 0800 599 9247 ac mae ar agor rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

ManKind Initiative - sefydliad arbenigol sy'n cynorthwyo dioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig a'u plant.

Men's Advice Line - wedi'i rhedeg gan Respect ar gyfer dynion sy'n dioddef cam-drin domestig. 0808 801 0327 ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 9am i 8pm neu e-bostiwrch info@mensadvice.org.uk.

Mind - elusen iechyd meddwl sy'n darparu cyngor a chymorth i rymuso unrhyw un sy'n profi problem iechyd meddwl.

Muslim Women's Network - sefydliad arbenigol sy'n cynorthwyo menywod a merched Mwslimaidd.

Llinell Gymorth Cam-drin Domestig LHDT+ Genedlaethol - sy'n cael ei rhedeg gan Galop. 0800 999 5428 Dydd Llun i ddydd Gwener 10am i 5pm.

Llinell Gymorth Stelcio Genedlaethol - sy'n cael ei rhedeg gan Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh. 0808 802 0300 Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener rhwng 9:30am a 4pm ac o 9:30am i 8pm ar ddydd Mercher.

NSPCC - prif elusen plant y DU sy'n gweithio i atal cam-drin, ailadeiladu bywydau plant a chynorthwyo teuluoedd.

Llinell gymorth anffurfio organau cenhedlu menywod (FGM) yr NSPCC - 0800 028 3550 neu e-bostiwrch fgm.help@nspcc.org.uk.

Paladin - sefydliad sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr stelcian.

Rape Crisis England and Wales - sefydliad sy'n cynrychioli canolfannau argyfwng traïs rhywiol ledled Lloegr a Chymru sy'n darparu cymorth i fenywod a merched o bob oed sydd wedi profi unrhyw fath o draïs rhywiol. Eu rhif ffôn yw 0808 802 9999. Mae eu gwefan hefyd yn cynnig gwasanaeth Sgwrs Fyw.

Rights of Women - elusen hawliau cyfreithiol arbenigol sy'n darparu cyngor cyfreithiol am ddim i fenywod sy'n profi neu sydd mewn perygl o bob math o Draïs yn erbyn Menywod a Merched.

Maent yn cynghori ar y gyfraith yn Lloegr a Chymru mewn perthynas â chyfraith teulu, cyfraith droseddol, cyfraith mewnfudo a lloches a chyfraith cyflogaeth.

Respect - sefydliad sy'n gweithio gyda dynion sy'n dioddef cam-drin domestig a thrangwyddwyr cam-drin domestig. Mae Respect yn gweithredu'r Men's Advice line, cymorth cyfrinachol i ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig a Respect Phoneline ar gyfer ctramgwyddwyr cam-drin domestig a'r rhai sy'n eu cynorthwyo.

Restored - sefydliad arbenigol sy'n gweithio i fynd i'r afael â cham-drin domestig trwy bartneriaeth ag eglwysi a sefydliadau Cristnogol.

Llinell Gymorth Pornograffi Dial - ar agor rhwng 10am a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. 0345 600 0459 neu help@revengepornhelpline.org.uk.

Gwasanaeth Cam-drin Domestig SignHealth - gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol i gynorthwyo ieuchyd a lles pobl Fyddar.

Sikh Women's Aid - elusen sy'n cael ei rhedeg gan ac ar gyfer menywod o'r gymuned Sikhaid a Phwnjabaiudd, sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Gellir cysylltu â nhw ar 0333 090 1220 neu e-bostio info@sikhwomensaid.org.uk.

Sistah Space - gwasanaeth yn y gymuned sy'n gweithio gyda menywod a merched treftadaeth Affricanaidd sydd wedi profi cam-drin domestig neu rywiol neu sydd wedi cael profedigaeth oherwydd cam-drin domestig. Gellir cysylltu â nhw ar 0207 846 8350 neu e-bostio info@sistahspace.org.

Southall Black Sisters - sefydliad sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr lleiafrifoedd ethnig a menywod mudol.

Stay Safe East - sefydliad arbenigol sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr anabl a byddar cam-drin domestig.

Surviving Economic Abuse - sefydliad arbenigol sy'n ymroddedig i godi ymwybyddiaeth o gam-drin economaidd a thrawsnewid ymateb iddo, gan weithio mewn partneriaeth â Money Advice Plus i ddarparu cyngor arian/dyled i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n profi anawsterau ariannol.'

Suzy Lamplugh Trust - cynorthwyo dioddefwyr stelcian trwy'r Llinell Gymorth Stelcio Genedlaethol a Gwasanaeth Cefnogi Stelcio Llundain.

The Cyber Helpline - cymorth i ddioddefwyr seiberdroseddu a niwed ar-lein. Mae'n cynorthwyo dioddefwyr i ystyried y dystiolaeth ddigidol sydd ar gael a llwybrau diogel i gyrchu ac arbed yr wybodaeth hon.

UK Forced Marriage Unit - cyngor a chymorth i ddioddefwyr a darpar ddioddefwyr priodas dan orfodaeth, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol ar ddelio ag achosion. 020 7008 0151.

Cymorth i Ddioddefwyr - gwasanaeth arbenigol sy'n helpu unrhyw un y mae unrhyw fath o drosedd yn effeithio arnynt, nid yn unig y rhai sy'n ei brofi'n uniongyrchol, ond hefyd eu ffrindiau, teulu ac unrhyw bobl eraill sy'n gysylltiedig â'r drosedd.

Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr (Women's Aid) - sefydliad sy'n cynorthwyo menywod a phlant sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig. Mae gwasanaethau uniongyrchol Cymorth i Ferched, sy'n cynnwys Llinell Gymorth Sgwrs Fyw, gwasanaeth cymorth e-bost, Fforwm y Goroeswyr a'r Survivor's Handbook, ar gael ar wefan <https://www.womensaid.org.uk/information-support>. Mae eu gwefan yn cynnig gwasanaeth Sgwrs Fyw sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm a dydd Sadwrn a dydd Sul 10am i 6pm.

Sefydliadau Penodol i Gymru

Dyn Wales helpline - sefydliad sy'n cynorthwyo dynion sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae'r llinell gymorth ar 0808 801 0321 neu e-bostiwrch support@dynwales.org.

BAWSO - sefydliad arbenigol sy'n ymroddedig i gynorthwyo cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) - sefydliad sy'n darparu gwybodaeth, cymorth arbenigol a therapi i unrhyw un sydd wedi profi unrhyw fath o gam-drin rhywiol a thrais; gellir cysylltu â nhw ar 01248 670 628 neu info@rasacymru.org.uk.

Stepping Stones - sefydliad sy'n darparu gwasanaethau therapiwtig i oedolion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol pan oeddent yn blant; gellir cysylltu â nhw ar 01978 352 717 neu info@steppingstonesnorthwales.co.uk.

New Pathways -y prif ddarparwr gwasanaeth cymorth trais rhywiol ar gyfer Canolbarth, Gorllewin, Dwyrain a De Cymru; gellir cysylltu â nhw ar 01685 379 310 neu enquiries@newpathways.org.uk.

Mae Hafan Cymru – yn cynnig cymorth i fenywod, dynion a theuluoedd sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n ddigartref ac sydd wedi profi cam-drin domestig drwy eu helpu i gael dyfodol mwy diogel a mwy disglair; gellir cysylltu â nhw ar 01267 225 555.

Atodiad H - Rhestr o acronymau

- AAC - Cyfathrebu Cynyddol ac Amgen
- ABH - Gwir Niwed Corfforol
- APP - Arfer Proffesiynol Awdurdodedig
- APA - Cam-drin Pobl Ifanc i Rieni
- APV - Trais Pobl Ifanc i Rieni
- BSL - Iaith Arwyddion Prydain
- BWV - Fideos Wedi'u Gwisgo ar y Corff
- CAFCASS - Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys Plant a Theuluoedd
- CAPVA - Trais a Cham-drin Plant a Phobl Ifanc i Rieni
- CCR - Ymateb Cymunedol Cydlynol
- CCTV - Teledu Cylch Cyfyng
- CPS - Gwasanaeth Erlyn y Goron
- CSEW - Arolwg Trosedd Lloegr a Chymru
- DA - Cam-drin Domestig
- DAPNau - Hysbysiadau Diogelu Cam-drin Domestig
- DAPOau - Gorchmynion Diogelu Cam-drin Domestig
- DARA - Asesiad Risg Cam-drin Domestig
- DASH - Cam-drin Domestig, Stelcio, Aflonyddu a Thrais ar Sail 'Anrhydedd'
- DBS - Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- DSL - Arweinydd Diogelu Dynodedig
- DVDS - Cynllun Datgelu Trais Domestig
- DVPNau - Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig
- DVPOau - Gorchmynion Diogelu Trais Domestig
- FCA - Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- FGM - Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
- FLOWS - Canfod Opsiynau Cyfreithiol i Oroeswyr Benywaidd
- FOUR - Sefydlog, Obsesiynol, Diangen a/neu Ailadroddol
- GBH - Niwed Corfforol Difrifol
- GP - Meddyg Teulu
- GPS - System Leoli Fyd-eang
- HBA - Cam-drin ar Sail 'Anrhydedd'
- HIV - Firws Imiwnoddiffyg Dynol

- HMCTS - Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
- HMICFRS - Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi
- ICBs - Byrddau Gofal Integredig
- ICO - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- ICPau - Partneriaethau Gofal Integredig
- IDVA - Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol
- ISVA - Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol
- IVF - Ffrwythloni in vitro
- LGBT - Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol
- MARAC - Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth
- GIG - Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- NPCC - Cyngor Cenedlaethol Penaethïaid yr Heddlu
- NRPF - Dim Hawl i'r Gronfa Gyhoeddus
- NSPCC - Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
- ONS - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- PCCs - Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
- RASASC - Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol
- SPA - Awdurdod Erlyn y Gwasanaeth
- SPO - Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio
- VAWDASV - Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- VAWG - Trais yn Erbyn Menywod a Merched
- VPS - Datganiad Personol Dioddefwr

⁴⁷ Ni ellir ddefnyddio'r pwerau ond lle mae cred resymol bod gwybodaeth sy'n cael ei storio ar y ddyfais yn ymwneud â llinell ymholi resymol, pan fod y cais yn angenrheidiol ac yn gymesur a lle nad oes unrhyw fodd arall o gael yr wybodaeth ofynnol, neu os oes dulliau eraill, nad yw'n rhesymol ymarferol eu defnyddio. Dim ond os bodlonir y gofynion canlynol y gellir dweud bod person wedi gwirfoddoli dyfais ac wedi cytuno i wybodaeth gael ei thynnu ohoni: